




Dyfodol

# Y Bannau

The Future

—

Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol  
Bannau Brycheiniog  
2023-2028



# Rhagair



**Julie James, AS**

*Y Gweinidog Newid Hinsawdd*

Gwaetha'r modd, nid oes unrhyw un o ecosystemau Cymru ar hyn o bryd yn dangos yr holl rinweddau sy'n gysylltiedig â gwytnwch. At ei gilydd, mae amrywiaeth fiolegol yn dirywio, ac mae maint rhai cynefinoedd hefyd wedi gostwng yn sylweddol. Mae ein Harchwiliad Dwfn Bioamrywiaeth wedi nodi argymhellion uchelgeisiol er mwyn inni gyrraedd y targed 30x30 a bydd Parciau Cenedlaethol yn rhan annatod o'r ymdrech i fwrw ymlaen â nifer o gamau allweddol.

Mae Parciau Cenedlaethol yn gorchuddio tua 20% o arwynebedd tir Cymru ac felly, maent yn bartneriaid hanfodol wrth gyflawni ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae gweledigaeth y Cynllun Rheoli hwn yn annog pobl a natur i gydweithio er mwyn gwella llesiant y gymuned a'r byd natur ac er mwyn lleihau carbon. Drwy wneud hynny, fe fydd yn esiampl ar gyfer byw'n gynaliadwy y tu hwnt i'w ffiniau. Mae hyn yn adlewyrchu'n fawr iawn fy mlaenoriaethau innau ar gyfer y teulu o Dirweddau Dynodedig ar hyd a lled Cymru. Edrychwn ymlaen at gefnogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi'r weledigaeth feiddgar hon ar waith.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu Y Bannau sef Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Parciau Cenedlaethol, ynghyd ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf trawiadol a dramatig yng nghefn gwlad Cymru. Maent yn dirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol ac fe'u dynodwyd â'r statws uchaf o gadwraeth. Mae miliynau o ymwelwyr yn mwynhau'r nodweddion hyn bob blwyddyn.

Anaml y bu Parciau Cenedlaethol yn uwch o ran ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol. Mae manau gwyrdd a gwylt yn rhoi seibiant i bobl a chyfleoedd iddynt anadlu'n rhydd. Yn anffodus, fodd bynnag, maent hefyd wedi'u rhoi dan bwysau mawr ac yn cael eu cam-drin gan rai. Mae'n rhaid i ni alluogi ymwelwyr i gael profiadau o safon fyd-eang a sicrhau nad yw'r nodweddion arbennig yr ydym yn ceisio eu hamddiffyn yn cael eu difrodi. Rhaid i fuddiannau cymunedau lleol, busnesau a rheolwyr tir hefyd fod yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Mae cydbwysu'r diddordebau a'r blaenoriaethau hyn yn gofyn am ddulliau gwirioneddol gydweithredol. Rhaid i Gynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol ymgorffori'r dull hwn o gydweithio a chyd-gynhyrchu, o fewn ac yn gynyddol y tu allan i ffiniau'r Parciau unigol.



# Rhagair



## Catherine Mealing-Jones

*Prif Swyddog Gweithredol*

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Y Bannau sef y Cynllun Rheoli nesaf ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r gwaith o'i ddatblygu wedi cymryd cryn amser, a gobeithio y gwelwch ar ei dudalennau waith caled ac ymroddiad pob un sydd wedi dod ynghyd i lunio ein cynllun ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i bob unigolyn a sefydliad sydd wedi helpu i lunio'r weledigaeth hon ac sydd wedi ymuno â'n hadduned i wneud iddi weithio.

Mae cyd-destun y cynllun hwn yn eithriadol o heriol. Mae'r angen i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth eisoes yn fater brys. Mae'r cyd-destun economaidd byd-eang yn golygu bod angen i Barciau Cenedlaethol weithio'n galetach fyth i ddod o hyd i atebion teg ac i wneud yn siŵr bod y lleoedd arbennig hyn yn hygyrch i bawb ac yn fannau sy'n cynnig lloches, cyfleusterau cymunedol, ac adferiad. Fel sefydliad arweiniol y Parc Cenedlaethol, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r goblygiadau dirfodol a ddaw yn sgil y posibilrwydd o oddiweddyd y trothwy cynhesu o 1.5 gradd, a dychmygu


dyfodol newydd ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer y goblygiadau ymarferol i'n ffordd o fyw.

Mae'r dirwedd hon yn fyw, yn arbennig ac yn unigryw, a thrwy stiwardio'r 520 milltir sgwâr sy'n ffurfio'r Parc Cenedlaethol, gallwn, fel darn bach ond pwysig o'r jig-so, weithredu fel esiampl a fydd yn ysbrydoli ac yn galluogi eraill yn y dasg o ddiogelu ein cartref – sef y Ddaear. Bydd y Cynllun hwn yn ein harwain ni i gyd am y pum mlynedd nesaf o leiaf. Mae'n hollbwysig felly bod ei amcanion yn ein llywio'n ôl i fodolaeth sydd mewn cydbwysedd ag adnoddau prin y Ddaear. Dyna pam bod y Cynllun yn ddigywilydd o uchelgeisiol. Mae ein hymateb yn cael ei reoli gan dystiolaeth sy'n bloeddio fod y system yn dymchwel ac mae'r floedd yn rhy fyddarol i'w hanwybyddu.

Mae fy mhrofiad ers dod i'r Parc Cenedlaethol yn 2021 wedi tanlinellu fy mhenderfyniad i wireddu fy ngweledigaeth ar gyfer Parc sy'n enghraifft fywiog o gynaliadwyedd. Parc sy'n wydn o ran yr amgylchedd, yn economaidd lewyrchus, yn croesawu newid, yn agored ac yn groesawgar i bawb sy'n ceisio cysylltu â natur, harddwch ac antur. Gwn nad fi yw'r unig un sy'n meddu ar y weledigaeth hon. Rwy'i wedi cwrdd, siarad ac ymweld â llawer o unigolion a sefydliadau ysbrydoledig, ac mae nifer ohonynt yn rhan o'r cynllun hwn fel ein Sêr y Bannau. Ar yr adeg hon yn ein hanes, mae ein partneriaid wedi amlygu i mi, trwy eu gweithredoedd, y brys a'r angen am y Cynllun hwn, fel ein bod yn gyrru'r neges bod angen cynnwys cynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rwyf hefyd yn benderfynol bod y cynllun hwn yn helpu unigolion a sefydliadau i gysylltu â difrifwch y problemau yr ydym yn eu hwynebu.

Buon ni'n ffodus iawn i weithio gydag artistiaid lleol talentog, sydd wedi gallu dod â'r argyfwng yn fyw drwy gelf a stori, gan ddechmygu'r hyn sy'n ein disgwyl yn y dyfodol os na fyddwn yn cyflawni'r cynllun hwn. Rwy'n hynod ddiolchgar am hynny a hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb a roddodd o'u hamser i ysgrifennu cardiau post atom o'r dyfodol yr oeddent ei eisiau - maent wedi ein hysbrydoli ni â'u gweledigaethau llawn gobaith. Wrth inni droi yn awr at y cyfnod cyflawni, gan droi'r geiriau yn weithredoedd, hyderaf y bydd pawb sy'n darllen y tudalennau hyn yn dod o hyd i obaith ynddynt. Ac os ydych yn gorff statudol â dyletswydd i weithredu o dan Ddeddf yr Amgylchedd, yn breswlydd unigol yn y Parc, neu'n ymwelydd, rwy'n gobeithio y byddwch yn ddigon penderfynol i gymryd pa faint bynnag o gamau sydd eu hangen i ddiogelu Bannau Brycheiniog ar gyfer y cenedlaethau'r dyfodol.





Yn union fel  
yr ydym ni yn  
gynnyrch ein  
hamgylchedd, mae  
ein hamgylchedd  
hefyd yn gynnyrch  
ohonom ni.

Darren McGarvey

# Crynodeb Gweithredol

## Y Bannau yw'r Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae ei gyhoeddiad yn cyflawni rhwymedigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i baratoi a pharhau i adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer yr ardal.

Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn anelu at fod gymaint mwy na bodloni gofyniad statudol yn unig. Mae'n Gynllun sy'n ceisio mynegi'n glir ac yn ddigywilydd yr angen am newid eang a brys os ydym am oroesi fel adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gynllun sydd â'r nod o ysbrydoli gweithrediadau ac adeiladu clymblaid o'r rhai sy'n barod i gyflawni ein huchelgais ar gyfer y lle gwych hwn yr ydym yn ei alw'n gartref, sef Parc y Bannau.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Rheoli Newid Gyda'n Gilydd diwethaf yn 2010, a chafodd yr adolygiad cyntaf sy'n rhoi llesiant wrth galon y Parc Cenedlaethol, ei gwblhau a'i gyhoeddi yn 2015. Ers yr amser hwnnw, bu sawl newid yng nghydestun y polisi y mae'r Cynllun yn gweithredu o'i fewn; yn fwyaf nodedig, y gydnabyddiaeth gan arweinwyr y byd ein bod yn wynebu Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Bioamrywiaeth. Roedd y ffactorau hyn yn arwydd fod angen newid radical o ran y ffordd y llunnir ac y gweithredir polisiâu, o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd gan gynlluniau ddim ond pum mlynedd yn ôl. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg pan fo'r byd wedi dioddef pandemig rhyngwladol ac wedi dod allan ohono gyda blaenoriaethau newydd ar gyfer y dyfodol. Yn nyddiau tywyll, trasig ac ofnadwy'r cyfnodau clo, fe ddysgon ni ailgysylltu â byd natur. Ni fu'r gwanwyn erioed mor fywiog, ni fu cân yr adar erioed mor glir, ac fe ddaethom o hyd i gysur ym myd natur.

Mae hon yn thema sy'n tanatgu holl neges y Cynllun. Mae'r cyd-destun polisi newidiol a chymhlethdod y pandemig a'i ganlyniadau yn golygu bod y Cynllun hwn yn wahanol iawn i'r Cynlluniau Rheoli blaenorol.

Rhan o newid radical y Cynllun yw'r ffocws a roir ar y Parc Cenedlaethol fel system gyfannol o dan straeu aruthrol. Fe ddaw ein hysbrydoliaeth o fodel economaidd o'r enw 'Y Doesen' a ddyfeisiwyd gan yr Athro Kate Raworth, fel y gallwn dynnu darlun clir o'r graddau y mae'r Parc yn mynd y tu hwnt i derfynau cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydyn ni'n rhy ddibynnol ar garbon; mae ein bioamrywiaeth yn dirywio; mae ansawdd dŵr rhai o'n hafonydd harddaf wedi'i beryglu'n ddirfawr; bu lefelau ymwelwyr yn uwch nag erioed gan arwain at anhrefn traffig yn ein cymunedau; mae yna argyfwng digynsail o ran fforddiadwyedd tai sydd wedi'i ysgogi gan y farchnad am ail gartrefi dymunol, heb sôn am argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y rhan fwyaf o'n pobl ifanc yn gadael trefi a phentrefi'r Parc hwn a bydd rhai byth yn dychwelyd er gwaethaf eu hawydd i wneud hynny – a bydd eu cyfalaf dynol a chymdeithasol yn diflannu gyda nhw. Mae'r ddemograffeg yn mynd yn hwn ac yn hwn wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Mae'r model Toesen yn ein helpu ni i ddangos yn union pa mor bell y mae'n rhaid i'r nodwydd symud os yw ein pwrpasau a'n dyletswyddau i lwyddo yn erbyn y problemau cymhleth hyn.

Mae'r darlun hwn o gyflwr presennol y Parc yn rhoi'r modd inni ganfod lle mae angen gweithredu ar y cyd ar draws ystod o randdeiliaid er mwyn inni symud o'r hen drefn arferol tuag at ddyfodol cynaliadwy. Mae angen i ni weld:

Newidiadau o ran rheoli tir: symud o ddulliau echdynol â chostau allanol uchel tuag at ddulliau atgynhyrchiol sy'n dal ac yn storio carbon ac yn cydfodoli ag adferiad natur ac ecosystemau gwydn.

- Newidiadau o ran systemau trafndiaeth: symud o danwydd ffosil i ynni adnewyddadwy gydag angen i greu trafndiaeth gyhoeddus hyfyw a chynaliadwy ynghyd â dewisiadau ar gyfer teithio llesol.
- Newidiadau o ran ynni: symud o danwydd ffosil i gynhyrchion adnewyddadwy gan ganolbwyntio ar rwydweithiau gwres a phŵer cymunedol a lleol.
- Newidiadau o ran y ddarpariaeth tai i greu opsiynau mwy fforddiadwy gyda safonau cynaliadwyedd uwch o ran dylunio a gweithredu.
- Newidiadau o ran ein heconomi: symud o ddulliau echdynol i rai cylchol ac adfywiol, gyda phwyslais ar ddatblygiadau digidol, sgiliau gwledig newydd a thwf yn yr economi werdd.
- Newidiadau yn y ffordd yr ydym yn rheoli iechyd a llesiant dinasyddion o fodel meddygol i fodel cymdeithasol. Darparu ymyriadau ataliol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn i gysylltu pobl â'r awyr agored a byd natur.

Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio pum cenhadaeth uchelgeisiol gyda'r bwriad o ysgogi gweithrediadau ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r dull hwn wedi'i ysbrydoli gan Economi Genhadol yr economegydd Mariana Mazzucato. Mae'r cenadaethau'n canolbwyntio ar hinsawdd, dwr, natur, pobl a lle. Mae amcanion sy'n diffinio llwyddiant yn cyd-fynd â phob cenhadaeth.

Mae'r cenadaethau, a nodir drosodd, a'r amcanion wedi'u datblygu ar sail ymchwil helaeth ac ar gydweithio ag ystod eang o randdeiliaid. Bellach, bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu i gyflawni'r cenadaethau.

# Pum cenhadaeth rhyng-gysylltiedig

## Hinsawdd

Cyrraedd sero net o ran allyriadau nwyon ty gwydr ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035.

## Dwr

Adnoddau ac amgylcheddau dwr glân, diogel, gwydn a digonol erbyn 2030.

## Natur


Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn natur-bositif erbyn 2030.

## Pobl

Byw, gweithio ac ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.

## Lle

Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy, sy'n cael eu dathlu am eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, yn awr ac am byth.



# Cynnwys

01	Rhagymadrodd	16
02	Cyflwyniad Nodweddion Arbennig	26
03	Materion y Cynllun Rheoli	56
04	Issues	78
05	Gweledigaeth	102
06	Dull Cenhadaeth	112
07	Cenhadaeth Hinsawdd	128
08	Cenhadaeth Dŵr	150
09	Cenhadaeth Natur	172
10	Cenhadaeth Pobl	194
11	Cenhadaeth Lle	214
12	Ein Partneriaid	242
13	Monitro'r Cynllun	280
	ATODIADAU	294





# Y Bannau Brycheiniog

## Parc Cenedlaethol.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o deulu sy'n cynnwys pymtheg Parc Cenedlaethol yn y DU a thri yng Nghymru. Gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw sicrhau bod y tirweddau yn ein gofal yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwynhad didramgwydd i bawb.

Mae Parciau Cenedlaethol yn "adnodd cenedlaethol" yng ngwir ystyr yr ymadrodd. Nid yw hyn yn golygu bod buddiannau lleol yn cael eu diystyru – ddim o gwbl! Yn hytrach, mae'n golygu bod gwerth yr amgylchedd a'r buddion a ddaw yn ei sgil i iechyd a hapusrwydd y bobl, yn rhywbeth sy'n cael ei ddiogelu er lles pawb. Fel y nododd John Dower, yr un a greodd ac a gynlluniodd y Parciau Cenedlaethol yn y DU, wrth sôn am eu gwerth ym 1945:

“

Nid yw Parciau Cenedlaethol ar gyfer unrhyw garfan freintiedig neu gyfyngedig o'r boblogaeth, ond i bawb sy'n awyddus i adfywio'u meddyliau a'u cyrff mewn lleoliad tawel o harddwch naturiol.

Mae'r ethos gwreiddiol hwn yn parhau'n ganolog i waith y sefydliad, ac yn fframio datblygiad y polisi ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Cafodd Bannau Brycheiniog ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol yn ffurfiol ym 1957. O fewn ei ffiniau, ceir rhyw 520 milltir sgwâr o gefn gwlad hardd. Mae'r ffin yn ymestyn o berfeddwlad wledig Canolbarth Cymru yn y gogledd i gymunedau cynlofaol ac ôl-ddiwydiannol yng Nghymoedd y De. O'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r Parc yn ymestyn o'r Gororau i gyrion Llandeilo. Ar y cyfrif diwethaf, roedd y Parc yn gartref i tua 33,000 o bobl.

Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol o ofalu am dirweddau cyfoethog ac arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddau bwrpas arbennig wedi'u hymgorffori yn Neddf yr Amgylchedd (1995) (gweler y blwch testun drosodd). Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod yn rhaid i'r sefydliad, wrth gyflawni ei bwrpasau, hefyd sicrhau nad oes unrhyw niwed cymdeithasol nac economaidd yn dod i'r bobl sy'n byw yn y Parc. Cyfeirir at hyn fel Ein Dyletswydd. Mewn amgylchiadau lle mae'r pwrpas cyntaf a'r ail bwrpas yn gwrthdaro'n uniongyrchol, mae Egwyddor Sandford yn pennu mai'r pwrpas cyntaf sy'n cael blaenoriaeth.



## Pwrpasau A Dyletswyddau'r Parciau Cenedlaethol

### Pwrpas 1

Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol; a

### Pwrpas 2

Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gael deall a mwynhau nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol.

### Dyletswydd

ceisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol.

# Nid Parc Cenedlaethol yn unig.

MAE PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG hefyd yn falch o fod yn gartref i amrywiaeth o ddynodiadau eraill o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r dynodiadau hyn yn cydnabod arwyddocâd y Parc mewn meysydd penodol, gan gynnig amddiffyniad pellach i ni a chyfleoedd i adrodd stori'r Parc.



## Geoparkc

Mae Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr yn barc o fewn y Parc ac mae'n gorchuddio hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol, gan ymestyn o Lanymddyfri yn y Gogledd i Ferthyr Tudful yn y De a Llandeilo yn y gorllewin i Aberhonddu yn y dwyrain. Yma ceir "teisen haenog" o greigiau a grëwyd gan gracio a chrychu am 470 miliwn o flynyddoedd.

Dynodwyd Fforest Fawr yn Geoparc Byd-eang UNESCO yn 2015, ac mae'n un o dros 150 o geoparciau ledled y byd sy'n cael eu cydnabod gan UNESCO am eu daeareg nodedig. Mae'r Geoparc yn dathlu hanes yr ardal a'r modd y mae daeareg yn dylanwadu ar hanes, archeoleg, bywyd naturiol a dynol yr ardal.

Mae statws Geoparc Byd-eang UNESCO yn darparu llwyfan proffil-uchel ar gyfer ehangu dealltwriaeth a dyfnhau cysylltiadau'r bobl â thirweddau a hanes carbon. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i wella iechyd a lesiant ochr yn ochr â buddion economaidd-gymdeithasol.

Mae'n egluro'r ffordd y mae geoamrywiaeth yn sail i fioamrywiaeth, a'r modd y deilliodd gwahanol briddoedd a chynefinoedd o'r amrywiaethau hynny. Mae hefyd yn sail i'r modd y cafodd cyfoeth mwynol ei ecsbloetio gan bobl, a'r cymunedau a'r diwylliant a ddeilliodd o'u gweithgareddau.

Mae'r Geoparc yn cynnig cyfle unigryw i edrych yn ôl mewn amser a'n helpu ni i ddeall y modd y cafodd materion yr ydym yn mynd i'r afael â hwy heddiw eu llunio, ac mae'n cynnig cipolwg ar ddyfodol ein perthynas â'r tir. Mae'n egluro'r modd y daeth lleoedd i fod yn eu safleoedd presennol, yn ogystal â'u hunaniaeth a'u hymdeimlad unigryw o berthyn i dreftadaeth adeiledig a naturiol ecological benefits.

Mae'n darparu llwyfan lle gall partneriaid a chymunedau ymgysylltu â hanes naturiol a diwylliannol sy'n gyffredin iddynt. Mae hefyd yn cynnig mecanwaith ar gyfer adfywio cyrion deheuol y Parc trwy ddatblygu twristiaeth.

Mae'r Geoparc yn dathlu ei etifeddiaeth ddiwydiannol, yn gwneud cysylltiadau ar draws tirweddau y tu hwnt i ffiniau'r Parc, ac yn defnyddio ei statws rhyngwladol i greu buddion cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Mae'n galluogi inni ddathlu etifeddiaeth ddiwydiannol yr ardal ac i wneud cysylltiadau ar draws y dirwedd a thu hwnt i ffiniau'r Parc. At hynny, gall defnyddio statws rhyngwladol y Geoparc ddod â buddion cymdeithasol, economaidd ac ecolegol hefyd.



## Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol

Dyfarnwyd y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol yn 2012. Mae'r wobr ryngwladol hon yn ein gwneud yn un o'r ardaloedd prin hynny yn y byd sy'n cael eu cydnabod am ansawdd ein hawyr dywyll a'n hamgylchedd nos.

Mae ein Hawyr Dywyll yn gymharol unigryw mewn byd sy'n fwyfwy trefol a lle mae llygredd golau yn dominyddu. Mae'r statws IDSR yn ein galluogi ni i roi mesurau ar waith i atal llygredd golau rhag ymledu i'r Parc Cenedlaethol ac i ddiogelu a gwella ein nodweddion arbennig sef tywyllwch a llonyddwch. Rydym yn hyrwyddo'r rhain fel adnoddau gwerthfawr sy'n darparu cyfleoedd i fyfyrion dawl ac yn ddwfn, a chysylltu'r unigolyn â rhyfeddodau'r bydysawd. Trwy'r statws hynod ddylanwadol hwn, rydym yn gobeithio gwarchod ein hwybrennau tywyll hudolus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

At hynny, mae'r statws warchodfa o werth economaidd sylweddol i'r Parc Cenedlaethol gan greu mecanwaith hyrwyddol i ddenu ymwelwyr i aros yno trwy fynychu digwyddiadau syllu-ar-y-sêr. Rydym hefyd yn defnyddio'r statws i dynnu sylw at effeithiau gweithgareddau dynol ar ein hamgylchedd a'n hinsawdd, trwy fuddion a ddaw i fywyd gwylt y nos yn sgil awyr dywyll a'r arbediad carbon a ddaw yn sgil diffodd goleuadau. Roedd De Cymru yn un o brif gynhyrchwyr haearn a glo y byd yn y 19eg ganrif. Mae'r holl elfennau angenrheidiol i'w gweld yno o hyd – pyllau glo, gweithfeydd mwyn haearn, chwareli creigiau silica, system reilffordd gyntefig, ffwrneisi, cartrefi gweithwyr a seilwaith cymdeithasol y cymunedau.

# Nid Parc Cenedlaethol yn unig.

MAE PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG hefyd yn falch o fod yn gartref i amrywiaeth o ddynodiadau eraill o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r dynodiadau hyn yn cydnabod arwyddocâd y Parc mewn meysydd penodol, gan gynnig amddiffyniad pellach i ni a chyfleoedd i adrodd stori'r Parc.



## Safle Treftadaeth Byd Blaenafon

Cofrestrwyd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn Safle Treftadaeth y Byd gan Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ym mis Tachwedd 2000. Fel y nodwyd yn y dynodiad

**“mae'r ardal o amgylch Blaenafon yn dystiolaeth o amlygrwydd De Cymru fel prif gynnyrch y byd o haearn a glo yn y 19eg ganrif. Mae'r holl elfennau angenrheidiol i'w gweld o hyd – glo a/neu fwyngloddiau, chwareli, system reilffordd gyntefig, ffwrneisi, cartrefi gweithwyr ac isadeiledd cymdeithasol eu cymuned.”**

Mae Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a'r cyffiniau yn un o'r enghreifftiau mwyaf arwyddocaol o dwf diwydiannol yn ystod ac ar ôl y Chwyldro Diwydiannol. Am y rheswm hwnnw, mae'n gyflwyniad i ardal ehangach Blaenau'r Cymoedd, ardal a arweiniodd at danio datblygiadau ym Mhrydain Fawr a thu hwnt yn ystod y cyfnod dan sylw.

Heddiw mae'r STB yn rhoi cyfle i gysylltu ein cymunedau a'n hymwelwyr ag etifeddiaeth ein hanes ar raddfa fyd-eang. Mae'n adnodd addysgol arwyddocaol sy'n darparu cysylltiadau rhwng yr ardal, yr Anthroposen, a'r symudiad tuag at ddyfodol y tu hwnt i garbon.



# Nid yn unig ar gyfer yr Awdurdod.

Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb statudol i warchod ardal y Parc Cenedlaethol a gweithredu'r Pwrpasau a'r Ddyletswydd, ond nid ydym ar ein pen ein hunain yn yr ymdrech hon.

Yn unol â'r gyfraith, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn y Parc Cenedlaethol roi sylw dyledus i Bwrpasau a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol wrth gyflawni'u swyddogaethau o fewn y Parc Cenedlaethol a lle bynnag y gallai'u gweithgaredd effeithio ar y Parc Cenedlaethol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i nodi yn adran 62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae'n golygu bod y gofyniad i ddiogelu asedau'r Parc Cenedlaethol, er budd y cyhoedd, yn gyfrifoldeb a rennir ac yn un yr ydym yn ei gyflawni ar y cyd.

Yn aml, fe gyfeirir at y cyrff cyhoeddus hynny sy'n rhannu'r rhwymedigaeth hon fel Cyrff Adran 62(2) (sef cymal o'r Ddeddf sy'n gosod y ddyletswydd hon arnynt). Maent yn cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Dŵr Cymru (DC)
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Swydd Henffordd
- Cyngor Swydd Henffordd
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys Bwrdd
- Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
- Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru
- Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru
- Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru
- Byrddau Iechyd Cyfansoddol
- Gwasanaethau heddlu cyfansoddol
- Gwasanaethau tân ac achub cyfansoddol
- Unrhyw un o swyddfeydd y Goron
- Unrhyw ymgymerwr statudol



## Cerdyn post o'r dyfodol.

Mae'n 26ain o Awst 2047, ac rydw i wedi beicio yma, i'r Parc. Mwynheais y teimlad o fywiogrwydd a roddodd yr ymarfer hwn i mi, wrth fynd i'r afael â'r bryniau. Roedd yn wych pasio nifer o feicwyr eraill gan fwynhau'r awyr iach a'r ymarfer corff.

Wrth wrando, fe glywaf adar yn galw, y gwynt yn siffrwd yn ysgafn ar ddail y coed, a mamaliaid bychain yn gwibio trwy'r isdyfiant. Mae gylfinir yn galw yn y pellter. Mae peillwyr yn sio'n dawel wrth fynd o gwmpas eu busnes.

Mae'n arogl'n ffres, mae'r aer yn arogl'n lân, mae blodau gwyllt o'r dolydd a'r gwrychoedd cyfagos ar fin hadu ond mae awgrym o'u harogl yn parhau. Yn fuan, unwaith y bydd y blodau wedi hadu, bydd yr aer yn llawn o arogl glaswellt ffres wedi'i dorri.

Rwy'n sefyll yn stond, mae'r gwynt yn chwythu fy ngwallt yn ysgafn, mae cynhesrwydd yr haul ar ddiwedd yr haf yn cynhesu fy nghroen - nid yw'n rhy boeth ond mae'n ddigon cynnes.

Sylwaf ar fesen ar y ddaear. Ychydig yn gynnar efallai, ond mae'n symbol o adfywiad a chynaliadwyedd i mi. Mae'n braf meddwl y gallai'r fesen hon dyfu'n goeden hynafol, flynyddoedd lawer i'r dyfodol, gan ddarparu cynefin i gynifer o rywogaethau.

Rwy'n teimlo'n ddigyffro, yn hamddenol ac yn rhydd, ac eto rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy ysgogi gan yr awyrgylch. Mae'r bywyd gwyllt yn fy annog i. Mae'n ysbrydoledig gweld y dirwedd hon, lle mae pobl a natur, o bob cefndir yn cydweithio ac yn cydfodoli mewn cytgorf a pharch.

Rwy'n ysgrifennu am y pethau yr wyf wedi'u dysgu ac yn eu gyrru atat ti, sef fy hun yn y gorffennol ...

Mae gan natur y gallu i adfer. Does ond angen i ni weithio gyda'n gilydd ac egluro'r pwysigrwydd o gydweithio. Peidiwch â bod ofn gweithredu, i feddwl yn fawr. Bydd natur yn gwella, a bydd y gwaith yn talu ar ei ganfed. Gallwch wneud hyn - cofiwch weld popeth fel cyfle i wella'r blaned a'r Parc Cenedlaethol. Pob lwc!

### Hâf

Bannau Brycheiniog  
Oedran (yn 2022) 15



An aerial photograph of a waterfall cascading over mossy rocks into a pool of water. The water is a deep blue-green color, and the surrounding area is lush with green vegetation. The text "Nodweddion Arbennig" is overlaid in white, serif font.

Nodweddion  
Arbennig

# Yr hyn sy'n sy'n gwneud y parc yn arbennig?

Mae holl Barciau Cenedlaethol y DU yn dirweddau arbennig a hardd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth cynhenid i'r genedl.

Mae gan bob Parc Cenedlaethol gymeriad unigryw, a rôl allweddol unrhyw Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol yw diffinio hanfod y lle sy'n ei wneud yn arbennig ac yn apelgar, ac yn deilwng o gael ei warchod. Gelwir y rhain yn "nodweddion arbennig" y Parc ac maent yn allweddol i'r dynodiad.

Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddeg nodwedd arbennig ddiffiniedig sydd wedi'u grwpio o amgylch tirwedd, cymuned, profiadau a bywyd gwyllt. Gan fod y nodweddion arbennig hyn yn aml yn cael eu teimlo yn hytrach na'u prosesu'n rhesymegol trwy ddatganiadau polisi, rydym wedi gofyn i feirdd ac artistiaid lleol ymateb i'r nodweddion arbennig, er mwyn helpu i gyfleu'r ymdeimlad emosïynol o'r hyn sy'n gwneud y Parc yn arbennig.



## TIRLUN prydferthwch naturiol y dirwedd

Mae pob Parc Cenedlaethol yn y DU, ac yn wir ar draws y byd, yn cael eu gwerthfawrogi am "harddwch" eu tirwedd. Er bod 'Prydferthwch Naturiol' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n aml wrth sôn am Barciau Cenedlaethol a'u tirweddau, yn aml fe'i dehonglir yn nhermau darluniadol yn unig, sydd yn ei dro yn rhoi'r argraff gyffredinol fod Parciau Cenedlaethol yn bodoli i warchod y ffordd y mae ardal yn edrych, yn hytrach na'u swyddogaethau sylfaenol eraill.

Mae gan Y Bannau ddiffiniad llawer ehangach o harddwch naturiol (gweler y blwch drosodd); un sy'n cwmpasu ystod eang o elfennau megis presenoldeb bywyd gwyllt, dimensiynau diwylliannol a threftadaeth ac elfennau canfyddiadol nad ydynt yn hawdd eu rhoi mewn geiriau. Rydym hefyd yn nodi nad yw ein tirwedd yn "naturiol" yng ngwir ystyr y gair. Mae'r lle hwn wedi'i siapio a'i feithrin gan bobl dros filoedd o flynyddoedd ac wedi arwain at dirwedd sy'n ddyledus i nifer o ddylanwadau dynol dros filoedd o flynyddoedd, megis clirio coedwigoedd, amgáu tir, amaethu, draenio, coedwigaeth, arferion crefyddol, aneddiadau, a thynnu dŵr.

Mae ein nodweddion arbennig wedi'u diffinio i roi llais i sawl elfen o'n Harddwch Naturiol. Rydyn ni'n diffinio'r rhain yma i sicrhau bod pawb yn deall yr hyn sy'n gwneud y Parc mor arbennig ac yn deilwng o warchodaeth genedlaethol.

# Mae "harddwch naturiol", pan gaiff ei ddefnyddio'n gyffredinol ac yn benodol fel yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a deddfwriaeth arall, yn gysyniad cymhleth ac amlochrog sy'n ymwneud â thirwedd yn ei hystyr ehangaf.

Mae'n ymwneud yn bennaf â thirweddau gwledig sydd ddim wedi'u difetha ac er nad ydynt o reidrwydd yn eang, maent yn rhydd i raddau helaeth o effeithiau datblygiad andwyol neu drefol. Er bod y ddeddfwriaeth yn nodi'n glir ei bod yn cynnwys fflora, ffawna, nodweddion daearegol a ffisiograffig, mae'n berthnasol nid yn unig i dirweddau lle mae natur yn tra-arglwyddiaethu ond hefyd i'r rhai sydd wedi'u llunio a'u meithrin gan weithgareddau dynol.

Mae pobl yn dirnad ac yn gwerthfawrogi "harddwch naturiol" trwy eu holl synhwyrau, gan ymateb i lawer o wahanol agweddau'r dirwedd, gan gynnwys ei gymeriad unigryw, ei nodweddion esthetig, presenoldeb ei fywyd gwyllt, ei ddimensiynau diwylliannol a hanesyddol a'i nodweddion canfyddiadol megis yr ymdeimlad o fod yn llonydd, yn bellennig ac yn rhydd. Mae'r modd y mae pobl yn dirnad "harddwch naturiol" yn cael ei lywio gan nodweddion personol, cefndiroedd diwylliannol a diddordebau unigol. Mae "harddwch naturiol" yn digwydd, i wahanol raddau, mewn llawer o dirweddau, ond nid ymhob tirwedd o bell ffordd. Fodd bynnag, gellir barnu bod rhai lleoedd yn arddangos "harddwch naturiol" i raddau eithriadol ac o ganlyniad, gellir eu cydnabod fel mannau sy'n haeddu cael eu gwarchod ar lefel genedlaethol.

## Datganiad ar Harddwch Naturiol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2006

*Gweler atodiad 2 am y datganiad llawn*



A scenic landscape of rolling green hills under a dramatic sunset sky. The sun is low on the horizon, casting a warm glow over the scene. The hills are covered in lush green grass, and a dirt path winds through them. The sky is filled with soft, white clouds, and the overall atmosphere is peaceful and serene.

# Tirweeddau Arbeninig



# Godidowgrwydd y Parc a'i harddwch naturiol eithriadol

Fe welir godidowgrwydd y Parc a'i harddwch naturiol eithriadol ar draws amrywiaeth o dirweddau sydd wedi'u cysylltu mewn cytgord, gan gynnwys ceunentydd a rhaedrau ysblennydd, daeareg carst glasurol gyda chalchbalmant, ogofâu a llyncdyllau, tirffurfiau rhewlifol cyferbyniol fel clogwyni a dyffrynnoedd llydan a gerfiwyd o hen dywodfaen coch a bryniau amlwg sy'n cynnig golygfeydd am filltiroedd ym mhob cyfeiriad. Tirwedd sy'n rhoi'r ymdeimlad o ddyfnder amser ac amseroldeb



# Patrymau , lliwiau a gweadau cyferbyniol

“Clytwaith” byw o batrymau, lliwiau a gweadau cyferbyniol yn cynnwys tirweddau amaethyddol cymen, ucheldiroedd agored, llynnoedd ac afonydd troellog gydag ambell goedlan, lonydd gwledig, gwrychoedd, waliau cerrig ac aneddiadau gwasgaredig wedi’u grwpio o amgylch tirweddau, cymunedau, profiadau a bywyd gwyllt.

Gan fod y rhinweddau arbennig hyn yn cael eu teimlo’n aml yn hytrach na’u prosesu’n rhesymegol trwy ddatganiadau polisi, rydym wedi gofyn i feirdd ac artistiaid lleol ymateb i’r rhinweddau arbennig, er mwyn helpu i siarad â’r ymdeimlad emosiynol o’r hyn sy’n gwneud y Parc yn arbennig.



# Copa Pen Y Fan



Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

Nis oes tir arafach  
na chyflymach; 'does  
dim pridd disymud lletach,  
fflam, heb fflach o ymffrost  
er pob goncwest, llam a charlam,  
yn gyson ei guriad, er heb galon –  
ar risgl y ddear, ni a'n cymgogion  
gorfoledd craith, gorfoledd oedran,  
gorfoledd carnedd Pen y Fan.

**David Greenslade**

A photograph of three hikers on a mountain trail. The hiker on the left is wearing a dark blue jacket, a teal shirt, and dark pants, with a large backpack and a walking stick. The hiker in the middle is wearing a dark blue jacket, a grey shirt, and dark pants, with glasses and a walking stick. The hiker on the right is wearing a dark blue jacket, a teal shirt, light-colored pants, a black beanie, and glasses, with a walking stick. The background shows a hazy mountain landscape. The text 'Cymmuneddau Arbenig' is overlaid in white serif font at the bottom.

# Cymmuneddau Arbenig

# Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol

Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol - sef "Cymreictod" - a nodweddir gan yr iaith Gymraeg frodorol, cysylltiadau crefyddol ac ysbrydol, arferion a digwyddiadau unigryw, bwydydd a chrefftau traddodiadol, trefi a phentrefi hanesyddol sydd ddim wedi'u difetha ryw lawer, ffermydd teuluol, a pharhad y sgiliau traddodiadol a ddatblygwyd gan drigolion lleol i fyw ac ennill bywoliaeth yma, fel arferion tir comin a phori.

# Ymdeimlad glòs o gymuned an

Ymdeimlad glòs o gymuned lle mae trefi a phentrefi bychain, bugeiliol yn gymharol ddiogel, yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn parhau i feddu ar ysbryd o gydweithrediad



# Blaen y Glyn

(Mae Glyn wedi bod yn enw yn ein teulu ni  
byth ers i'm hen-dadcu adael Cwm Caerfanell yn yr 1880au.  
Roedd ei dad yn porthmona merlod mynydd i Lundain)

Ni ddaw'r dŵr yn ei ôl  
o Hafren, i Wysg, i Gaerfanell;  
na merlod Torpantau chwaith,  
o'u heol garlam tua'r dwyrain  
dan ofal fy hynafiaid gynt.

Ond fe ddown ninnau  
o ferw ein strydoedd a'n cul-de-sacs  
i geisio ein gwynfyd dros dro,  
rhwng Carreg Cennen a Sgyryd Fawr.

Down yma yn westeion  
i hen, hen gymdogaeth,  
i gael ein meddiannu gan y mynyddoedd hyn  
a'n hawlio gan eu cymoedd coediog.  
Bydd rhai'n morgruga'n ufudd  
ar lwybr Pen y Fan,  
tra bo eraill yn mynd gyda'r gwynt,  
o Gwm Aman neu Gwm lou,  
ar drywydd y llonydd  
sy'n meddwi'r synhwyrau...

A dof innau i'r Glyn yma,  
dan lethrau Allt Forgan,  
lle aeth cartre 'nheulu gynt  
yn furddun ac yna'n sarn;  
ond mae'r enw o leiaf  
yn dal i ffrydio drwof,  
a iaith y lle hwn  
ar drot ar fy nhafod o hyd.

## **Ifor ap Glyn**

Bardd Cenedlaethol Cymru



Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

A scenic landscape of a lake at sunset. The water is calm, reflecting the warm light of the setting sun. In the background, there are rolling mountains covered in dense evergreen forests. A person is seen in a small canoe on the water, and another person is partially visible in the bottom right corner. The overall atmosphere is peaceful and serene.

# Profiaadau Arbeninig

# Pleserus a hygyrch

Cefn gwlad pleserus a hygyrch gyda chyfleoedd helaeth, eang ac amrywiol i fynd ar drywydd cerdded, beicio, pysgota, gweithgareddau dŵr a mathau eraill o hamdden cynaliadwy neu ymlacio.

# Seiniau, golygfeydd, arogleuon a chwaeth

Dyma Barc Cenedlaethol sy'n cynnig yr ymdeimlad o fywiogrwydd a llesiant a ddaw wrth fwynhau awyr iach, dŵr glân, cefn gwlad, tir agored a bwydydd a gynhyrchir yn lleol.

# Heddwch, lonyddwch a thywyllwch

Dyma Barc Cenedlaethol sy'n cynnig awyr dywyll yn y nos, ynghyd a heddwch a lonyddwch gyda chyfleoedd am fwynhad didramgwydd, ysbrydoliaeth, ymlaciad ac adnewyddiad ysbrydol.

# Ymdeimlad o ddarganfod

Dyma Barc Cenedlaethol sy'n cynnig yr ymdeimlad o ddarganfyddiad lle mae pobl yn archwilio cyfrinachau cudd a straeon fel hanesion achyddol, safleoedd defodol cynhanesyddol, olion aneddiadau gwledig canoloesol, safleoedd diwydiannol cynnar, mythau a chwedlau lleol a thrysorau daearegol o'r oes cyn cof.



# Ar Bnawn o Fai ar Ben y Fan

Heb un gair a minnau'n byw yn gaeth  
dihengais i Aberhonddu at ffrind ffraeth;  
ond fy ffrind, ni fynnw'n fynd i Ben y Fan...

Mynnw'n gilio'n neb mewn i'r gwely'n wan  
a meddwi o hyd ym medd dyddiau a aeth,  
cilio'n glyd rhag y byd a'i bedwar ban.

Ddoe gwelwn angladd a neb yn y llan,  
neb ond y ficer, drwy'i reidrwydd fe ddaeth;  
a bu ynof ofn mynd i Ben y Fan;

Ofn rhag imi fyw wrth ddringo am lan,  
ofn byw'n rhydd fel bod yn droednoeth ar draeth,  
ofn byw i weld y byd a'i bedwar ban.

Ond o gam i gam, dod i wneud ei ran  
wnaeth yr awyr iach, a'm sobri a'i faeth  
wrth i'r hen boenau fynd wrth Ben y Fan.

A daeth ambell air a gwên yn y man,  
wrth i'r cip o'r copa ein dal fel saeth  
a ninnau'n un â'r byd a'i bedwar ban,  
ar bnawn o Fai ar Ben y Fan.

**Aneirin Karadog**



A kingfisher bird is captured in mid-flight, its wings spread wide, showing a mix of blue, brown, and white feathers. The bird is positioned in the upper right quadrant of the frame. Below it, a splash of water is visible, with droplets frozen in time. The background is a soft, out-of-focus green and yellow, suggesting a natural outdoor setting. The text 'Natur' and 'Arbeiten' is overlaid on the left side of the image in a white, serif font.

# Natur Arbeiten

# Mosaig o amrywiaeth

Mae'r ddaear eiddo a'r hinsawdd yn amrywio'n fawr ar draws y Parc gan greu tirwedd sy'n glytwaith cywrain ac yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth. Mae'r Parc yn gartref i rostiroedd, glaswelltiroedd a choetiroedd, gydag ucheldiroedd ac iseldiroedd, llynnoedd naturiol a chynefinoedd glannau afon. Mae'r Parc yn cynnwys calchbalmant a gorgorsydd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol. Mae nifer o rywogaethau sydd mewn perygl wedi goroesi yn y Parc, ac i rai ohonynt, dyma fan pellaf eu cynefin naturiol.

# Tirwedd Fyw

Mae toreth o fywyd gwyllt yn ffynnu mewn cynefinoedd lled-naturiol y mae pobl wedi byw ynddynt a'u siapio ers milenia. Mae'r dirwedd yn frith o wrychoedd hynafol llawn bywyd ac maent yn amgáu dolydd gwair sy'n gyforiog o fywyd gwyllt. At hynny, mae coetiroedd hynafol yn gorchuddio rhai dyffrynnoedd sy'n meddu ar ochrau serth. Mae coed hynafol yn addurno'r dirwedd ac yn dwyn creithiau a achoswyd gan ganrifoedd o ddibyniaeth ar eu hadnoddau. Mae'r ucheldiroedd lle mae'r grug yn dominyddu, yn cael eu cynnal drwy bori ceffylau, defaid a gwartheg ac maent yn dyst i'r berthynas agos rhwng bioamrywiaeth a ffermio.

# Gwyfynod y Bannau



Celf wreiddiol gan Clarissa Kate Price Art

Pellter na phair  
ball ar ffyddlondeb  
na therfyn ar deyrngarwch;  
'does ffin  
ar bili-palas  
ar ieir bach yr haf,  
nac ar löynod y pellteroedd  
sy'n fythol alltud  
yn eu gwlad eu hunain –  
tlysau caled mewn bro haearn –  
symudliw, gadarn,  
rhodd hael  
gwyfynod gwynlas  
sêr y bannau.

**David Greenslade**



Y Cynllun

# Cyflwyno Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Y Bannau yw Cynllun Rheoli statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028 ond mae ei weledigaeth yn rhychwantu'r 25 mlynedd i 2048.

Mae'n pennu pum cenhadaeth feiddgar i lunio dyfodol y Parc Cenedlaethol ac mae'n wahoddiad i sefydliadau ac unigolion eraill gydweithio i wireddu'r dyfodol hwnnw.

Cynllun Rheoli Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Mae'r cynllun hwn ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol ac mae'n hollbwysig ein bod yn symblu'r camau gweithredu sydd eu hangen wrth ymateb i'r argyfyngau hinsawdd, natur a llesiant, ac wrth gynnal a chadw nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ar gyfer y genhedlaeth hon a'r cenedlaethau i ddyfod.



# Rôl y Cynllun Rheoli

Mae adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer ei ardal.

Dylai'r Cynllun Rheoli nodi'r modd y bydd pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol (ein hamcanion statudol) yn cael eu cyflawni o fewn ardal ddaearyddol y Cynllun. Cynhyrchir y Cynllun gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol; fodd bynnag, caiff ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag ystod o randdeiliaid gyda'r nod o ddiffinio cyd-weledigaeth ar gyfer yr ardal.

## Cynlluniau Rheoli Blaenorol

Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Newid Gyda'n Gilydd ddiwethaf yn 2010, a chafodd yr adolygiad cyntaf ei gwblhau a'i gyhoeddi yn 2015 gan roi llesiant wrth galon y Parc Cenedlaethol.

Ers hynny, bu newidiadau sylweddol iawn yn y cyd-destun y mae'r Cynllun yn gweithredu ynddo, yn fwyaf nodedig y gydnabyddiaeth gan arweinwyr y byd ein bod yn wynebu argyfwng o ran hinsawdd a bioamrywiaeth. At hynny, mae'r byd wedi cael profiad o bandemig y coronafeirws ac mae'r DU yn wynebu argyfwng costau byw.

## Cynllun Ar Gyfer Bannau Brycheiniog

Nid Cynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i staff yn unig yw'r Cynllun Rheoli, ac nid tasg i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig yw rheoli'r Bannau. Mae'n dasg i'w rhannu a'i chyflawni gan bawb sy'n byw/gweithio yn yr ardal a/neu sydd â rhywfaint o rwymedigaeth statudol i'r ardal. I rai, mae hyn yn ymrwymiad cyfreithiol yn unol ag a62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995; i eraill, mae'n drefniant gwirfoddol a ymgymeryr i gydnabod gwerth yr ardal i natur a phobl. Y Cynllun Rheoli yw'r ddogfen allweddol sy'n cydlynur dasg gydweithredol hon, er mwyn sicrhau y gallwn ni weithredu ar y cyd i gyflawni ein pwrpasau a'n dyletswyddau, ac i warchod yr ardal hon er budd cenedlaethau'r dyfodol.

I'r perwyl hwn, mae Y Bannau, sef Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn gynllun o arwyddocâd cenedlaethol a rhaid ei gymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu dogfennau statudol eraill, megis Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a chynlluniau, rhaglenni a pholisïau eraill a allai gael effaith ar y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig.

# Cynllun a Luniwyd gan

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi'i lunio gan amrywiaeth o ddeddfwriaethau, polisiâu a chanllawiau cenedlaethol sy'n helpu ni i gysoni dyfodol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog â dyfodol Cymru, tra ein bod yn cadw'r nodweddion arbennig sy'n unigryw i'r ardal leol.





# Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Ar Cyfer Parciau Cenedlaethol Yng Nghymru

Ym mis Mai 2022, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn nodi'r ffordd y mae'n gweld yr Awdurdodau yn gweithio tuag at gyflawni eu Pwrpasau a'u Dyletswyddau. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth hon ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn cynnwys ystod o fesurau ac yn benodol mae'n gofyn i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru alinio eu gwaith ag Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru. Dywed y Gweinidog:

Yn arbennig, rwyf am weld y Parciau Cenedlaethol yn dod yn esiamplau i eraill o ran eu hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydych mewn sefyllfa unigryw i drafod â'r cymunedau o fewn eich ffiniau i ddatblygu atebion ddaw â budd i bobl a'r amgylchedd.



## Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol (2015)

newydd ac yn diffinio cyfres o nodau llesiant ar gyfer y genedl ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r nodau hyn yn eu gwaith o osod amcanion a llunio'u polisiau eu hunain.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod dogfennau polisi fel yr un hon yn cael eu cynhyrchu ar y cyd a'u hintegreiddio ar draws yr ystod o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cynllun Rheoli yn ffurfio'r Cynllun Llesiant statudol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod i ddod "yn gyfrifol ar lefel fyd-eang" i greu "cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."

Ein hamcan wrth weithredu pwrpasau a dyletswyddau statudol y Parc Cenedlaethol yw cyfrannu'n gadarnhaol at y nod llesiant hwn sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan osgoi'r camau gweithredu a allai fod ar draul cymdeithas, yr economi ac amgylchedd y byd.

## Datganiadau Ardal

Mae Datganiadau Ardal a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi strategaeth ar gyfer rheoli Cyfoeth Naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r datganiadau'n seiliedig ar ardaloedd gofodol. Mae saith ardal yn cwmpasu Cymru gyda phedwar ohonynt yn cwmpasu ardal y Parc Cenedlaethol.

- Canolbarth Cymru
- De-ddwyrain Cymru
- De Canolbarth Cymru
- De-orllewin Cymru



## Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel corff cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag ardal y Parc Cenedlaethol, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd yr ecosystemau.



## Adroddiad Ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020) (SoNaRR)

Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o gyflwr Cyfoeth Naturiol yng Nghymru (SoNaRR). Mae SoNaRR yn ddogfen allweddol wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r SoNaRR diweddaraf yn amlygu'r angen i gyrff yn y sector cyhoeddus gyflwyno newidiadau er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd, trwy drawsffurfio'r systemau sy'n ymwneud â'r ecosystem, yr economi a chymdeithas.



# Cynllun Sy'n Gyfrifol Ar Lefel Fyd-Eang

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod i ddod "yn gyfrifol ar lefel fyd-eang" i greu "cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."

Ein hamcan wrth weithredu pwrpasau a dyletswyddau statudol y Parc Cenedlaethol yw cyfrannu'n gadarnhaol at y nod llesiant hwn sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ac osgoi camau gweithredu a allai fod ar draul cymdeithas, yr economi ac amgylchedd y byd.

Wrth siarad am gyfrifoldebau byd-eang y Parc Cenedlaethol, mae'n bosibl y bydd rhai o'r farn ein bod yn gweithredu y tu hwnt i'n cylch gorchwyl ac y dylwn, yn anad dim, flaenoriaethu'r dasg o ganolbwyntio ar gyfrifoldebau lleol. Ac er ein bod yn cyflawni ein dyletswydd i weithredu ar lefel leol, pwysleisiwn fod y Parc Cenedlaethol yn bodoli o fewn cyd-destun lle mae systemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dan straen aruthrol. Mae ein camau gweithredu ar lefel leol yn effeithio ar y systemau hynny - yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Does wiw inni feddwl am berthnasedd ein pwrpasau a'n dyletswyddau yma yn y Parc Cenedlaethol os yw ein heconomi ymwelwyr, er enghraifft, yn cymryd cyfran annheg o garbon byd-eang, yn cyfrannu at newid hinsawdd, ac yn chwyddo'r farchnad dai y tu hwnt i gyrraedd y rhai ar gyflogau lleol, gan achosi allfudo a phwysau ar wasanaethau yn yr ardaloedd ymylol hynny sydd eisoes yn ddifreintiedig.

Mae gweithredu lleol yn cael effaith ar raddfa fyd-eang sydd, yn ei dro, yn arwain at weithredu lleol.

# Deall Llwyddiant


Mae Bannau'r Dyfodol yn nodi'r modd y dylid cyflawni pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol trwy weithio a rycyd â'r holl bartneriaid. I'n helpu i ddeall cymhlethdod y nod hwn, rydym yn defnyddio fersiwn a addaswyd o fodel "Toesen" Kate Raworth sy'n ymwneud â ffiniau cymdeithasol ac ecolegol. Rydym yn defnyddio'r model hwn oherwydd ei fod yn helpu i ragweld byd lle gall pobl a'r blaned ffynnu mewn ffordd gytbwys, yn union fel y mae Bannau'r Dyfodol yn rhagweld amgylchedd a phobl y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu tirwedd ar gyfer llesiant cenedlaethol.



Rydym wedi cymhwyso'r model at bwrpasau a dyletswyddau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r pwrpas statudol cyntaf yn ymwneud â gwarchod yr amgylchedd. Mae'r ail bwrpas yn ymwneud â chysylltu pobl â'r amgylcheddau naturiol a diwylliannol er eu mwynhad a'u llesiant. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd ddyletswydd statudol i gefnogi cymunedau fel eu bod yn ffynnu o fewn y Parc Cenedlaethol. Rhaid inni gydbwys gofynion cystadleuol y ddau bwrpas gan alluogi pobl i fwynhau ecosystemau ffyniannus heb effaith negyddol.

Mae'r Doesen yn cymryd ei henw o'i siâp ac mae'n cynnwys dwy gylch consentrig.

- Y cylch allanol yw'r nenfwd ecolegol. Mae hyn yn ymwneud â phwrpas cyntaf y Parc Cenedlaethol a'n huchelgais i adfer cynaliadwyedd amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.
- Mae'r cylch mewnol yn sylfaen gymdeithasol. Mae hyn yn ymwneud â dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol a'n huchelgais i sicrhau nad oes unrhyw un sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei adael heb hanfodion bywyd.
- Rhwng y ddwy ffin hyn, mae gofod ar ffurf toesen sy'n ddiogel o ran ei ecoleg ac yn gymdeithasol gyfiawn. Mae'n fan diogel lle gall gweithgareddau ein hail bwrpas ffynnu, sef pobl yn mwynhau'r Parc Cenedlaethol er dibenion hamdden.
- Yn y modd hwn, mae Toesen y Parc Cenedlaethol yn fframwaith ar gyfer deall gweithrediad llwyddiannus ein pwrpasau a'n dyletswyddau statudol.
- Mae hefyd yn fodd i ddangos bod yn rhaid i unrhyw weithgaredd a wnawn tuag at ein hail bwrpas ddigwydd o fewn ffiniau cymdeithasol ac ecolegol, heb achosi niwed i'r naill na'r llall.



# Deall Yr Her

Mae Toesen y Parc Cenedlaethol yn ein helpu i ddeall y berthynas gymhleth rhwng pobl a'r blaned a'r ffordd y mae llesiant dynol yn dibynnu ar yr amgylchedd ac ar gymdeithas yn gweithio mewn cytgor.


Mae'r ddelwedd yn mynegi cyflwr presennol y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â llesiant dynol a'r amgylchedd.

Mae pob dimensiwn yn cael ei fesur yn erbyn o leiaf un dangosydd allweddol ac mae'r lletymau coch yn dangos maint y diffyg neu'r gorwariant yng ngweithrediad delfrydol ein pwrpasau a'n dyletswyddau.

I rai sectorau fel newid hinsawdd, a thai - mae'r newid sydd ei angen i fynd yn ôl i'r Doesen yn enfawr.

Nod Bannau'r Dyfodol yw dileu'r coch i gyd o ddiagram y Doesen, ac mae'r Cenedlaethau yn ymateb i'r "gorsaethu" mwyaf.

Wrth i ni weithredu Bannau'r Dyfodol, bydd y model Toesen yn ein helpu ni i ddeall effaith y Cynllun yn y byd go iawn.



# Cynllun Wedi'i Lunio Gan Ddeialog

Mae'r gofyniad cyfreithiol i gynhyrchu Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn nwylo swyddogion y Parc Cenedlaethol. Bwriad y Cynllun yw ysgogi digonedd o sefydliadau ac unigolion allanol i weithredu, yn ogystal â staff ein corff ni. Mae deialog helaeth wedi bod yn ganolog i ddatblygu gweledigaeth gyfunol ar gyfer y dyfodol, a gobeithiwn y gall pawb weld eu rhan ynddi.

## Pum Ffordd O Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi pum ffordd o weithio sydd wedi llywio datblygiad Bannau'r Dyfodol, a bydd yn arwain Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gataleiddio'r camau ymarferol sydd eu hangen arno i gyflawni'r cenadaethau

## Datblygu'r Cynllun Gyda'n Gilydd

Datblygwyd Bannau'r Dyfodol mewn deialog ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau unedol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngorau Cymuned, sefydliadau cymdeithas sifil gan gynnwys grwpiau ffermio a'r amgylchedd, dinasyddion, busnesau, academyddion, aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a swyddogion.

Bu'r ymgynghori helaeth yn gymorth i ddyfnhau a mireinio'r dadansoddiad o'r problemau a'r atebion wrth i'r Cynllun ddatblygu. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd yr amser i wneud cyfraniadau mor feddylgar.



## Cydweithredu

Cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r sefydliad) a allai helpu'r corff i gyflawni'i amcanion llesiant

## Integreiddio

Ystyried y ffordd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

## Cynnwys

Mae'n bwysig cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

## Hirdymor

Mae'n bwysig cydbwysio anghenion byrdymor gyda'r angen i ddiogelu'r anghenion hirdymor.

## Atal

Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'u hamcanion.

*Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*

# Bannau'r Dyfodol

## Proses Ymgynghori

2

### Gwanwyn 2021

#### Gweledigaeth ac Amcanion

Ymgynghoriad agored wyth wythnos yn mynd i'r afael â gweledigaeth ac amcanion newydd y Cynllun Rheoli. Cyflwyno opsiynau mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid.

4

### Gaeaf 2021

#### Ymgynghoriad Bannau'r Dyfodol

Ymgynghoriad deuddeg wythnos ar Gynllun Rheoli drafft Bannau'r Dyfodol. Cyflwyno'r cynnwys o amrywiaeth o ddigwyddiadau i rhanddeiliaid, a gofynnir am sylwadau ysgrifenedig.

6

### Haf 2022

#### Cynnwys Staff

Canolbwyntio ar ailweirio Bannau'r Dyfodol i Fannau'r Dyfodol gyda staff a gwirfoddolwyr o APCBB. Nod y cyfranogiad oedd ystyried sut y gallai APC gyfrannu at gyflawni'r cenadaethau.

1

### Haf 2020

#### Adnabod Mater

Targeted consultation with key stakeholders to review State of the Park data, identify issues and agree development of replacement Management Plan.

3

### Haf 2021

#### Ymgysylltu â Dinasyddion a Rhanddeiliaid

Datblygu dau gorff allweddol ar gyfer datblygu cynllun - Mae'r panel cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n cynnwys cyrff statudol, a'r Cynulliad Dinasyddion yn cynnwys dinasyddion hunanethol. Mae'r ddau gorff yn cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu'r cynllun.

5

### Gwanwyn 2020

#### Polisi Deifio'n Ddwfn

Cynhaliwyd 18 o weithdai ar-lein yn edrych ar ffurf a chynnwys Amcanion Polisi Bannau'r Dyfodol. Gweithdai a fynychwyd gan amrywiaeth o gyfranogwyr o'r byd academiaidd, cyrff statudol, dinasyddion ac eNGOs.

7

### Hydref 2022

#### Adolygiad Rhanddeiliaid

Ymgynghori pellach gyda'r Panel Dewis Rhanddeiliaid ac amrywiaeth o arbenigwyr eraill cyn penderfynu'n derfynol.

# Cynllun I Ysbrydoli Gweithrediadau

Mae Y Bannau yn gynllun ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan a chaiff ei ddefnyddio i ddiffinio gweledigaeth gyfunol ar gyfer ein holl weithrediadau yn y dyfodol. Mae'r diagram hwn yn dangos y ffordd y mae'r Cynllun Rheoli yn darparu'r cyd-destun strategol trosfwaol ar gyfer ystod o gynlluniau a pholisïau o fewn y Parc Cenedlaethol, a gynhrychwyd gan yr Awdurdod ac mewn partneriaeth ag eraill.

## Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol

Mae'n diffinio gwaith yr Awdurdod a'l Bartneriaid yn diogelu ein treftadaeth

## Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae'n diffinio sut rydyn ni'n gofalu am, ac yn datblygu'r llwybrau cyhoeddus yn y Parc

## Cynllun Datblygu Lleol

Mae'n diffinio cynllunio, dyma'r ddogfen ar gyfer dyfarnu pob cais cynllunio.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'n diffinio sut mae'r Awdurdod yn cofleidio amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb I wneud y Parc Cenedlaethol yn hygyrch I drigolion ac i'r gymuned ehangach.

## Strategaeth Cyfranogaeth Gymunedol


Mae'n diffinio sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i wireddu amcanion sy'n cael eu rhannu.

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Cynllun partneriaeth i arwain gwaith adfer natur yn y Parc Cenedlaethol

## Cynllunio Lle

Partneriaeth i helpu cyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy, cyfun, o ansawdd da yn y Parc Cenedlaethol





# Ystyriaethau



Mae'r Parc Cenedlaethol yn wynebu bygythiadau dirfodol i'w barhad. Mae'r cymunedau sy'n rheoli'r dirwedd hon yn wynebu dyfodol ansicr. Mae newidiadau demograffig ac economaidd, ynghyd ag effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i gynnal y ffyrdd traddodiadol o fyw sydd wedi cynnal yr amgylchedd hwn ers cenedlaethau.



Ni fydd ein tirwedd hardd, sy'n sail i'n swyddogaethau, yn gallu goroesi'r newidiadau hyn oni wneir ymdrech ar y cyd heddiw er mwyn achub yfory.

Mae gwarchod y Parc Cenedlaethol hwn er budd cenedlaethau'r dyfodol yn rheidrwydd cenedlaethol ac yn sbardun allweddol i bolisiâu a strategaethau'r Cynllun hwn. Mae ein tirwedd yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem a buddiannau o'r byd naturiol, sy'n hanfodol i iechyd a llesiant.

Mae ein bryniau, ein llynnoedd a'n nentydd yn cynhyrchu'r dŵr sy'n cyflenwi'r rhan fwyaf o Dde Cymru a thu hwnt.


Mae ein mawndiroedd a'n coetiroedd yn atafaelu carbon a gynhyrchir yn y trefi a'r dinasoedd ymhell y tu hwnt i'n ffiniau, er mwyn helpu i liniaru'r cynnydd yn y tymheredd.

Mae ein harddwch naturiol yn darparu'r buddion anfaterol hynny sy'n cyfoethogi ein bywydau bob dydd - yr ysbrydol, yr emosiynol, y myfyriol, y syfrdanol, a'r mwynhad syml a ddaw o fynd am dro ar y bryniau neu drwy'r coed.

**Mae'r adran ganlynol yn edrych ar y ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu heddiw.**

Rydym yn defnyddio dangosyddion allweddol ar gyfer iechyd planedol a chymdeithasol i dynnu sylw at y materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy os ydym am sicrhau bod Bannau Brycheiniog yn parhau i swyno a gwasanaethu'r cenedlaethau dirifedi i ddod.

1. Gwasanaethau ecosystem yw'r buddion a ddarperir gan ecosystemau sy'n cyfrannu at wneud bywyd dynol yn bosibl ac yn werth ei fyw  
2. Gweler Model Toesen



# Y Parc Cenedlaethol Heddiw

Mae'r DDELWEDD HON yn portreadu tirwedd sy'n nodweddiadol o'r Parc Cenedlaethol fel y'i gwelwn yn 2022.

Mae'r ucheldiroedd moel a garw yn arwain at dirwedd fugeiliol lle gwelir da byw yn pori ar laswellt o fewn clytwaith o gaeau a amgylchynir gan wrychoedd taclus a thraddodiadol.

Mae'r caeau â'r yn datgelu'r pridd coch sydd mor nodweddiadol o'r ardal.

Mae'r ychydig ffermdai a welir yn y ddelwedd yn dyst i'r ffaith fod pobl yn byw ac yn gweithio o fewn y dirwedd.

Mae'r afon ar lawr y dyffryn yn ymdroelli ei ffordd drwy'r olygfa.

Mae hon yn ddarlun rhamantus o'r wlad sy'n nodweddu cymhlethdod y rhyngweithio rhwng pobl a natur ac sydd, yn ei dro, yn cyfuno i ffurfio darlun o harddwch naturiol.

Ond er ei holl harddwch, nid yw hon yn dirwedd dyner.



“

Mae'n cwmpasu 515 milltir sgwâr [sy'n] cynnwys Bannau Brycheiniog, y Mynyddoedd Du a Bannau Sir Gâr [Y Mynydd Du], ac mae ei olygfeydd amrywiol o afonydd a rhostiroedd, llethrau mynydd a dyffrynnoedd coediog ymhlith y gorau yn y wlad.

### Gorchymyn Dynodi 1957

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Dynodwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym 1957. Yn ôl y gorchymyn sy'n rhoddi statws Parc Cenedlaethol, pwrpas y dynodiad yw gwarchod harddwch naturiol yr ardal a hyrwyddo'i fwynhad gan y cyhoedd. Mae deall cyflwr ein harddwch naturiol felly yn flaenoriaeth drosfwaol ac yn un sydd wrth wraidd ein holl weithgareddau eraill.

Rydym wedi diffinio harddwch naturiol yn flaenrol fel rhywbeth sy'n cwmpasu ystod eang o ffactorau ac yn cyfuno ansawdd y dirwedd ag amrywiaeth ecolegol a chysylltiadau diwylliannol (gweler hefyd atodiad 2). Er bod profiad ac ystyr harddwch naturiol yn dibynnu ar ymatebion unigol, rydym yn ei ddeall yn fwyaf clir trwy graffu ar ansawdd y dirwedd. Mae hynny'n ddealladwy, gan mai ansawdd eithriadol ein tirwedd yw'r hyn yr ydym yn enwog amdano; caiff ei werthfawrogi gan filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn, ond mae'r nodwedd hanfodol hon o'r Parc Cenedlaethol yn agored i newid.

Er bod ein tirwedd yn ymddangos yn ddigyfnewid, mae'n bwysig deall nad yw'n endid statig. Mae ein tirwedd yn gynnrych milenia o brosesau daearegol,

geomorffolegol a dynol, prosesau o newid sy'n parhau hyd heddiw ar wahanol gyflymder. Mae'r effeithiau hyn eisoes yn gadael eu hól ar ein tirwedd. Canfu asesiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Reading yn 2021 mai dim ond 5 o'r 16 math o dirwedd a arddangosir yn y Parc Cenedlaethol sydd mewn cyflwr Da fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos. Mae'r asesiad hwn yn waith sy'n mynd rhagddo a chaiff gwaith pellach ei wneud i'w alinio â mentrau blaenorol y Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'u mentrau i ddyfod.

Cyflwr	Math o dirwedd
Da	Ffermdiroedd Bugeiliol Hynafol Gwlyptiroedd Glan Llyn Bryniau a Llethrau Gweundir Llwyfandiroedd Llociau Bugeiliol yr Ucheldir
Cymedrol	Bryniau a Llethrau Calchfaen Bryniau a Llethrau Creigiog Tir Amaeth Sefydledig Llethrau a Chymoedd Coediog
Gwael	Iseldiroedd Ffermio Hynafol Porfeydd Ucheldir Sefydledig Tiroedd amaeth pentrefol
Gwael iawn	Llwyfandir Gweundir Coediog Llethrau Gweundir Coediog Llociau Bugeiliol Coediog Dolydd Afonydd



# Harddwch Naturiol

Yn gyffredinol, nid oedd canfyddiadau'r asesiad yn syndod. Mae rhai mathau o dirwedd yn meddu ar ymyriadau dynol diweddar megis conwydd a blannwyd ar ôl y rhyfel (llethrau gweundir coediog), neu arferion amaethyddol a gymhellwyd gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) (e.e. tiroedd amaeth pentrefol). Mae'r tirweddau hyn mewn cyflwr cyffredinol waeth na'r rhai lle mae effaith gweithgarwch dynol yn isel a lle mae nifer y cynefinoedd lled-naturiol yn parhau'n uchel; er enghraifft, mathau o dirweddau ucheldirol (bryniau a llethrau rhostir) (Griffiths a Warnock 2021).

Mae amrywiaeth y tirweddau ar draws y Parc Cenedlaethol yn gofyn am wahanol opsiynau ar gyfer eu rheoli ac am weithrediadau sy'n briodol i'w cymeriad. Fodd bynnag, mae rhai bygythiadau cyffredin i'w hintegredd yn bodoli.<sup>1</sup> Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

- Newid yn yr Hinsawdd (prinder dŵr / perygl llifogydd / colledion bywyd gwyllt / llai o ddiogeled bwyd)
- Newid yn y fioamrywiaeth (colledion cynefinoedd / colledion rhywogaethau / goresgyniad rhywogaethau / darnio cynefinoedd)
- Newid mewn arferion ffermio (colli ffermwyr o'r gymuned / colli sgiliau / costau cynyddol a/neu gollu cynhyrchiant sy'n cymell arferion dwys)
- Newid o ran proffil ynni (costau tanwydd cynyddol / llai o gyflenwadau olew / allyriadau carbon / sbardun ar gyfer ynni adnewyddadwy)
- Newid yn y boblogaeth (mewnfudo / poblogaeth sy'n heneiddio / newid o ran anghenion tai / seilwaith cyfyngedig)
- Anghenion trafnidiaeth (allyriadau carbon / costau tanwydd / cyfyngiadau o ran trafnidiaeth wledig)
- Globaleiddio (colli traddodiadau diwylliant / cynyddu gwastraff / gorddefnyddio)

<sup>1</sup> Amdrafodaeth lawn gweler Fiona Fyfe and Associates, Landscape Character Assessment (2012) Pennod 6 Forces for Change



# Nenfwd Ecolegol Bannau Brycheiniog 2022


Mae'r nenfwd ecolegol yn dangos y cydrannau allweddol sy'n ffurfio elfennau amgylcheddol ein pwrpas cyntaf.



Ar gyfer pob elfen, rydym wedi diffinio lle mae ffin y cynaliadwyedd amgylcheddol yn syrthio. Dangosir y rhain fel "nodau" ar y diagram gyferbyn.

Rydym hefyd wedi canfod dangosyddion allweddol sy'n rhoi ciplun inni o ble rydym ni.

Yna, byddwn yn defnyddio'r dangosyddion hyn i frasamcanu pa mor bell yr ydym o gyrraedd y nodau dan sylw – dyma'r lletemau coch sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cylch gwyrdd, sef y "ffin cynaliadwyedd".



>50%

Rhestr goch rhywogaethau adar 8 wedi gostwng fwy na 50% ym Mannau Brycheiniog rhwng 1995 a 2018

10%

o SoDdGAau yn y Parc o dan reolaeth briodol

16%

The area of the park under tree cover has slightly decreased from 17% since 2015.

56%

o ACA mewn cyflwr anffafriol



Yn 2020, cyhoeddwyd Adroddiad diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. (SoNaRr). Canfu hwn nad oedd gan unrhyw un o'r ecosystemau yng Nghymru'r holl briodoleddau gwytnwch angenrheidiol. Roedd hyn yn adleisio canfyddiadau blaenorol gan asesiadau tebyg, megis Living Planet Report gan y Gronfa Fyd-eang ar gyfer Nature (WWF) a ganfu bod poblogaethau bywyd gwyllt wedi gostwng 60% yn fyd-eang oddi ar 1970, neu'r Adroddiad Cyflwr Natur 2019 a amlygodd y ffaith fod 73 o rywogaethau Cymru gyda 666 o rai eraill mewn perygl o ddiflannu.

Mae'n amlwg o'r ciplun uchod fod byd natur mewn argyfwng a, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi dysgu mwy am helaethder y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n cael eu colli ar raddfa fyd-eang a chenedlaethol. Yn 2020, gyda chyhoeddi'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc, fe wnaethom ddangos y modd yr oedd yr argyfwng hwn yn datblygu yn y Parc Cenedlaethol ei hun.

Cymerwch er enghraifft ein data ar adar bridio a nythu. Mae adar yn ddangosyddion pwerus o iechyd amgylcheddol da ac yn brocsiaid ar ei gyfer. Mae llawer o adar yn eistedd ar frig cadwyni bwyd daearol a morol, neu'n agos atynt, ac mae deall y sbardunau a'r effeithiau ar eu poblogaethau yn rhoi cipolwg i ni ar statws bywyd gwyllt arall. Dangoswyd bod cyfanswm o wyth rhywogaeth ar y "rhestr goch" yn prinhaus o fwy na 50% yn ardal y Parc, gan gynnwys gwenoliaid duon, llinos werdd,

siglen lwyd, melyn yr eithin, y gylfinir, tinwen y garn, a'r ydfran. Dangoswyd bod rhai o'n hadar mwyaf cyfarwydd fel y ji-binc a'r titw tomos las yn prinhaus rhwng 25 - 50%. Gwelwyd y gostyngiadau hyn ar draws rhywogaethau a chynefinoedd lluosog, sy'n dangos bod problemau eang yn bodoli o fewn yr ecosystemau. Gallai hyn gael canlyniadau dinistriol ar ddynoliaeth.

Nid yw'r stori hon yn unigryw i dirweddau a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol ond mae'n ffaith anghyfforddus wrth inni ystyried mai pwrpas cyntaf y sefydliad yw gwarchod a gwella bywyd gwyllt yn ein holl weithgareddau. Tynnodd Adroddiad y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) sef, A Lost Decade for Nature (2020), sylw at y ffaith bod y DU wedi methu cyrraedd unrhyw un o dargedau Aichi a osodwyd gan y Cenedloedd.

## Cyflwr Natur

Unedig yn 2010 i atal y golled ddinistriol o fioamrywiaeth. Ond yn bwysicach fyth, roedd yn ymddangos bod Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn llai abl nag ardaloedd eraill i warchod y cynefinoedd mwyaf arwyddocaol yn eu gofal (t.4). Canfu astudiaeth yn Lloegr fod cyflwr y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn waeth y tu mewn i Barciau Cenedlaethol na'r tu allan iddynt<sup>1</sup>. Er nad yw'r asesiad ar gyflwr cymharol y tu mewn a'r tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol wedi'i gwblhau, rydym yn cydnabod bod cyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (56% mewn cyflwr anffafriol) a SoDdGA (34% o nodweddion SoDdGA mewn cyflwr anffafriol) o fewn y Parc Cenedlaethol yn is na'r hyn yr hoffem iddo fod o ran ecosystemau iach, ac yn sicr maent yn bell iawn o gael eu gwella.

Mae'r darlun hwn yn ganlyniad i nifer o ffactorau ond mae SoNaRR (2020) ac Argyfwng Natur Cymru WWF (2020) yn amlygu'r canlynol fel ffactorau sy'n sbarduno colled ym mioamrywiaeth y DU:-

- Rheoli Amaethyddol
- Newid Hinsawdd

1. Cox, K. et al (2018), National Parks or Natural Parks: how can we have both? British Wildlife 30:2, Rhagfyr 2018. <https://www.britishwildlife.com/article/volume-30-number-2-page-87-95>


# Bannau Brycheiniog Craidd Y Parc Cenedlaethol 2022

Rhwng y nenfwd ecolegol a'r sylfaen gymdeithasol, ceir man cyfiawn a diogel. O fewn fersiwn y Parc Cenedlaethol o'r doesen, dyma'r gofod y byddem am gynnal gweithgareddau ein hail bwrpas. Mewn geiriau eraill, dylai'r cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol ddigwydd mewn modd sydd ddim yn achosi inni dorri ein nenfwd ecolegol neu wthio ein trigolion o dan y sylfaen gymdeithasol.

Ar gyfer pob elfen, rydym wedi diffinio lleoliad y ffin ddeuol hon. Dangosir y rhain fel "nodau" ar y diagram gyferbyn.

Rydym hefyd wedi canfod dangosyddion allweddol sy'n rhoi ciplun inni o ble rydym ni.

Yna byddwn yn defnyddio'r dangosyddion hyn i frasmcanu pa mor bell yr ydym o gyrraedd y nodau dan sylw - dyma'r lletemau coch sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cylch porffor. Mae'r lletemau sy'n gorsaethu yn dangos bod y ffactorau hyn yn cael effaith anghynaliadwy ar yr amgylchedd. Mae'r lletemau sy'n dangos diffyg yn effeithio ar gynaliadwyedd y gymuned.



# 22%

CYNNYDD yng nghanran yr Hawliau Tramwy o fewn y Parc sy'n cael eu dosbarthu fel 'Hawdd eu Defnyddio' ers 2011

# 342

amcangyfrifir bod mwy o geir ymwelwyr yn parcio yn ardal Storey Arms ar adegau prysur nag sydd o leoedd parcio ceir (<200% yn uwch na'r capasiti)

# 31%

CYNNYDD yn y ganran o Hawliau Tramwy o fewn y Parc sy'n cael eu dosbarthu fel rhai 'Agored' ers 2011

# 650

cyrhaeddodd mwy o geir ymwelwyr ar yr adegau prysuraf yn ardal y Sgydau ar ôl y cyfyngiadau symud 2020 nag oedd o leoedd parcio ceir ar eu cyfer (62.5% yn uwch na'r capasiti)

Roedd y cynllunwyr a ddynododd y Parciau Cenedlaethol yn eu gweld fel mannau a fyddai'n rhoi cyfleoedd i bob aelod o gymdeithas gael mynediad am ddim i gefn gwlad – eu hymadrodd ar gyfer hyn oedd “hamdden awyr agored”. Roedd hon yn elfen allweddol o'r diwygiad cymdeithasol a ddaeth i'r brig ar ôl erchylltra'r Ail Ryfel Byd, ac fe'i hystyriwyd yn hollbwysig i adferiad cymdeithasol ac economaidd y genedl, ochr yn ochr â chreu'r wladwriaeth les, y GIG a gwyliau â thâl.

Mae'r ffordd y mae pobl yn cael mynediad i gefn gwlad ac yn ei ddefnyddio wedi'i drawsnewid yn llwyr o'r weledigaeth a grëwyd yn sgil y rhyfel. Nid yn unig y mae poblogaeth y DU wedi cynyddu'n sylweddol - mae tua 13 miliwn yn fwy o bobl yn y DU nag ym 1949 - ond mae perchnogaeth ceir wedi cynyddu'n esbonyddol. Ym 1950, roedd 4 miliwn o geir ar y ffordd – heddiw, mae'r ffigur hwnnw wedi cynyddu i dros 38 miliwn. Mae'r twf cyfun hwn mewn pobl a'r defnydd o geir preifat wedi cael effaith fawr ar y Parc Cenedlaethol a'n gallu i reoli pwysau ymwelwyr. Mae twristiaeth yn denu ymwelwyr i aros am gyfnod neu i daro heibio am ddiwrnod yn unig, ac mae'n un o elfennau mwyaf arwyddocaol yr economi leol. Yn wir, mae gwariant ymwelwyr ar y cyfan wedi cynyddu cymaint â 45% oddi ar 2007. Daw ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol

am lu o resymau, ond yn y bôn, maent yn dod am ei fod yn ennyn teimladau o lesiant sydd o fudd i'w hiechyd emosiynol a'u hapusrwydd. Nid y bobl yw'r broblem ond eu dull o gyrraedd y lle.

Fe ddechreuon ni ddatblygu'r cynllun hwn yn 2020, a oedd ymhell iawn o fod yn flwyddyn arferol. Am y tro cyntaf ers degawd, fe gaewyd rhannau helaeth o'r Parc Cenedlaethol a gwnaed mynediad cyhoeddus yn anghyfreithlon. Daeth “ymwelwch yn ddiweddarach” yn arwyddair i'r Parc Cenedlaethol yn ystod y cyfnod clo yn 2020.

Yn ystod y cyfnod clo, roedd y daith gerdded leol yn gysur i lawer bob dydd. Daeth y cyfle newydd i dreulio amser

# Deall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol

hamdden yn yr awyr agored yn gyfystyr ag iachâd, yn debyg i weledigaeth y Parciau Cenedlaethol a amlinellwyd gan Dower a Hobhouse yn ôl yn y 1940au. Cadarnhawyd hynny pan laciodd y cyfyngiadau wrth i nifer yr ymwelwyr ddychwelyd i lefelau nas gwelwyd o'r blaen.


Mae llawer o ymwelwyr yn ymgynnull mewn lleoliadau arbennig ac eiconig, e.e. y Storey Arms yn y Bannau Canolog a Bro'r Sgydau ym Mhontneddfechan. Yn aml, mae hyn yn golygu ein bod yn gweld ymwelwyr yn ymgasglu mewn niferoedd y tu hwnt i gapasiti'r ardal i'w cynnal. Mae'n arwain at ystod o effeithiau sydd nid yn unig yn niweidiol i brofiad yr ymwelydd ond hefyd yn cael effeithiau andwyol di-ri ar y cymunedau lleol sy'n teimlo eu bod wedi'u llethu gan anferthedd eu presenoldeb.

Materion sy'n codi pan fo pwysau ymwelwyr yn drech na chapasiti'r ardal:-

- Allyriadau trafndiaeth
- Tagfeydd ffyrdd a phroblemau parcio
- Cynnydd mewn tai haf ac ail gartrefi
- Gweithgareddau hamdden amhriodol
- Llygredd sŵn
- Erydiad yr ucheldir
- Effeithiau ar gynefinoedd sensitif ac aflonyddwch bywyd gwyllt



# Sylfaen Gymdeithasol Bannau Brycheiniog 2022



Mae'r sylfaen gymdeithasol yn dangos y cydrannau allweddol sy'n rhan o elfennau ein dyletswyddau statudol.



Ar gyfer pob elfen, rydym wedi diffinio lleoliad ein ffin ar gyfer llesiant economaidd-gymdeithasol. Rydym hefyd wedi canfod dangosyddion allweddol sy'n rhoi ciplun inni o le'r ydym ni

Yna, byddwn yn defnyddio'r dangosyddion hyn i frasmcanu pa mor bell yr ydyn ni o gyrraedd y nodau dan sylw - dyma'r lletymau coch sy'n disgyn i'r twll yng nghanol y doesen, o dan y sylfaen ar gyfer llesiant.


35.8%

Proportion of our total resident population over 65 by 2032


48.8%

Proportion of our total resident population between 16-64 by 2032

### Anghenion tai fforddiadwy 2007-2022



### Lluosyddion morgeisi



Ein cymunedau yw calon y Parc Cenedlaethol, ond nid yw bywyd yng nghefn gwlad heb ei anawsterau. Ymhlith y llu o broblemau sy'n wynebu cymunedau'r Parc ar hyn o bryd y mae newid hinsawdd; y perygl cynyddol o lifogydd; tloedi tanwydd; mynediad at wasanaethau; newidiadau i'r drefn cymorthdaliadau amaethyddol (gweler nesaf); tloedi gwledig; prisiau tai; poblogaeth sy'n heneiddio; cydraddoldeb a chynhwysiant; pontio'r cenedlaethau; pobl ifanc yn gadael yr ardal, a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Mae effeithiau nifer o'r materion hyn wedi dwysáu yn sgil pandemig COVID-19.

Mae newid demograffig yn fater allweddol arall sy'n effeithio ar ein cymunedau. Dros y degawdau diwethaf, rydym wedi colli pobl ifanc o'r ardal. Mae'r rhesymau y tu ôl i hyn yn gymhleth - mae'n ymwneud yn rhannol ag atyniad goleuadau llachar y ddinas, ond mae hefyd yn ymwneud â diffyg cyfleoedd gwaith o ansawdd da yn y Parc Cenedlaethol, a phrisiau tai uchel. Mae colli pobl ifanc yn golygu bod ein poblogaeth breswyl yn mynd yn hŷn, ac mae poblogrwydd yr ardal ymhlith pobl sy'n symud yma ar ôl ymddeol yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Mae pobl nad ydynt bellach yn gaeth i siwrnai ddyddiol i'r gwaith yn awyddus i dreulio'u hymddeoliad yng nghefn gwlad. Mae hyn yn arwain at brisiau tai uwch, a cholli gwasanaethau a chyfleusterau, megis ysgolion, o'n cymunedau. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar ein pentrefi i ymdopi â thwf pellach, a darparu tai fforddiadwy

ar gyfer pobl ifanc, tra bod y stoc dai bresennol yn wag am eu bod yn gartrefi gwyliau ac ail gartrefi - sydd yn ei dro'n creu "pentrefi noswyllo".

Mae ein cyfansoddiad economaidd yn dibynnu i raddau helaeth ar fframwaith ein dynodiad yn Barc Cenedlaethol. Rydym yn llai dibynnol ar sectorau economaidd traddodiadol (megis gweithgynhyrchu a diwydiant) ac yn fwy dibynnol ar yr economi gwasanaethau

sydd wedi tyfu o amgylch y fasnach dwristiaeth. Hefyd, mae ein hapêl fel cyrchfan twristiaid yn bennaf, ac mae cymeriad a chydnerthedd y dirwedd honno'n ddibynnol ar weithgareddau ffermwyr sy'n gwneud eu bywoliaeth o'r tir.

# Amodau Byw A Gweithio Yn Y Parc Cenedlaethol

Gwelir bod ffyniant economaidd, fel y'i mynegir trwy ddangosyddion allweddol y farchnad lafur, yn mynd yn llai llewyrchus wrth ichi fynd o'r gogledd i'r de o fewn ardal yr Awdurdod. Mae lefelau incwm cyfartalog uwch i'w gweld yn ardaloedd gwledig amaethyddol y Parc Cenedlaethol nag yn aneddiadau mwy trefol y meysydd glo (segur erbyn hyn) yng Nghymoedd De Cymru, ar ffin ddeheuol y Parc. Gwelir y gwahaniaeth hwn rhwng yr ardaloedd hefyd yn y lefelau cyflogaeth, addysg, a'r mesurau amddifadedd lluosog, sydd oll yn gwaethgu wrth fynd o'r Gogledd i'r De.

Mae economïau ledled y byd wedi'u dinistrio gan effeithiau'r coronafeirws a'r newid mewn ymddygiad a ddaeth yn ei sgil. Mae natur economi'r Parc Cenedlaethol yn golygu ein bod ninnau hefyd yn teimlo'r effaith yn arw o fewn sectorau megis manwerthu a thwristiaeth. Yn ogystal â'r ansicrwydd economaidd sydd ynghlwm wrth argyfwng y coronafeirws, rhagwelir effeithiau ychwanegol parhaus yn sgil Brexit, a'r drefn o ran cymorthdaliadau amaethyddol yn y dyfodol sef y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar y sector amaeth yn bennaf, ond mi fydd hefyd yn effeithio ar yr holl sectorau sy'n dibynnu ar fewnforio neu allforio nwyddau a gwasanaethau i Ewrop, gan gynnwys twristiaeth.






Gweledig aeth

# Parc Cenedlaethol Y Dyfodol

I weithredu mewn ymateb i'r materion a nodwyd a sicrhau bod y gweithredu hwnnw o fewn y terfyn ecolegol uchaf a'r sylfaen cymdeithasol, mae gofyn cymryd camau trawsnewidiol a chydweithredol.

I lywio'r gweithredu hwn, mae'r cynllun yn diffinio gweledigaeth 25 mlynedd, sy'n anelu at roi ein pwrpasau a'n dyletswyddau ar waith o fewn cyd-destun yr 21ain ganrif, gan fod yn effro i broblemau'r hinsawdd a'r argyfwng natur.

Cefnogir y weledigaeth gan ein pum cenhadaeth sy'n anelu at sicrhau ein bod yn rhoi ein pwrpasau a'n dyletswyddau ar waith yn llwyddiannus, i greu Parc Cenedlaethol ffyniannus i bawb.




# Bannau Brycheiniog 2048

Mae'r ddelwedd hon yn mynd â ni nôl i'r un olygfa nodweddiadol yn y Parc Cenedlaethol. Ond y tro hwn, rydym wedi symud y cloc ymlaen 25 mlynedd i greu darlun o dirwedd bosib yn y dyfodol.

Yn y dirwedd hon, mae natur a ffermio'n gweithio ochr yn ochr i greu tirwedd gydnerth a bioamrywiol.

Bydd dyfodol cynaliadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn arddel adferiad natur, atebion seiliedig ar natur i'r newid hinsawdd, twf gwyrdd, a throi ein cymunedau'n rhai all gynnal bywyd carbon-isel sy'n hygyrch i bawb. Gobeithiwn y bydd eraill yn cael eu hysbrydoli i weithredu, a bod ein hymwelwyr yn elwa ac yn dysgu o gael cyswllt agosach â byd sy'n gyforiog o natur. Dyma sy'n sbarduno ein gweledigaeth ac rydym yn gwahodd ein holl bartneriaid i'w rhannu gyda ni.

Credwn ei bod hi'n hanfodol gweithredu ar hyn nawr, a lle bo modd, ar y cyd â phawb sydd am sicrhau hyfywedd y Parc yn y dyfodol ar gyfer pobl a natur.



# Ein Gweledigaeth:

## Bydd ein Parc Cenedlaethol yn fan o ysbrydoliaeth, a fydd yn ein hysgogi i weithio tuag at ddyfodol llewyrchus a chynaliadwy.

Byddwn yn harneisio'r pŵer o gael natur a phobl yn gweithio ochr yn ochr i'n helpu ni i wynebu'r newid hinsawdd, y dirywiad bioamrywiol, yr adferiad economaidd, a'r argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn 2048, bydd Bannau Brycheiniog yn ecolegol gydnerth a byddwn wedi rhagori ar garbon sero-net.

Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddant yn cydgyssylltu ac yn cydweithio â'i gilydd.

Bydd diwylliant, prydferthwch naturiol ac amgylchedd y Parc yn dod ag ysbrydoliaeth a llawenydd i bawb sydd yma'n byw ac yn gweithio, ac yn ymweld â'r lle.





# Cerdyn post o 2047

**Sally Davies, Fferm Tirmawr**

Rwy'i bellach yn 83 oed ond rwy'n dal i gerdded!  
Rwy'i wedi byw a gweithio yn y Parc ar hyd fy oes.  
Rwy'n mynd am dro bob dydd i geisio cadw'n  
heini ac yn actif. Mae gen i fy wyres ieuengaf gyda  
mi. Rwy'n dangos iddi'r twll yn y goeden a wnaed  
gan gnocell werdd, a hefyd rhediad y llwynog a  
setiau'r moch daear. Dywedodd fy merch wrthyf  
am fynd â hi gyda mi oherwydd bod angen  
ychydig o awyr iach arni, ond mi wn ei bod hi yma  
i gadw llygad arna i ac i wneud yn siŵr nad wy'n  
cwmpo.

Mae hi'n hydref ac mae'r coed yn mynd i gysgu. Gallaf glywed yr Afon Wysg yn rhuo drwy'r dyffryn ar ôl cyfnod arall eto o law trwm. Yn y pellter, gallaf glywed llif gadwyn. Mae fy ngŵr, fy merch a'm hŵyr yn gosod un o'n cloddiau ... gan drosglwyddo'r sgil hynafol i'r genhedlaeth nesaf.

Wedi'r storm, mae tawelwch. Mae'r haul yn tywynnu ar fy wyneb, a daw disgleirdeb o liw y dail hydrefol.

Rwy'n codi cragen cnau cyll sydd wedi'i gnoi. Mae gwiwerod coch wedi dychwelyd i'r ardal. Rwy'n dangos i fy wyres lle'r oedd y wiwer wedi cnoi'r gragen a thynnu'r gneuen.

Rwy'n meddwl am y gorffennol ...

Ddylwn i ddim bod wedi poeni cymaint. Roeddwn i'n ofni'n fawr mai cymdeithas gadwraethol yn unig oedd y Parc. Tybiwn mai ei rôl oedd atal unrhyw ddatblygiad yn y Parc, a chaniatáu ond y criw crand i brynu eiddo yma. Roeddwn i'n ofni y byddai'r Parc yn dod yn llawn o bentrefi noswyllo dienaidd, ond roeddwn i'n anghywir.

Mae ein busnes fferm yn delio â biff, defaid ac eco-dwristiaeth, ac mae'n parhau i ffynnu hyd heddiw. Rydyn ni'n ddiolchgar am ddulliau newydd PCBB - maent wedi galluogi inni adeiladu eco-gartref modiwlaidd sy'n ynni-effeithlon o fewn y fferm. Roeddem yn gymwys gan y gallem brofi ein bod yn gwneud ein bywoliaeth yn bennaf o'r tir, ac sy'n digwydd cario drosodd i weithgareddau eraill a seiliwyd ar y tir hefyd. Mae hyn yn golygu y gall fy

ngŵr a minnau barhau i fyw ar y fferm lle'r ydym wedi byw y rhan helaethaf o'n bywydau a bydd modd inni drosglwyddo ein gwybodaeth a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol. Erbyn hyn, rwy'n gallu gwyllo'r wyrion tra bod fy mhlant wrthi'n wyna, yn cneifio ac yn tywys grwpiau ysgol o gwmpas y tir. Mae fy wyrion hefyd yn gallu byw ar y fferm yn awr, ac mae hynny o gymorth hanfodol i mi hefyd am eu bod yn cadw llygad arna i, gan fynd i ôl a chario pethau, gan roi'r modd imi barhau i fod yn annibynnol ac yn ddefnyddiol.

Pan ddynodwyd yr ardal hon yn Barc Cenedlaethol, roedd fy nhad-yng-nghyfraith yn mynd i Ysgol Ystradfellte ac fy mam-yng-nghyfraith i Ysgol Trallong. Yn ddiweddarach, aeth fy ngŵr i Ysgol Crai ac es innau i Ysgol Libanus. Roedd yr holl ysgolion hyn wedi hen ddiflannu erbyn 2022. Roedd pobl ifanc yn symud allan o'r ardal oherwydd diffyg swyddi a thai. Yn awr, yn y flwyddyn 2047, mae'r sefyllfa wedi'i gwrthdroi; nid yn unig mae'r bywyd gwyllt yn ffynnu ond mae ein cymunedau yn llewyrchus hefyd, gyda chenedlaethau gwahanol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd, yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd.

Yn groes i'r disgwyl, llwyddodd y Parc i gael y cydbwysedd yn iawn. Cafodd y dirwedd ei gwarchod nid fel photo o ryw amser arbennig, ond fel lle byw a deinamig, gyda chymunedau o bob oed yn ferw o brysurdeb a'r tir yn gyforiog o rywogaethau.



# Bannau'r Dyfodol; Dull Dan Arweiniad Cenhadaeth

“ Rydyn ni'n dewis mynd i'r lleuad. Rydyn ni'n dewis mynd i'r lleuad yn y degawd hwn a gwneud y pethau eraill, nid oherwydd eu bod yn hawdd, ond oherwydd eu bod yn anodd, oherwydd bydd y nod hwnnw yn fodd i drefnu a mesur y gorau o'n hegni a'n sgiliau, oherwydd mae'r her honno'n un yrydym yn fodlon ei dderbyn, yn her yr ydym yn anfodlon ei ohirio, ac yn her yr ydym yn bwriadu ei hennill ...

Arlywydd John F Kennedy,  
Mhrifysgol Rice,  
12 Medi, 1962.

Pan ddatganodd yr Arlywydd Kennedy ei uchelgais i anfon pobl i'r lleuad a dod â nhw'n ôl yn ddiogel, creodd, mewn un cam diamwys ac ysbrýdoledig, y sbardun i fwrw ymlaen â'r prosiect. Yn sgil y datganiad hwnnw, dechreuodd lluo o bobl, o arbenigwyr i ddinasyddion, gydweithio mewn ffyrdd nas gwelwyd o'r blaen er mwyn cyflawni un amcan canolog, a hynny ar fyrder. Roedd y gweithgaredd yn golygu gweithio ar gannoedd o brosiectau, cymryd risgiau, symud ymlaen trwy brofi a methu llawer o weithiau ar hyd y ffordd, cyn cyrraedd y lan yn y pen draw (Mazzacato 2021).

Drigain mlynedd ers lansio Prosiect Apollo, mae'r heriau y mae angen i'r Cynllun hwn fynd i'r afael â nhw – sef newid hinsawdd, adfer byd natur, gwella ansawdd dŵr, creu twristiaeth gynaliadwy a ffyniant economaidd i'n trigolion, i enwi dim ond rhai – yn broblemau cymhleth a dychrynlyd sy'n debyg i'r ymdrech a wnaed i lanio ar y lleuad yn yr ystyr eu bod yn gofyn am y gorau o'n hegni a'n sgiliau.

Am y rheswm hwnnw, mae Y Bannau yn cymryd agwedd genhadol tuag at reoli'r Parc. Byddwn yn gosod nodau beiddgar i weithredu ar ein problemau mwyaf enbyd ac yn eu cyflawni trwy gydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd angen i sefydliadau amgylcheddol anllwyodraethol, dinasyddion, swyddogion cyflogedig y cyrff cyhoeddus ac amaethwyr, i gyd ddod at ei gilydd i gyflawni trawsnewidiad beiddgar er lles y cenedlaethau i ddyfod.

# Teulu'r Genhadaeth

Mae ein dull cenhadol yn cynnwys pum maes cenhadaeth allweddol sy'n gydgyssylltiedig. Cyfeiriwn atynt fel ein teulu cenhadol gan eu bod i gyd yn gydgyssylltiedig, yn gyd-ddibynnol yn rhyngberthynol (gweler atodiad 4).

Mae'r meysydd pwnc hyn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o Doesen y Parc Cenedlaethol (gweler uchod) ac yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol hynny lle mae'r Parc Cenedlaethol yn torri'r terfynau sy'n ymwneud â gweithredu'n ddiogel (gweler yr adran ar Broblemau). Dyma'r meysydd lle'r ydym yn beryglus o agos at sefyllfaoedd diffwysol a di-droi'n-ôl. Rhaid gweithredu ar y rhain fel mater o frys. Mae'r ddealltwriaeth hon o'r dystiolaeth yn gofyn am weithredu ar y cyd yn y meysydd canlynol: -

Hinsawdd  
Dŵr  
Natur

AAc, i gydnabod y toriadau sylweddol ar draws bron y cyfan o'n sylfaen gymdeithasol a Chraidd y Parc Cenedlaethol, rydym wedi nodi meysydd cenhadaeth mwy cyffredinol sy'n canolbwyntio ar:-


Pobl (ymwelwyr, preswylwyr, a pherchnogion busnes)  
Lle (yr ardal ddaearyddol lle gellir teimlo effeithiau)

Mae gan bob cenhadaeth ei phennod ei hun yn y cynllun hwn. Mae'r penodau hyn yn egluro'r genhadaeth ac yn darparu rhesymeg gyd-destunol ehangach ar gyfer ffocws y genhadaeth. Wrth greu penodau sy'n seiliedig ar genhadaeth, rydyn ni'n cydnabod ein bod yn creu ffiniau ffug rhwng y meysydd cenhadaeth.

Er y gwyddom fod gwahaniadau o'r fath yn ffug; yn anffodus, dyma'r ffordd gliriaf y gallwn ddod o hyd iddi i gyfathrebu ein gweledigaeth. Rydyn ni am gydnabod yma fod llwyddiant ymhob maes cenhadaeth yn dibynnu ar systemau rhyngweithio cymhleth rhwng y meysydd cenhadaeth. Er mwyn deall y ffordd y mae ein gweithredoedd yn effeithio ar yr ystod lawn o'n cenadaethau, byddwn yn dychwelyd at ein model toesen i ddarparu dealltwriaeth gyfannol.

*Mae'r datganiadau cenhadaeth hyn yn ffurfio ein Hamcanion Llesiant ar gyfer y cyfnod 2023-2028 ac yn dangos y modd y bydd ardal ddaearyddol y Parc yn cyfrannu at gyflawni'r 7 nod llesiant drwy'r 5 ffordd o weithio. (Gweler atodiad 3 am fanylion pellach)*

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion am y ffordd y mae'r cynllun yn mynegi'r cenadaethau (y penodau ar gynnwys y cenadaethau) yn ogystal â'r dulliau sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau.



# Cynaliadwyedd Diffiniad.

Mae'r termau cynaliadwy a chynaliadwyedd yn cael eu defnyddio dro ar ôl tro yn y cynllun hwn.

I fod yn glir, mae ein defnydd o'r termau hyn yn dilyn diffiniad Brundtland o gynaliadwyedd a ddisgrifiwyd ym 1987 fel "diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".

Yng Nghymru, mae cynaliadwyedd wedi'i ddiffinio ymhellach gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) sy'n gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i lynu wrth yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

*Mae'r broses yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau sy'n cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.*

Felly, rhaid darllen unrhyw ddatganiad a wneir yn y cynllun hwn sy'n cyfeirio at weithred, nod, deiliant neu amcan "cynaliadwy", fel datganiad sy'n gofyn am gamau gweithredu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nid yn unig yn awr ond ar gyfer y cenedlaethau i ddyfod.

## **Asesiad o effaith bosibl ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol**

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i gynlluniau neu brosiectau haen is sy'n deillio o weithredu'r Cynllun hwn, ac a allai effeithio ar safle Ewropeaidd, gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) fel y nodir o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'i diwygiwyd). Nid yw'r cynllun rheoli hwn yn cefnogi unrhyw gynlluniau na phrosiectau haen is os na ellir diystyru effeithiau andwyol ar integreidd y safle.



# Uchelgeisiau: Diffinio llwyddiant i'r Parc Cenedlaethol.

Er mwyn helpu darllenwyr i ddeall cyrhaeddiad y genhadaeth ar draws y Parc Cenedlaethol, rydym wedi diffinio cyfres o “ddatganiadau uchelgais” sy’n ceisio rhoi darlun clir o’r hyn y mae gweithredu’r cenedlaethau’n llwyddiannus yn ei olygu.

Maent yn mynegi’r newidiadau hyn fel deilliannau ar lawr gwlad, ac fel ein cenedlaethau maent yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn darparu sail ar gyfer monitro’r Cynllun hwn yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni’r newidiadau mawr hyn, bydd angen i lawer o wahanol sefydliadau ac unigolion weithio gyda’i gilydd – ni fydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithredu ar ei ben ei hun.

Maes Cenhadaeth

Is-bwnc – cydrannu’r genhadaeth yn ôl ei hamcanion

**Sequestration**

Action will be happening across the national park to restore nature's ability to capture carbon from the atmosphere, in line with the climate change committee's sixth carbon budget recommendations on agriculture, land use, land use change and forestry.

**Habitat restoration**  
Accelerated habitat restoration, especially peatland restoration in line with the National Peatland Programme, will maximise carbon storage in existing ecosystems.

**Land use change**  
Increased woodland, agro-forestry and hedgerows, with the right trees in the right places, will create new natural carbon sinks.

**Sustainable farming**  
Changing plants and practices in farming will improve the soils ability to hold carbon.

**Adaptation**

People and nature will be more resilient to the unavoidable impacts of climate destabilisation, in line with prosperity for all, the climate change adaptation plan for Wales.

**Nature restoration**  
Restored, expanded and linked ecosystems and wildlife habitats will help nature to withstand pressures of a changing climate. Protected groundwater levels and adequate flow in rivers will also promote healthy ecology and enhance natural resilience to drought. Sites most at risk of fire will be managed to reduce fire loading.

**Resilient infrastructure**  
Flood risk will be reduced by restored nature letting peak river flow and by flood protection for vulnerable buildings. The impact of temperature rises locally will be mitigated by restored nature, changes to existing buildings, and behavior change. Land use planning will ensure that new developments are built to be resilient to climate impacts.

Datganiad o ddeilliannau ar yr hyn a fydd wedi'i gyflawni erbyn 2028

Datganiad cyffredinol o uchelgais – amcanion ar gyfer Y Bannau

Set enghreifftiol o ddatganiadau ar uchelgais

# Cenadaethau: Dull Cydwethredol A Beiddgar

Although our Mission approach may seem hugely ambitious, we know that by pledging to commit our own resources, and working with our partners, the change that is needed can and will happen.


Meddylwch am bob un o'n cenadaethau fel adeiladu tŵr o flociau. I adeiladu'ch tŵr, mae angen llawer o flociau i ddod at ei gilydd er mwyn creu'r strwythur terfynol, sef y tŵr ei hun. Mae pob bloc yn cael ei osod yn ei dro ac yn adeiladu ar sylfaen y blociau oddi tanynt. Yn ein tŵr cenadaeth, mae pob bloc yn cynrychioli prosiect, cynllun neu weithgaredd, ac wrth eu cyfuno maent yn gweithio gyda'i gilydd i greu'r newid sydd ei angen.

Gwaith Y Bannau yw diffinio'r paramedrau ar gyfer y gweithgareddau nesaf hyn, ac nid i ragnodi'r union ffurf y dylent fod. Yn unol â'n gwerthoedd o gyfranogi a chydweithio, ein partneriaid fydd yn penderfynu'r ffordd y byddant yn gweithio gyda ni a'r cyfraniad y byddant yn ei wneud. Yn y tudalennau canlynol, fe welwch astudiaethau achos o weithgareddau sy'n sail i'r tyrau cenhadol hyn, a elwir yn "Sêr y Bannau" a manylion y partneriaethau y byddwn yn gweithio gyda nhw i helpu i gyflawni cenhadaeth Y Bannau.

## Rôl Gyflawni'r Parc Cenedlaethol

Er mwyn dangos ein hymrwymiad i'r dull Cenhadol, rydyn ni, fel sefydliad, yn nodi'r hyn y credwn yw ein rôl wrth helpu i gyflawni'r cenadaethau. Dyma'r cyfraniadau mwyaf y credwn y gallwn eu gwneud i gyflawni'r cenadaethau.

Yn ogystal â'n dull cenhadol, credwn fod gennym fel sefydliad rôl ganolog a ddiffiniwn fel ein cyfraniad troswaol i genhadaeth y Bannau. Mae hyn yn diffinio gweithgareddau'r dyfodol sy'n rychwantu ein holl genadaethau a byddant yn diffinio patrwm cyffredinol ar gyfer gweithgareddau'r sefydliad cyfan.



# Cenhadaeth y Bannau

## Ein cyfraniad ni at wireddu'r genhadaeth

Mae'r canlynol yn diffinio ymrwymiad ein sefydliad i ymgymryd â gweithgareddau trosfwaol a fydd yn cyfrannu at wireddu ein cenadaethau.

1. Byddwn yn defnyddio ein pwerau i ddod â phobl a sefydliadau allweddol ynghyd i ffurfio partneriaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawniad, fel y gallant rannu gwybodaeth ac arbenigedd, a defnyddio adnoddau mewn modd cydgysylltiedig ac effeithlon. Mae'r ddogfen hon yn diffinio partneriaethau sydd eisoes yn bodoli ac yn gweithredu er budd y Parc Cenedlaethol, a byddwn yn parhau i'w cefnogi.
2. Byddwn yn ehangu cyrhaeddiad ac ehangder ein partneriaeth yn y maes ymchwil academaidd, gan anelu at ddefnyddio arbenigedd yn y maes hwnnw i fynd i'r afael â phroblemau go iawn y Parc Cenedlaethol. Mae'r bartneriaeth yn y broses o greu grwpiau astudio craidd ar gyfer meysydd pwnc allweddol, megis mawn, ffosffadau a threftadaeth, ac a fydd o gymorth i gyflawni'r cenadaethau. Gall penodau cenhadaeth unigol ganfod meysydd eraill lle mae angen ymchwil pellach i gefnogi cyflawniad.
3. Byddwn yn gwreiddio egwyddorion, gwerthoedd a chenhadaeth Y Bannau yn holl waith y sefydliad gan gynnwys ein strwythurau penderfynu a ffyrdd o weithio, ein rheolaeth ariannol, ein cyfathrebiadau cyhoeddus a'n heiriolaeth, a'r modd y byddwn yn datblygu pob cynllun a pholisi pellach y gofynnir i'r Parc Cenedlaethol ei gynhyrchu yn ôl statud neu anghenraid.
4. Byddwn yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, yn awr ac yn y dyfodol, i gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r genhadaeth. Byddwn yn argymhell yr holl gyrff hynny sy'n gweithredu o fewn y Parc ac sy'n rhwym i a62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd (1995) i gyflawni'r genhadaeth gan roi sylw dyledus i'n pwrpasau a'n dyletswyddau ni yn eu gweithgaredd nhw.
5. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd i ymblannu syniadau Y Bannau y tu hwnt i'n ffiniau ni, gan greu meddylfryd o weithredu rhagorol a thrawsnewidiol.

# Sêr Y Bannau: Ysbrydoli Eraill I Weithredu

Mae'r Bannau yn canolbwyntio'n fwriadol ar fynegi amcanion a deilliannau. Nid yw'n canolbwyntio ar "sut" y mae cyflawni. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mai rôl y sefydliad yw pennu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol yr ardal, nid pennu'r modd i'w chyflawni.

Rydym am weithio gyda'n partneriaid allweddol i ddatblygu cynlluniau gweithredu gyda llwybrau manwl sy'n arwain at lwyddiant y genhadaeth. Wrth greu'r cynlluniau hyn ar y cyd, gall pob sefydliad neu gorff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb i'r Parc berchen a chytuno ar gamau i gyflawni'r genhadaeth a gynigir ganddynt.

Er mwyn amlygu'r math o weithredu y tybiwn a fydd o gymorth i gyflawni cenhadaeth, rydym wedi nodi prosiectau sy'n bodoli eisoes yn y gobaith y byddant

yn ysgogi syniadau yn y rhai sy'n cynllunio'r camau gweithredu, ac yn egluro'r math o bethau sy'n rhan o'r blociau adeiladu.

Mae'r astudiaethau achos hyn wedi'u hysgrifennu gan arweinwyr y prosiect a'u henwi yn "Sêr y Bannau". Mae rhai o'r enghreifftiau hyn yn amlygu gwaith cyfredol y sefydliad; mae eraill yn gwbl annibynnol ac yn dangos potensial y gweithredoedd ysbrydoledig a gyflawnwyd gan eraill.

Arweinydd y Prosiect ac  
Awdur yr Astudiaeth Achos

Enw'r Prosiect

Gweledigaeth y Prosiect



Camau  
Gweithredu'r  
Prosiect

Perthynas y  
Prosiect i Gynllun  
Y Bannau

Enghraifft o Sêr y Bannau



“ Mae stori neu naratif yn cymryd y syniadau mawr hynny, y cysyniadau haniaethol a'r ffeithiau sych, ac yn eu troi'n rhywbeth penodol iawn y gallwn ei brofi, ac felly ei deimlo, a dyna'r ffordd y down i ddeall ein hymateb emosiynol iddo a'i ystyr i ni, a dyna sy'n cymell ni i weithredu.

**Lisa Cron**

Cyfeiriad ym Mhrifysgol Rice,  
Medi 12, 1962



Mae cynllun Y Bannau yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r Dyfodol. Er bod yr hil ddynol yn meddu ar allu aruthrol i feddwl yn haniaethol, mae'n anodd inni ddychmygu'r dyfodol yn iawn. Rydyn ni wedi esblygu i feddwl am y presennol oherwydd roedd hynny'n hanfodol ar gyfer goroesi – nid yw gwybod am anawsterau'r dyfodol a ffyrdd o ymateb iddynt yn rhan o'n DNA ni, ond mae'n hanfodol os ydym am sylweddoli bod angen inni weithredu'n bendant yn y presennol er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhywun sy'n gallu dychmygu'r dyfodol yn cael ei alw gan academyddion yn "Ddyfodol-Lythrennog" ac mae llawer yn troi at storïau i'n helpu ni i deimlo a deall y dyfodol yn llawn.

Felly, i'n helpu ni yma ym Mannau Brycheiniog i ddychmygu pa fath o ddyfodol a gawn o ganlyniad i'r cynllun hwn, rydyn ni wedi gweithio gydag awdur lleol, i roi cipolwg i ni o'r hyn allai ddigwydd. Gwnaed hyn trwy ddilyn hynt y teulu Brychan - y seithfed genhedlaeth i amaethu ym Mannau Brycheiniog. Daw pob "pennod genhadol" i ben â chipolwg ar eu byd yn 2048, sef y pwynt lle rydyn ni'n nesáu at wireddu ein prif nodau cymdeithasol ar hinsawdd a natur. Trwy gysylltu pobl a lle ac yn enwedig elfennau diwylliannol y Parc, hyderwn y caiff y cynllun hwn ei ddeall yn llawn yng nghyd-destun Bannau Brycheiniog ei hun.

Trwy ddychmygu'r hyn allai fod, ein gobaith yw ysbrydoli'r modd i'w wireddu.

# Lleisiau O'r Dyfodol



**Maya Brychan (eni Ali)**  
Genedigaeth: Ionawr 2012  
Peckham



**Dylan Brychan**  
Genedigaeth: Mawrth 2012  
Aberhonddu



**Sian Brychan (eni Thomas)**  
Genedigaeth: Gorff, 1988  
Aberhonddu



**Ioan Brychan**  
Genedigaeth: Awst 24, 1962  
Aberhonddu  
Marwolaeth: Chwefror 8, 2042  
Caerdydd



**Dafydd Brychan**  
Genedigaeth: Gorff, 1985  
Aberhonddu



**Megan Brychan**  
Genedigaeth: Gorffennaf 2015  
Aberhonddu



**Mair Brychan (nee Jones)**  
Genedigaeth: Medi 17, 1965  
Llanymddyfri





Hinsawodd

# 2028

## Sut beth yw llwyddiant?



## Datgarboneiddio

Byddwn yn gweithredu hyd yr eithaf ar draws y parc cenedlaethol i gyflawni ein cyfran deg o nod cytundeb paris, sef cyfyngu ar godiadau tymheredd byd-eang i **1.5 gradd**



### **Trafnidiaeth gynaliadwy**

Toriad o 39% mewn allyriadau sy'n deillio o deithio y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol, trwy symud oddi wrth gerbydau petrol a disel preifat i drafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan, a cherdded a seiclo.

### **Bwyd a diod cynaliadwy**

Torri allyriadau o 22% trwy fwyta llai o fwyd a diod carbon, a chynnal diet iach.

### **Ynni cynaliadwy**

Torri allyriadau o 51% trwy ei ddefnyddio'n effeithlon, a symud oddi wrth danwydd ffosil i wresogi a phweru cartrefi, gwasanaethau a busnesau.

### **Defnydd tir cynaliadwy**

Toriad o 31% mewn allyriadau nad ydynt yn CO2 ac sy'n deillio o ddefnydd tir trwy adfer cynefinoedd, newid defnydd tir a gweithredu arferion ffermio cynaliadwy.



# Atafaelu

Bydd camau'n digwydd ar draws y parc cenedlaethol i adfer gallu'r byd natur i ddal carbon o'r atmosffer, yn unol ag argymhellion chweched gyllideb garbon y pwyllgor newid hinsawdd ar amaethyddiaeth, defnydd tir a newid defnydd tir



## Adfer cynefinoedd

A Bydd adfer cynefinoedd yn gyflymach, yn enwedig mawndiroedd, yn unol â'r Rhaglen Mawndiroedd Cenedlaethol, yn gwneud y mwyaf o storio carbon o fewn yr ecosystemau presennol.

## Newid defnydd tir

Bydd mwy o goetiroedd, amaeth-goedwigaeth a gwrychoedd, gyda'r coed cywir yn y manau cywir, yn creu dalfeydd carbon naturiol newydd.

## Ffermio cynaliadwy

Bydd newid planhigion ac arferion ffermio yn gwella gallu'r pridd i ddal carbon.



# Addasu

Bydd pobl a natur yn fwy gwydn i'r effeithiau anochel a ddaw yn sgil hinsawdd ansefydlog, yn unol â ffyniant i bawb - y cynllun addasu i newid hinsawdd ar gyfer cymru.



## Adfer natur

Bydd ecosystemau a chynefinoedd bywyd gwylt sydd wedi'u hadfer, eu hehangu a'u cysylltu, yn helpu byd natur i wrthsefyll yr heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd. Bydd lefelau dŵr daear gwarchodedig a llif digonol mewn afonydd hefyd yn hybu ecoleg iach ac yn gwella gwytnwch naturiol yn erbyn sychder. Bydd safleoedd sydd fwyaf mewn perygl o dân yn cael eu rheoli i leihau'r perygl hwnnw hefyd.

## Isadeiledd gwydn

Bydd y perygl o lifogydd yn cael ei leihau trwy adfer natur a thrwy amddiffyn adeiladau sy'n agored i niwed rhag lifogydd. Bydd effaith y codiadau tymheredd ar raddfa leol yn cael ei lliniaru wrth adfer natur, addasu'r adeiladau presennol, a newid ymddygiad. Bydd cynlluniau ar gyfer defnydd tir yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd.

Rydyn ni wedi gohirio  
pethau flwyddyn ar ôl  
blwyddyn, ac wedi codi  
targedau a dweud “O  
wel, os gwnawn ni hyn  
a hyn o fewn yr ugain  
mlynedd nesaf ...” Mae'r  
argyfwng wedi cyrraedd  
– ni allwn osgoi  
gweithredu mwyach.

---

Syr David Attenborough



# Gan ddefnyddio'r flwyddyn 2019 fel enghraifft, byddai angen ichi blannu dros 2,200 o gaeau pêl-droed yr Uwch Gynghair â choed llydanddail, a gadael iddynt dyfu am dros 100 mlynedd, i liniaru allyriadau'r Nwyon Tŷ Gwydr a grëir gan drigolion ac ymwelwyr y Parc.

Greenhouse Gas Assessment Report,  
Small World Consulting,  
Hydref 2022

Mae sylfaen gwareiddiad yn ddibynnol ar hinsawdd sefydlog ac amrywiaeth gyfoethog o fywyd. Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan yn glir ein bod yn prysur symud oddi wrth hinsawdd sy'n ddiogel i'r ddynolryw ar y Ddaear, ac mai dyma'r degawd olaf y bydd modd inni weithredu i gadw ein planed yn drigiadwy.

Eisoes yn y Parc Cenedlaethol, rydym yn profi effeithiau hinsawdd ansefydlog - o wres eithafol, sychder a phrinder dŵr, i lawiad eithafol a llifogydd. Mae hyn yn effeithio ar lesiant a bywoliaeth pobl - o ffermio i wasanaethau cyhoeddus a busnesau - ac mae hefyd yn effeithio ar natur. Hyd yn oed os cymerwn y camau mwyaf posibl i leihau allyriadau nawr, mae'n anochel y bydd newid hinsawdd yn gwaethygu. Mae angen inni gymryd camau i addasu ar gyfer effeithiau na ellir mo'u hosgoi.

Er bod hwn yn argyfwng byd-eang, rydym yn gwybod y bydd yr hyn a wnawn yma yn gwneud gwahaniaeth. Mae gweithgareddau o fewn y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n anghymesur at helyntion yr hinsawdd. Mae'r DU ymhlith yr 20 uchaf yn y byd o ran allyrru carbon fesul person, ac mae ôl troed carbon trigolion Bannau Brycheiniog 20% yn uwch na thrigolion cyfartalog y DU. Mae llawer o newidiadau y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd ac wrth wneud hynny, gallwn gynnal ansawdd bywyd uchel ac adfer yr amgylchedd naturiol yr ydym i gyd yn dibynnu arno. Rhaid gweithredu er ein mwyn ni yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## “Esiampl” wrth ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Mae rhai effeithiau newid hinsawdd yn anochel ac mae angen inni gynllunio i gefnogi pobl a byd natur wrth iddynt geisio addasu.

Mae gan y Parc Cenedlaethol botensial a chyfrifoldeb enfawr i fod yn ddalfa garbon ac mae angen i ni helpu byd natur i adfer er mwyn cyflawni'r rôl hanfodol hon. Rhaid i hyn ddigwydd mewn ffordd sy'n cadw'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol ar gyfer tyfu bywyd ac sy'n deg i ffermwyr, a rhaid iddo ddigwydd mewn ffordd sy'n gwella ein diwylliant cyfoethog a'n heconomi leol ac yn gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddod yn “esiampl” wrth ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd.

Gofynnwyd i ni ymgysylltu â chymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol, a chydag ymwelwyr, i ddatblygu atebion ar gyfer lleihau allyriadau a darparu buddion i'r bobl a'r amgylchedd.

Ein man cychwyn fu comisiynu dadansoddiad arbenigol o ôl troed carbon y Parc Cenedlaethol - yr allyriadau rydym i gyd yn eu cynhyrchu trwy losgi tanwyddau ffosil a'u defnyddio drwy'r cynnyrch a brynwn yma. At hynny, fe gawsom gyngor arbenigol ar y gostyngiadau y dylid eu gwireddu gan bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol, yn unol â Chytundeb Hinsawdd Paris. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau a chyrrff cyhoeddus eraill, busnesau, ffermwyr, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau dinasyddion, cymunedau ac unigolion i lunio a gwireddu'r camau gweithredu sydd eu hangen.

# Ceiniogi'r Coed.

Elusen gymunedol  
uchelgeisiol sy'n canolbwyntio  
ar greu coetir a gwella  
bioamrywiaeth



# Ceiniogi'r Coed.

**Keith Powell a Robert Penn**

*Cyd-sylfaenwyr, Ceiniogi'r Coed*

---

Ni yw Keith Powell, ffermwr seithfed genhedlaeth o'r Mynyddoedd Duon, a Robert Penn, awdur a darlledwr lleol, a gyda'n gilydd ni yw sylfaenwyr Ceiniogi'r Coed, elusen gymunedol sydd wedi'i lleoli yn Nwyrain Bannau Brycheiniog, gyda chenhadaeth i blannu miliwn o goed. Dim ond yn 2020 y ffurfiwyd yr elusen, ond fe dyfodd y syniad yn gyflym, a bellach mae gennym ystod eang o aelodau o'r gymuned leol yn gweithio gyda ni fel ymddiriedolwyr, cyflogeion a gwirfoddolwyr. Mae ein model yn syml ac rydyn ni'n canolbwyntio ar weithio gyda'r gymuned ffermio leol i ailbwrpasu'r ardaloedd lleiaf cynhyrchiol o dir amaethyddol ar gyfer plannu coed, bioamrywiaeth a dulliau o reoli llifogydd yn naturiol.

Fel rhan o'n hymgyrch peilot, plannwyd 135,000 o goed llydanddail brodorol ar ddarn 64-hectar o redyn dwfn ar lethrau serth Comin Bryn Arw, yn y Mynyddoedd Duon. Dyma'r coetir mwyaf a grëwyd yng Nghymru yn ystod y tymor plannu yn 2020-21; dyma hefyd oedd yr ymgyrch blannu gyntaf ar y fath raddfa ar dir comin.

Mae ein helusen yn ddibynnol iawn ar aelodau o'r gymuned leol am eu cefnogaeth fel tirlfeddianwyr a rheolwyr, a hefyd fel gwirfoddolwyr – maen nhw yn ein helpu ni i dyfu, plannu a meithrin coed, cynnal arolygon ecolegol a llawer mwy. Rydyn ni hefyd yn hynod ddiolchgar i lawer o fusnesau lleol sy'n noddi ein gweithgareddau, a sefydliadau fel Coed Cymru a Choed Cadw sy'n rhannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyda ni.

## Ein Gweledigaeth

Gobeithiwn, erbyn i'n prosiect gyrraedd ei benllanw, y byddwn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i goedwedd a bioamrywiaeth y Parc. Credwn fod llwyddiant ein prosiect yn golygu gwella'r goedwedd ar draws y rhanbarth, gan gynnwys mwy o goetiroedd llydanddail brodorol a gwrychoedd ar ffermydd, ac adfer cynefinoedd helaeth ar dir comin.

## Ein Gweithgareddau

Mae gwireddu ein huchelgais i blannu miliwn o goed o fewn y dirwedd fyw, weithredol hon yn golygu ein bod yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau ar gyfer y plannu – yn hytrach na phlannu coetiroedd llydanddail a gysylltir fel arfer â chynlluniau plannu coed, byddwn yn ailsefydlu hen wrychoedd a phlannu gwrychoedd newydd, yn hyrwyddo amaeth-goedwigaeth (lle mae cynhyrchu bwyd a choedwriaeth yn cael eu cyfuno), ac yn creu coed pori (ffriddoedd) ar dir comin. Yn y bôn, mae angen plannu coed yn y ffordd orau bosibl, yn y lle iawn ac am resymau da iawn.

# Gobaith ar y cyd yw Bannau'r Dyfodol.

Mae Bannau'r Dyfodol yn cynnig gobaith i bawb. Mae gwybod ein bod yn rhan o fudiad ehangach o fewn y rhanbarth i wella'r dirwedd er budd pobl a natur yn werth y byd i ni.



# Adfer mawndir.

Adfer mawndir sydd wedi'i ddifrodi a fydd, yn ei dro, yn lleihau colledion carbon deuocsid, yn gwella ansawdd a llif y dŵr ac yn helpu i adfer byd natur.



# Mae mawndiroedd yn ecosystemau unigryw ac yn ffurfio rhan bwysig o dirwedd ucheldir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae amodau dwrlawn yn arwain at ddadelfennu planhigion a llystyfiant yn araf ac o ganlyniad, mae'n storio llawer iawn o garbon dros filoedd o flynyddoedd. Amcangyfrifir bod 15,922 hectar o fawndir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'r rhan fwyaf ohono mewn cyflwr anffafriol. Mae carbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer ac i'r cyrsiau dŵr oherwydd y sychu a'r erydu. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn rhan o ymdrechion i warchod storffeydd carbon ledled y byd mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod wedi canfod ardaloedd sy'n ddiraddiol, ac wedi sicrhau cyllid "aml-flwyddyn" o'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn ogystal â'r Gronfa Dyrannu Strategol. Gyda chymorth Dŵr Cymru, rydym hefyd yn datblygu prosiectau adfer a all wella ansawdd dŵr yfed ym Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.

## Sam Ridge

Swyddog Prosiect Mawndiroedd

Mae'r holl waith adfer o fewn y Parc yn rhan o'r Strategaeth Adfer Mawndiroedd, sy'n ymateb i'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd dan adain Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd ar gyfer adfer mawr yng Nghymru, gan wella gwytnwch ecosystemau'r mawndiroedd. Mae dros 200 hectar wedi cael eu hadfer yn y Parc dros y deng mlynedd diwethaf. At hynny, caiff ardaloedd ehangach elwa o gael eu targedu ar gyfer gwaith adfer.



Mae gwaith adfer yn cynnwys staff yr Awdurdod gan gynnwys ecolegwyr, archeolegwyr, arbenigwyr GIS a wardeiniaid. Mae gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser yn hael i helpu gydag elfennau ymarferol megis adfer a syrfeo. Mae'r gwaith yn dibynnu ar ganiatâd y tiffeddianwyr, cefnogaeth y porwyr a chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru os yw ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

## Heriau Lluosog

Cydnabyddir yn eang bellach ein bod mewn argyfwng hinsawdd. Mae adfer mawndiroedd yn helpu i liniaru effeithiau'r her honno, gan wella diogelwch y storffeydd carbon enfawr hyn.

Mae mawndir sy'n gweithredu'n iach yn chwarae rhan bwysig wrth adfer natur. Mae ardaloedd sydd wedi'u hadfer a'u hail-wlychu yn denu pryfed gan gynnwys mursennod, a gallant gynnal amrywiaeth o adar sy'n nythu ar y ddaear gan gynnwys y gylfinir a'r cwtiad aur.

Wrth i waith adfer gynyddu, cynyddu hefyd y mae'r angen am ddealltwriaeth fanwl o'n mawndiroedd. Mae gweithio ar y cyd yn elfen allweddol a cheir cefnogaeth gan nifer cynyddol o brifysgolion. Mae eu gwaith yn gwella gwybodaeth am yr elfennau allweddol gan gynnwys deall cyflwr a swyddogaeth y mawndir a'r modd y caiff carbon ei golli o fewn y Parc.

Mae tanau gwyllt afreolus ar gynydd ar draws y byd. O fewn y Parc ei hun, mae tanau gwyllt a llosgi bwriadol yn bygwth ardaloedd sensitif a gwarchoddedig gan gynnwys mawndiroedd. Mae mawndiroedd sy'n sychu mewn mwy o berygl o gael eu llosgi'n ddifrifol ac o ryddhau storffeydd enfawr o garbon. Nod y gwaith adfer yw ail-wlychu'r mawr, gan wella ei wytnwch yn erbyn tanau.

## Ein Nod

yw creu mawndiroedd iach ar draws y Parc, a gweithredu fel dylanwad sefydlog a chadarnhaol wrth reoli carbon, adfer natur, rheoli tanau a diogelu ansawdd y dŵr o fewn ein hucheldiroedd. Wrth gyflawni ein nodau, byddwn yn cynyddu'r dasg o adfer y mawndiroedd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu, gan weithio gyda thirfeddianwyr ac asiantaethau eraill i adfer yr holl fawndiroedd a ddiraddiwyd o fewn y Parc.

# Y Bannau.

Mae Y Bannau yn darparu "fframwaith ar gyfer dealltwriaeth" sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol y Parc a'r prosesau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae cyflwr y mawndiroedd yn effeithio arnynt i gyd i ryw raddau. Rwy'i hefyd yn gadarnhaol ynghylch y cyfleoedd y mae dulliau gweithredu Y Bannau yn eu cynnig o ran gwella ein dealltwriaeth o swyddogaeth yr ecosystem ar raddfa tirwedd gan fod mawndiroedd yn chwarae rhan mor bwysig ynddynt..





# Ein Cyfraniadau

Mae Newid Hinsawdd yn fater byd-eang sy'n cael effaith leol ac mae angen gweithredu ar raddfa leol i'w atal a pharatoi ar ei gyfer.

Ein rôl yw dod â'r dystiolaeth a'r data ynghyd er mwyn i bob un ohonom ddeall yn well y modd y mae ein gweithredoedd, ein ffyrdd o fyw a'n hymddygiadau o fewn y Parc Cenedlaethol yn achosi newid yn yr hinsawdd. At hynny, gall bob un ohonom dargedu ein hymdrechion i leihau'r defnydd o danwydd ffosil, atafaelu carbon, neu fabwysiadu technolegau newydd drwy'r dulliau mwyaf effeithiol yn y lleoedd mwyaf effeithiol.

Ein rôl hefyd yw ysgogi gweithrediadau, gan ddod â sefydliadau partner, trigolion ac ymwelwyr at ei gilydd i adeiladu dyfodol carbon-isel a chynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol.

1. Byddwn yn gosod datgarboneiddio wrth wraidd holl weithgareddau ein sefydliad - gan gynnwys y rheolaeth o'r tir a'r adeiladau, trafnidiaeth, ynni, caffael, polisïau a gweithdrefnau, yn unol â nod y Sector Cyhoeddus i gyflawni Sero Net yng Nghymru erbyn 2030. Byddwn yn cefnogi ein staff a'n haelodau i fabwysiadu arferion carbon-isel yn y gweithle a'r cartref.
2. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr ac yn defnyddio data i ddeall y modd y disgwylir i newid hinsawdd effeithio ar ddyfodol y Parc Cenedlaethol o ran ei amgylchedd, pobl, lleoedd a threftadaeth hanesyddol, fel y gallwn ni ddod at ein gilydd a pharatoi i fod yn gydnerth.
3. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr hinsawdd, partneriaid a chymunedau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Cyflawni Sero Net, Atafaelu Carbon ac Addasu Hinsawdd ar gyfer y Parc Cenedlaethol, dan gyfarwyddyd yr arferion gorau yn y maes gan gynnwys menter Ras i Sero y Cenhedloedd Unedig.
4. Byddwn yn cefnogi ac yn adeiladu partneriaethau gyda busnesau, cymunedau, trigolion ac ymwelwyr i ddatblygu a chyflawni prosiectau i weithredu ar newid hinsawdd gan gynnwys mentrau'n ymwneud â thrafnidiaeth leol gynaliadwy, ynni, dal carbon a datrysiadau bwyd. At hynny, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gael atebion sy'n cynhyrchu incwm lleol, yn darparu sgiliau, hyfforddiant a swyddi, ac yn gyrru syniadau a thechnolegau newydd yn eu blaen.
5. Byddwn yn rhannu tystiolaeth a dadansoddiadau gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i hysbysu'r rhai sy'n dymuno gweithredu ar newid hinsawdd ac annog a chefnogi'r rhai sy'n ansicr o'r ffordd y gallant wneud gwahaniaeth

# Llythyr oddi wrth Siân Brychan at ei merch Megan

20 Chwefror 2042

I fy merch Megan,

gennym unrhyw ddewis ond addasu iddo fe. Dyna oedd fy agwedd i o leiaf.

Ti a Dylan oedd ein blaenoriaeth bob amser. Tra oeddech chi'ch dau yn chwarae o gwmpas fy sgert ac yn ansicr o'r cartref newydd, fe geisiodd dy dad a minnau'n galed i fynd i'r afael â'r fferm, o'r gweithgareddau dydd-i-ddydd i'r pethau sylfaenol a oedd yn mynd yn fwyfwy tynn.

Fel o'r blaen, fe wnaethon ni'r hyn yr oedden ni'n ei wybod, gan ganolbwyntio ar ein cornel fach ni, er mwyn cael y fferm i weithio ar ein cyfer ni – a chi. Pan aeth pethau o ddrwg i waeth yng nghanol yr 20au, prin y gallen ni fforddio i gadw'r goleuadau ymlaen, heb sôn am brynu porthiant neu fwyd.

Yn union fel y llywodraeth, fe ddechreuon ni fyw ar lai a chulhau ein ffocws hyd yn oed ymhellach. Roedden ni hyd yn oed yn fwy penderfynol a didostur i wneud yr hyn oedd ei angen i ofalu am ein hunain a'n darn o dir.

Wrth gwrs erbyn hyn, fel pawb arall, rydyn ni'n edrych yn ôl ar ddiwedd yr 20au gyda chywilydd. Ond dim ond hyn a hyn o straen y gall teulu ei dioddef ar unrhyw un adeg. Ein greddf bryd hynny oedd dal ein tir a goroesi ar lai a llai – a thrwy gau ein llygaid ac adeiladu rhwystrau mewn ymdrech i amddiffyn yr hyn oedd yn annwyl i ni, fe fethon ni'n llwyr i fynd i'r afael â gwraidd y broblem.

Mae'r camgymeriadau a wnaed a'r cyfleoedd a gollwyd yn ymddangos yn glir inni heddiw ond wrth fyw drwy'r cyfnod, roedd pethau'n dra gwahanol. Dyma wirionedd a enillwyd trwy fawr ymdrech.

Wrth gwrs, ers i ni droi pethau rownd yn y blynyddoedd dilynol, a sylweddoli ein bod ni bellach yn gweithio mewn cytgord â'n cymdogion a'n tir, rydyn ni wedi dod yn gymuned sy'n edrych allan yn ogystal ag i mewn. Rwy'ti'n ymgorffori hyn i gyd fy annwyl ferch, ac ni allwn i fod yn fwy balch ohonot

ti: rwy'ti'n helpu'r rhai llai ffodus i ddod o hyd i noddfa yma, ac yn gyson mi rwy'ti'n gofyn (ac yn gweiddi!) am yr hyn sy'n deg ac yn gyfiawn. Rwy'n gwybod nad yw'n hawdd; mae'n rhaid dy fod ti wedi blino ar ôl yr holl frwydro. Ond bydd yn falch o dy hun ac o amcanion a gweithredoedd ein cymuned - maen nhw'n cynrychioli'r gorau ohonom ac yn ein sbarduno i fwrw ymlaen.

Efallai bod fy nghyfraniadau dros y degawd diwethaf yn ymddangos braidd yn ddof a hen ffasiwn erbyn hyn. Mae fy mynd ond yn ymestyn dros y brynaci mewn i'r dref, ond mewn rhai ffyrdd mae fy mlaenoriaethau yn union yr un fath ag erioed, sef meithrin a diogelu'r hyn sydd gennym. Ond bellach, nid ydyn ni ar ein pennau ein hunain: mae gennym gymorth ac arweiniad cyson i dyfu a chysylltu, er mwyn bod yn fwy, yn well ac yn fwy cydgyssylltiedig. Efallai nad yw ein ffermio atgynhyrchiol a danfoniadau lleol yn ymddangos mor radical i ti, na'm "clecs" wythnosol gyda'r grŵp ynni cymunedol, ond mae'n rhywbeth y gallaf ddod i ben ag e. Y cyfan rwy'n ei wybod yw, o gymharu â'r dyddiau tywyll hynny a'r camau gwag a gymerwyd, mae'n teimlo fel gwyrth!

Lluniwyd ein hysbryd gan heriau ein hieuenctid; fy ymateb i oedd meithrin ac amddiffyn, tra oeddet ti yn estyn allan ac yn cysylltu. Mae angen ac mae lle ar gyfer y ddau. Rwy'n gobeithio y gelli di ddysgu bod yn falch o'r hyn sydd gennym ni yma - ein cartref wedi'i droi yn wyrdd ac yn gydnerth a'n cymuned wedi'i hadnewyddu. Dylet ei weld nid yn unig fel briaent etifeddwyd ond hefyd fel ffrwyth llafur nifer o ddwylo dros nifer o flynyddoedd. Ac mi wnaiff innau fy ngorau glas i edrych allan a thu hwnt, i sylweddoli bod ein bendith yn un i'w rhannu.

Felly, a oeddwn i'n "hunanol" ac yn "rhan o'r broblem"? Mae'n debyg yr oeddwn i, ond dim ond i'r un graddau â phawb arall ar y pryd. Oeddwn i'n "llwfr"? Dwi ddim yn meddwl, na. Fe wnes i'r hyn oeddwn i'n meddwl y gallwn i ac y dylwn i wneud, ac efallai yr oedd hynny'n ddewr hyd yn oed. Ond mi roedd fy safbwynt i'n gamgyfeiriol ac yn gyfeiliornus. Ac am hynny, wrth gwrs, byddaf bob amser yn edifar. Rwy'n gobeithio o leiaf y gelli di fy neall i ychydig yn well yn awr, fy mechan. Felly, beth am i ni siarad eto? Bydda i'n ceisio gwrandao'n well a bod yn agored i newid. Wedi'r cyfan, newid yw'r unig beth sy'n gyson yn ein bywydau bellach. Ond rwy'n siŵr y gall y ddwy ohonon ni hwylio drwyddi!

Â'm holl galon,  
Dy fam falch a styfnig,  
**Siân Brychan**



---

## Gôl

Adnoddau dŵr ac amgylcheddau dŵr  
glân, diogel, gwydn, digonol erbyn 2030

# Dŵr

# 2028

## Sut beth yw llwyddiant?



## Dalgylchoedd Gwydn

Cefnogi'r dasg o ddarparu adnoddau dŵr glân a chynaliadwy ar gyfer bannau brycheiniog a thu hwnt



### Lefelau Maethol

O fewn Dalgylchoedd Wysg a Gwy, bydd lefelau maethynnau o fewn lefelau diogel ar gyfer gwytnwch ecolegol.

### Llif Dŵr

Mae lefelau dŵr ein hafonydd, ffynonellau daear a phriddoedd yn ddigonol ar gyfer iechyd ecolegol a dynol.

### Ecosystemau Wedi'u Hadfer

Dynodwyd Afonydd Gwy, Tywi ac Wysg yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn sgil eu nodweddion ecolegol, ac mae'r nodweddion hynny wedi'u hadfer yn llawn ac mewn iechyd ecolegol da.

### Llifogydd

Llwyddwyd i leihau'r effeithiau ar drefi sy'n agored i lifogydd ar hyd Afonydd Wysg a Gwy yn ystod digwyddiadau tebyg i'r rhai a gafwyd yn 2020.



# Amgylcheddau Dŵr O Ansawdd Uchel

Sicrhau y gall pawb sy'n byw ac yn ymweld â bannau brycheiniog fanteisio ar y buddion iechyd a llesiant a ddaw yn sgil amgylcheddau dŵr o ansawdd uchel a natur doreithiog.



## **Ansawdd Dŵr**

Bydd y rhan fwyaf o lygryddion fel metelau trwm, microblastigau a chynhyrchion fferyllol yn cael eu dileu erbyn 2030 ac mae llwybr gweithredu ar gyfer eu dileu yn llwyr yn hysbys.

## **Dyfroedd Ymdrochi**

Bydd ardaloedd o'n hamgylchedd dŵr wedi'u dyrannu fel rhai o safon dŵr ymdrochi, a bydd cod ymddygiad ar gyfer dŵr nofio agored wedi'i fabwysiadu ar draws Bannau Brycheiniog.

## **Caru Eich Afonydd**

Bydd gan drigolion ac ymwelwyr berthynas newydd â'n hamgylcheddau dŵr, yn enwedig afonydd y Parc Cenedlaethol. Cânt eu dathlu am eu gwerth i ddiwylliant, hamdden a'r amgylchedd

“

Mae holl ddŵr y Ddaear yn deillio o'r un ffynhonnell, felly rydyn ni i gyd yn tynnu dŵr o'r un ffynnon fyd-eang. Mae pob ton ymhob cefnfor, pob llyn, nant ac afon danddaearol, pob diferyn glaw a phlun eira a phob tamaid o iâ mewn rhewlifoedd a chapanau rhew pegynol, yn rhan o'r ffynnon fyd-eang hon.

Felly p'un a ydych chi'n troi tap ymlaen yng Ngogledd America, yn tynnu dŵr o ffynnon yng Nghenia neu'n ymdrochi mewn afon yn India, yr un dŵr yw'r cyfan. Ac oherwydd bod y cyfan yn gysylltiedig, bydd y ffordd yr ydym yn trin y dŵr yn y ffynnon yn effeithio ar bob rhywogaeth ar y blaned, gan gynnwys ni, yn awr ac am flynyddoedd i ddod.

---

**Rochelle Strauss**

One Well: The Story of Water on Earth

# Dŵr yw'r sylwedd mwyaf sylfaenol sy'n gysylltiedig ag iechyd y ddynoliaeth a'r blaned. Dyma'r elfen sy'n cynnal holl blanhigion ac anifeiliaid y Ddaear yn ogystal â'n systemau allweddol, megis cynhyrchiad bwyd, diwydiant a glanweithdra.

Mae dŵr fel adnodd yn cael ei ddefnyddio ar gyfradd anghynaliadwy. Amcangyfrifir erbyn 2050 bod tua hanner biliwn o bobl yn debygol o ddiodef straen dŵr. Mae hynny yn ein cynnwys ni yma ym Mannau Brycheiniog ynghyd â'r dalgylchoedd ehangach a gyflenwir gan ein hadnoddau dŵr. Mae 50% o ddŵr a dynnir gan Ddŵr Cymru yn ddyddiol yn dod oddi mewn i'n ffiniau ni.

Yn 2021, cyhoeddodd Canolfan Gwytnwch Stockholm ddata newydd, yn edrych ar "ddŵr gwyrdd", sef y dŵr sydd wedi'i wreiddio yn y pridd a'r atmosffer ac sy'n hanfodol i ddiogelu gweithrediad y systemau planedol. Canfu eu hasesiad ein bod fel hil ddynol yn defnyddio'r adnodd hwn ar draws y byd ar gyfradd ac ar raddfa sy'n anghynaliadwy, ac a allai fygwth sefydlogrwydd ein planed, neu ein gallu i ecsbloetio'r adnodd ar y lefelau presennol. Roeddent yn annog inni gynnal ymchwiliad newydd i asesu'r bygythiad a achosir gan ein defnydd o systemau dŵr, ac i ganfod ffyrdd o liniaru ac addasu i'r newid o ran argaeledd a hinsawdd.

Nid maint y dŵr yn unig sydd dan fygythiad, yn anffodus mae data byd-eang a lleol yn dangos bod ein hamgylcheddau dŵr yn cael eu niweidio gan effeithiau dynol. Mae ein gweithgareddau'n ychwanegu gormod o faetholion, cemegau, metelau trwm a phlastigau i'r systemau hanfodol hyn. Yn fyd-eang, mae 35% o'n gwlyptiroedd wedi diflannu er 1970, gan arwain at ostyngiad mewn 83% o rywogaethau dŵr croyw.



## Un Ffynnon

Yma yn y Parc Cenedlaethol, fe welir yr un bygythiadau. Afonydd a gwlyptiroedd yw nodweddion mwyaf ecolegol bwysig y Parc Cenedlaethol. Maent yn rhan bwysig o'n hamgylchedd hanesyddol a diwylliannol, gan ddarparu cryn fanteision o ran iechyd a llesiant. Fodd bynnag, nhw hefyd yw'r amgylcheddau a'r adnoddau sydd o dan y bygythiad mwyaf.

Mae ystod o effeithiau cyfansawdd wedi cyrraedd y pwynt lle na all prosesau hunan-reoleiddio naturiol sy'n hanfodol i ansawdd a maint yr amgylcheddau dŵr, weithredu'n iawn mwyach. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â lefelau ffosffad sydd mor arwyddocaol ar adeg ysgrifennu hyn, fel bod angen newid sylfaenol mewn arferion rheoli tir a thrin dŵr.

Uchelgais y Cynllun ar gyfer ansawdd, maint ac amgylcheddau dŵr yw sicrhau bod yr adnodd hanfodol hwn yn cael ei warchod er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn gweithio ar draws sefydliadau, cyrff amgylcheddol anllywodraethol, grwpiau dinasyddion a chyrff statudol i sicrhau y gallwn warchod yr adnodd hwn ar gyfer y dyfodol.



# Grŵp Dŵr y Bannau.

Partneriaeth rhwng Dŵr Cymru a Grŵp Dŵr y Bannau, sy'n treialu dulliau arloesol o ymdrin ag arferion amaethyddol er mwyn gwella ansawdd y dŵr crai ac effeithlonrwydd y ffermydd.



# Rheolwr Prosiect, Rhaglen Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog Dŵr Cymru

**Nigel Elgar**

*Rheolwr Prosiect*



Mae Grŵp Dŵr y Bannau yn Gwmni Buddiannau Cymunedol sy'n cynnwys clwstwr o chwe ffermwr, a gefnogir gan Ddŵr Cymru. Mae'r grŵp yn cael ei ysbrydoli gan y dirwedd ddilychwin a geir ym mynyddoedd uchel y Catskills, lle mae eu dull o reoli dalgylchoedd ar sail natur wedi ennill clod rhyngwladol. Gyda'i gilydd, mae'r grŵp wedi datblygu dull sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall amaeth ei wneud i warchod yr amgylchedd dŵr.

Mae'r dull hwn yn grymuso ffermwyr i ddarparu atebion i'r peryglon sy'n wynebu ansawdd dŵr ac sydd hefyd yn dod â buddion i'w busnesau fferm. Yn y bôn, mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag adeiladu ymddiriedaeth rhyngom ni fel corff statudol a'r ffermwyr sy'n gweithio ar lawr gwlad, fel y gallwn ni rannu amcanion a gweithrediadau. Mae deall a pharchu safbwyntiau ein gilydd yn allweddol i hyn.

## Ffermio Sy'n Diogelu Ansawdd Dŵr

Mae'r prosiect hwn yn ceisio deall y modd y gallwn ni ymgysylltu'n gynaliadwy â busnesau fferm fel rhan o ddull cyfannol ar gyfer rheoli ansawdd dŵr. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i ganfod yr ymyriadau syml hynny y gellir eu hatgynhyrchu i fod o fudd i ansawdd y dŵr ac effeithlonrwydd y busnesau fferm, e.e. gwneud y defnydd mwyaf posibl o wrtaith a brynir i mewn, a gweithredu mesurau syml i atal erydiad pridd a dŵr ffo.

Drwy nodi atebion lle mae pawb ar eu hennill, rydyn ni'n gobeithio datblygu model y gellir ei fabwysiadu gan wahanol dirfeddianwyr a ffermwyr a'i roi ar waith yn hawdd mewn mannau eraill. Bydd hyn yn lleihau risgiau yn yr amgylchedd dŵr crai yn sylweddol, ac ar yr un pryd yn cefnogi sector amaethyddol ffyniannus.

Mae gan lawer o'r ymyriadau fferm sy'n cael eu treialu'r potensial i gyflawni gwelliannau i'n hamgylchedd naturiol trwy daclo'r heriau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Gyda chefnogaeth aelodau Grŵp Dŵr y Bannau a Dŵr Cymru, hoffem i'r Parc Cenedlaethol gyfrannu at greu a hwyluso clystyrau o ffermwyr eraill ar hyd a lled ei diriogaeth, a'u cefnogi'n frwd i atgynhyrchu'r dull arloesol hwn.

## Yr Hyn Y Mae'r Bannau Yn Ei Olygu I Ni

Dylai sector ffermio ffyniannus a chytbwys fod yn floc craidd i adeiladu'r Bannau.

Mae gan ffermio ran allweddol i'w chwarae wrth gynnal y tirweddau hardd a'r amgylcheddau naturiol, gan helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn ogystal â chefnogi busnesau lleol, cymunedau a diwylliant Cymru. Bydd technegau ffermio cynaliadwy hefyd yn cyfrannu at ddiogelu ffynonellau dŵr yfed o'r ardal strategol bwysig hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Credwn fod newid parhaol yn bosibl, ond bydd angen newid meddylfryd ar draws cyrff cyhoeddus a rheolwyr tir; hyderwn y bydd APCBB yn ymuno â ni ar y daith hon.



# Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol.

Gweithio mewn partneriaeth  
i reoli Rhywogaethau Estron  
Goresgynol o fewn y Parc  
Cenedlaethol.

# Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol.

## Bev Lewis

Cydgysylltydd Rhywogaethau Estron Goresgynol  
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

---

Rydyn ni'n gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, tîrfeddianwyr, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd i fynd i'r afael â phroblemau a gwyd pan fo rhywogaethau anfrodorol yn ymledu o fewn y Parc Cenedlaethol. Gall rhywogaethau estron fod yn niweidiol iawn i'n bywyd gwyllt a'n cynefinoedd brodorol wrth ymledu; trwy gydweithio i gael gwared ar y goresgynwyr hyn, gallwn helpu i adfer ecosystemau ar raddfa ehangach.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar rywogaethau megis canclwm Japan, ffromlys chwarennog, rhododendron a llawryf ceirios. Rydyn ni wedi gweithio'n bennaf yn nalgylch Afon Wysg gan mai dyna'r lle y mae'r mwyafrif o'r rhywogaethau goresgynol wedi'u cofnodi, ond rydyn ni hefyd yn gweithio ar rywogaethau eraill o fewn y Parc Cenedlaethol.

## Problem Sy'n Tyfu

Rhywogaethau Estron Goresgynol yw un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r prif achos sef colli a darnio cynefinoedd, maent yn llai ymwybodol o effaith y mae rhywogaethau goresgynol yn ei chael ar fioamrywiaeth, pobl, yr economi ac iechyd dynol.

Mae yna eisoes nifer fawr o rywogaethau estron ym Mhrydain ac mae'r nifer sy'n ymsefydlu yn debygol o gynyddu oherwydd y twf ym masnach a thwristiaeth fyd-eang. Gall newid hinsawdd hefyd droi rhywogaethau sy'n ecologyfeillgar ym Mhrydain ar hyn o bryd i fod yn rhai goresgynol.

## Sut Beth Fyddai Llwyddiant I'r Prosiect?

Hoffem weld pobl yn fwy ymwybodol o'r bygythiad i fioamrywiaeth gan rywogaethau estron goresgynol ac o ganlyniad i hynny, yn gwella'u harferion bioddiogelwch i rwystro goresgyniadau newydd.

Byddai hynny'n golygu bod unrhyw rywogaethau goresgynol newydd yn cael eu sbotio, eu cofnodi a'u rheoli'n gynnar cyn iddynt gael cyfle i ddod yn broblemau hirdymor. Byddai hefyd yn golygu bod rhywogaethau goresgynol sy'n broblemau ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n weithredol.

## Ein Gweithredoedd

"Mae'n well, yn rhatach ac yn fwy effeithlon i rwystro'r broblem na'i gwella" – rydym am i bobl fod yn wirioneddol ymwybodol o rywogaethau goresgynol, cymryd rhagofalon bioddiogelwch a'n helpu i gofnodi rhywogaethau goresgynol newydd yn ogystal â'r rhai presennol. Byddwn yn ceisio gweithredu cynllun ar gyfer rhai o'r rhywogaethau goresgynol sydd eisoes wedi sefydlu'u hunain, fel y gallwn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy a chydgysylltiedig.

# Y Bannau.

Ni allwn ni wneud y gwaith hwn ar ein pennau ein hunain; mae'n rhaid ei wneud gyda phartneriaid mewn ffordd gydgysylltiedig gydag ysgogiad hirdymor y tu cefn i'r prosiect. Y Bannau sy'n darparu'r fframwaith troswaol ac yn ein helpu ni i uno'r holl ddotiau at ei gilydd.





# Ein Cyfraniadau

Dŵr yw ffynhonnell bywyd - dyma yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr a'r mwyaf bregus.

Mae cymunedau Bannau Brycheiniog wedi rhyngweithio â'n systemau dŵr a'r "dirwedd las" drwy gydol hanes.

Mae pobl Cymru a thu hwnt yn dibynnu ar ein systemau dŵr ar gyfer eu hanghenion corfforol, meddyliol ac adloniadol - mae dŵr yn ein cysylltu.

Ein rôl ni yw arwain ffocws newydd ar bwysigrwydd dŵr o fewn y Parc Cenedlaethol, er mwyn i'r dasg o ddiogelu, atgyweirio ac adfer ein systemau dŵr fod wrth galon pob dim a wnawn.

1. Byddwn yn blaenoriaethu dŵr a'n systemau dŵr yn ein holl weithgareddau ac yn gweithio gyda'n staff a'n rhanddeiliaid i rannu pwysigrwydd y genhadaeth ddŵr â phawb.
2. Byddwn yn gosod esiampl dda drwy sefydlu Partneriaeth Dalgylch Afon Wysg i arwain adferiad ecolegol llawn yno o ran rheoli ansawdd dŵr, maetholion, diogeledd dŵr, amwynderau, bywyd gwylt a gwasanaethau ecosystem.
3. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i warchod a gwella ein holl systemau dŵr yn y Parc Cenedlaethol - afonydd, llynnoedd, camlesi, mawndiroedd, corydd a gwlyptiroedd - ar gyfer eu rôl mewn adfer natur, newid hinsawdd, amddiffyn rhag llifogydd, darparu dŵr a chefnogi llesiant ein cymunedau a'n hymwelwyr.
4. Byddwn yn cefnogi cymunedau, cartrefi, busnesau ac ymwelwyr i ailgysylltu â'r "dirwedd las" trwy straeon hanesyddol, diwylliant a daeareg. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector amaeth, ac yn ei gefnogi wrth ymchwilio i ddulliau ac arferion ar gyfer rheoli'r tir sy'n cyfuno'r dasg o gynhyrchu bwyd ac adfer yr ecoleg, a hynny er budd pawb.
5. Byddwn yn rhannu'r dystiolaeth a'r data fel y gallwn i gyd ddeall yr effaith y mae ein bywydau a'n hymddygiad yn ei chael ar ein dŵr, a'r modd y gallwn ddiogelu ein cyrsiau dŵr a sicrhau y gellir eu mwynhau am flynyddoedd i ddyfod.

# Detholiad o araith a draddodwyd er cof am Ioan Brychan

**Chwefror 2042**  
**Gan Dafydd Brychan**

Roedd fy nhad, Ioan Brychan, gŵr Mair, tad-cu annwyl Dylan a Megan, yn fardd – ymhlith llawer o bethau eraill. Yn anffodus, does gen i mo'r gallu hwnnw. Pe bai wedi gallu ysgrifennu ei araith ei hun, byddai wedi peri i chi chwerthin a chrio bob yn ail. Byddai hi wedi bod yn deyrnged deg, rwy'n siŵr.

Gwaetha'r modd, ni wnes i etifeddu ei ddawn eiriol, felly ni fydd fy araith ffarwel mor delynegol ag y mae'n ei haeddu. Ond fe wnafe fy ngorau glas i ddod o hyd i rai o'r geiriau sydd eu hangen arnom.

Pan dwi'n cau fy llygaid ac yn meddwl am dad, mae'n eistedd wrth ymyl y dŵr. Rhed yr afon ar hyd ymyl deheuol y fferm ac roedd ganddo gysylltiad dwfn â hi. Er mwyn deall y dyn, rhaid i chi hefyd ddeall yr afon.

Ym 1995, pan oeddwn i'n 10 oed, dysgodd Dad fi i bysgota. Wrth edrych yn ôl, rwy'n gweld nawr faint yn fwy a ddysgodd i mi ger y glannau hynny.

Bryd hynny, roedd yr afon yn llawn o eogiaid, gwangod, brithyllod, a lampreiod ifanc yn sleifio. Roedden ni bob amser yn taflu'r hyn a ddalon ni yn ôl, "ar gyfer swper y dyfrgi". Credai Dad fod afon iach yn drysor i'w rannu a bod natur "yn donc i'n sioncio ni". Mae'r geiriau hynny wedi aros gyda mi, ac fel yr afon, ar ei orau, roedd yn ddyn llawn bywyd, llawn cân.

Ond hefyd fel yr afon, nid oedd yr ysbryd hwnnw bob amser yn llifeirio. Yn ystod sychder 2028, gostyngodd y dŵr i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed, yn is nag y gallai unrhyw un ei gofio. Roedd yr afon yn drewi, methodd y cynhaeaf a bu'n rhaid dogni'r dŵr. Byddai'n anodd dychmygu atgof mwy poenus. Fel y mwyafrif o bobl, bu bron iddo dorri i lawr.

Er hynny i gyd, tra oedd eraill yn ymladd dros ffynhonnau lleol, roedd dad yn barod i rannu ein ffynnon ni â chymdogion. Roedd mam yn meddwl ei fod e'n wallgof. Efallai yr oedd e. Ond enillodd lawer iawn o barch yr haf hwnnw, a phan gysylltodd yn ddiweddarach â'r un cymdogion gyda chynlluniau i daclo'r sychder a'r llifogydd ar y cyd trwy arafu'r llif, dal y dŵr croyw a gwella'r pridd – fe wrandawodd pawb. Dwi hyd yn oed yn clywed bod Bryn yn bwriadu ailenwi ei bwll storio er anrhydedd i dad! Byddai'r hen ramantydd wedi gwirioni ar hynny, rwy'n siŵr.

Roedd Dad yn deall nad oes unrhyw weithred, da neu ddrwg, yn bodoli ar ei ben ei hun. Efallai y byddai'n llifo o amgylch y tro, yn mynd o'r golwg ac o'r meddwl, ond byddai rhywun, rhywle i lawr yr afon, yn teimlo'r effeithiau. "Ddylai neb arall fyth orfod tacluso dy lanast di" sgrechiodd unwaith ar draws y cae, ar ôl fy nal i'n taflu can oddi ar y bont. Wnes i mo hynny eto.

Bu fyw ei fywyd yn driw i'r syniad hwn, y cyfrifoldeb hwn.

Ond, wrth gwrs, er ei fod yn amddiffyn ei fangre ei hun, ni allai reoli'r hyn a ddigwyddai i fyny'r afon, nac ar ôl i'r llif ei basio. Roedd yr afon ar ei gliniau ar ddechrau'r ail ddegawd gan droi o wyrdd i frown. Ar ôl degawd arall o gamdriniaeth, ar 23 Mai 2030, fe ddatganodd ecolegydd a oedd yn ymweld yn swyddogol â'r afon, ei bod wedi marw. A chyda thranc yr afon, bu farw rhan ohono yntau. Drannoeth, fe allwn ei weld o'r tŷ yn eistedd yn dawel am oriau, yn cerfio neges ar garreg fawr ger y lan. Wedi iddo orffen, fe'i rholiodd i'r afon ac ni siaradodd amdano fyth wedyn.

Ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, mae gennym ni afon eto. A dweud y gwir, yr wythnos cyn i Dad farw, roedden ni'n eistedd ger yr afon ac yn gwyllo siglen lwyd yn pigo trychfilod oddi ar wyneb y dŵr. Dywedodd mai dyma'r tro cyntaf iddo ei weld un yno ers 15 mlynedd. Roedd yn teimlo fel gwyrth fach. Ond y gwir yw ei fod yn ffrwyth llafur nifer o ddwylo a nifer o feddyliau ystyfnig (llawer ohonyn nhw yn yr ystafell hon), yn cydweithio o dan yr arweiniad cywir i glirio'r llanast a grëwyd gan eraill – llanast nad oedden ni'n barod i'w oddef mwyach.

Y bore ar ôl i dad farw, fe droediais i mewn i'r afon yn yr union fan lle'r oedd wedi rholio'i garreg fawr i'r dŵr. Ar ôl 20 munud o chwilio, fe ddes i o hyd iddo. Rwyf am orffen trwy ddarllen y geiriau a gerfiodd ar garreg.

“Mater o galon ddynol yw gofalu am afonydd, nid o afonydd eu hun.”

Efallai bod dad wedi mynd, ond mae ein hafon yn fyw unwaith eto. Ni allaf feddwl am ffordd well o anrhydeddu'r dyn hardd a hael hwn na pharhau i ofalu am yr afon fel y gwnaeth yntau. Diolch am wrando, ac am eich holl gefnogaeth dros y blynyddoedd.



---

**Gôl**

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
sy'n Natur-Bositif erbyn 2030.

Two eagles are shown in flight against a blurred background of trees. The eagle in the foreground is in profile, facing left, with its wings spread wide. Its feathers are a mix of brown and white. The second eagle is positioned slightly behind and above the first, also in flight. The overall scene is dynamic and captures the power of these birds of prey.

# Natur

# 2028

## Sut beth yw llwyddiant?



## Adfer Cynefinoedd

Bydd pob un o brif gynefinoedd y parc cenedlaethol, gangynnwys glaswelltir, coetir brodorol, rhostir yr ucheldir, a mawndir, ar y ffordd i adferiad.



### **Dirywiad wedi ei atal**

Mae colli cynefin trwy newid defnydd tir yn cael ei atal, mae gor-ecsbloetio yn cael ei gwtogi, ac mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu rheoli.

### **Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn cael eu cadw**

Mae holl nodweddion SoDdGA mewn cyflwr ffafriol.

### **Cynefin diraddiedig wedi'i adfer a natur wedi dychwelyd**

Cynnydd ym maint y cynefin sydd mewn cyflwr ecolegol ffafriol

### **Natur wedi dychwelyd**

Cynnydd yn arwynebedd pob cynefin trwy adfer tir oedd wedi'i drawsnewid a'i droi'n gynefin naturiol.





# Cadwraeth Rhywogaethau

Mae rhywogaethau blaenllaw sy'n nodweddu'r parc cenedlaethol neu gynefinoedd penodol yn cynyddu mewn nifer neu ehangder



## **Lleihau bygythiadau**

Mae bygythiadau critigol i rywogaethau ar drai, gan gynnwys rheolaeth niweidiol o dir a dŵr a'r goresgyniad gan rywogaethau estron.

## **Niferoedd Wedi Cynyddu**

Mae nifer pob rhywogaeth flaenllaw yn cynyddu.

## **Ystod wedi cynyddu**

Mae gwasgariad pob rhywogaeth flaenllaw yn cynyddu.



# Rheoli'r Ecosystem

Mae swyddogaethau a gwasanaethau'r ecosystem a gynhrychir gan y parc cenedlaethol yn cael eu gwella



## **Mae'r gwytnwch yn well**

Mae cysylltedd ar gynnydd o fewn a rhwng yr ecosystemau fel y gall natur addasu'n well i newid hinsawdd.

## **Mae'r gwasanaethau ecosystem yn cael eu cefnogi**

Mae holl ecosystemau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n ddwys, yn cael eu rheoli i wneud y gorau o ystod o wasanaethau'r ecosystem, gan gynnwys bwyd, dŵr, hinsawdd ac amwynder.

## **Adsefydlu ecosystemau**

Mae risgiau ecosystem, gan gynnwys erydiad pridd, llygredd, llifogydd a thân, yn cael eu lliniaru i gefnogi natur a chymdeithas fel y gallant addasu i'r newid hinsawdd.

“

Beth os awn ni y tu hwnt i gyfyngu ar y difrod? Beth os yw ein gweithgareddau economaidd nid yn unig yn lleihau effeithiau, ond hefyd yn gwella ecosystemau?

Mae agwedd gadarnhaol at natur yn cyfoethogi bioamrywiaeth, yn storio carbon, yn puro'r dŵr ac yn lleihau'r risg o bandemig. Mae agwedd gadarnhaol at natur yn gwella gwytnwch ein planed, ein cymdeithasau a'n heconomïau. Johan Rockström

### Johan Rockström

Cyfarwyddwr, Sefydliad Potsdam ar gyfer Ymchwil i Effaith Hinsawdd

Tynnodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2019, sylw at y ffaith fod Cymru wedi colli 73 o rywogaethau ers y 1970au gyda 666 arall mewn perygl o ddiflannu. Canfu'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc yn 2020 fod wyth rhywogaeth ar y "rhestr goch" wedi prnhau dros 50% yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan gynnwys y wennol ddu werdd, y llinos werdd, y siglen lwyd, melyn yr eithin, y gylfinir, tinwen y garn a'r ydfran. Dangoswyd bod rhai o'n hadar mwyaf cyfarwydd, fel y ji-binc a'r titw tomos las, wedi prnhau rhwng 25 a 50%.

Gwelwyd y gostyngiadau hyn ar draws lluo o rywogaethau a chynefinoedd, sy'n dynodi problemau eang o fewn ecosystemau, gyda chanlyniadau dwys i fyd natur a'r ddynoliaeth.

Mae'r Genhadaeth Natur - sef, sicrhau bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Natur-bositif erbyn 2030 - yn bwriadu troi'r gornel ar y dirywiad presennol gan weld byd natur ar i fyny erbyn 2030.

Mae angen inni atal y dirywiad mewn cynefinoedd, adfer y rhai sydd wedi'u diraddio, a dychwelyd rhai yn ôl at natur, ac mae'n rhaid inni gyflawni hyn heb aberthu un cynefin i achub un arall. Rhaid canolbwyntio mwy ar y 60 a mwy o Safleoedd Biolegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y Parc Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr addawol ac yn esiamplau o gadwraeth dda. Mae angen rhoi sylw penodol i atal dirywiad rhywogaethau blaenllaw a chynyddu eu niferoedd a'u hamrywiaeth, trwy leihau bygythiadau ac ehangu cynefinoedd. Mae gwasanaethau a gynhrychir gan ecosystem y Parc Cenedlaethol - dŵr yfed, lle i ddal a storio carbon, lle i gysylltu â natur - yn hanfodol i'r bobl y tu mewn a thu hwnt i'r Parc Cenedlaethol. Mae angen gweithredu mwy cydlynol a mwy cydgysylltiedig ac mae angen gwneud mwy i ddiogelu'r gwasanaethau hyn, a chefnogi'r dasg o gynhyrchu bwyd lleol yn gynaliadwy.



### Ged Difodiant Torfol


Mae Parciau Cenedlaethol y DU yn ardaloedd gwarchoddedig Categori V, sy'n golygu eu bod yn "dirweddau gweithredol byw". Mae'n hanfodol fod Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu'n llawn at addewid Llywodraeth y DU i sicrhau bod 30% o'r tir a'r môr yn cael eu diogelu ar gyfer byd natur erbyn 2030, a'n bod ar ben hynny'n bodloni argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig sy'n deillio o Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Y prif gynefinoedd yn y Parc Cenedlaethol yw'r glaswelltiroedd (gan gynnwys glaswelltiroedd lled-naturiol a glaswelltiroedd sydd wedi'u gwella, yn ogystal â glaswelltiroedd calchaid ac asid), coetiroedd (dail llydan, conwydd a chymysg), rhostir, mawndir, tir amaeth, gwlyptiroedd a dŵr agored. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys 104 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gyda 72 (69%) ohonynt yn SoDdGA biolegol a 13 (13%) yn gymysg. Mae'r SoDdGA biolegol yn cyfrif am 12,668 hectar (9% o'r Parc Cenedlaethol) ac mae'r SoDdGA cymysg yn cyfrif am 16,041 hectar (12% o'r Parc). Mae SoDdGA yn cwmpasu pob un o brif gynefinoedd y Parc (glaswelltir, mawndir, coetir, rhostir, gwlyptir a chyrrff dŵr).

Ein gweledigaeth yw bod yr holl Parc Cenedlaethol yn gweithredu'n effeithiol fel ardal warchoddedig, ac yn cefnogi defnydd tir a strategaethau rheoli sy'n cyfrannu at adfer cynefinoedd, gwarchod rhywogaethau a gweithredu ecosystemau. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei arwain gan argymhellion Cymdeithas Ecolegol Prydain i Barciau Cenedlaethol sef "cyflawni dros natur yn y tymor hir (effeithiolrwydd)" ac "adeiladu gwytnwch ecolegol a gwella bioamrywiaeth (yn wyneb newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill)".

Mae cyflawni canlyniad cadarnhaol ar gyfer y byd natur yn ein herio i werthuso cyflwr a thueddiadau presennol y Parc Cenedlaethol, ac i gyflwyno adnoddau ychwanegol a sylweddol lle mae eu hangen fwyaf. Bydd cydweithredu effeithiol, ar raddfa lawer mwy, wrth wraidd y dasg o gyflawni hynny'n effeithiol. Ffermwyr yw'r grŵp mwyaf o ddefnyddwyr tir yn y Parc Cenedlaethol a byddant yn ganolog i'r datblygiadau arloesol sydd eu hangen i wireddu'r genhadaeth natur.



# Cymorth Hanfodol i Adfer y Gylfinir.



# Gweithio mewn partneriaeth, ar raddfa dirweddol, i adfer poblogaethau'r gylfinir ym Mannau Brycheiniog ac atal eu difodiant

## Nicola Davies

Ecolegydd

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Mae'r gylfinir yn rhywogaeth eithaf eiconig yng nghefn gwlad Cymru. Mae ei gri nodedig yn atseinio trwy ddyffrynnoedd yr iseldir ac wedi bod yn arwydd o ddyfodiad yr haf am genedlaethau di-ri. Yn anffodus, oddi ar 1993, mae poblogaeth yr aderyn hwn yng Nghymru wedi gostwng dros 90%. Os bydd y trywydd hwn yn parhau'n ddi-dor, rhagwelir y bydd y gylfinir yn wynebu difodiant ledled y wlad erbyn 2033. Bellach, ystyrir y gylfinir fel y flaenoriaeth fwyaf ym maes cadwraeth adar yng Nghymru.

Mae gylfinirod Bannau Brycheiniog yn cynrychioli'r boblogaeth fridio fwyaf deheuol sydd i'w chael ar ddolydd iseldir Cymru ond yn anffodus, mae'n debyg mai dyma yw'r un sydd fwyaf agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn datblygu prosiect o'r enw CWRLIP sydd wedi'i leoli yn nalgylch afon Wysg ac ardal Llan-gors i atal difodiant y gylfinir dros y blynyddoedd nesaf. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â sawl dull o adfer y gylfinir gan gynnwys gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr, arolygu a monitro, gwneud defnydd o addysg a chyhoeddusrwydd, dylanwadu ar lunwyr polisi, mapio cynefinoedd, ac adfer cynefinoedd.

Byddwn yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys sefydliadau ymchwil, tirfeddianwyr, sefydliadau cadwraeth, llunwyr polisi, undebau ffermio a'r cyhoedd.

Rydym ni'n gweithio mewn un o 12 Ardal Gylfinir Pwysig (ICA) ledled Cymru gan ddefnyddio "Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir" fel fframwaith cyffredinol i'n harwain, a chan weithio ochr yn ochr â Gylfinir Cymru sef cyd-weithgor sy'n cynrychioli sectorau o lywodraeth, cadwraeth, amaeth a rheolaeth helfeydd yng Nghymru.

## Her Ddifrifol

Nid yw'r prosiect hwn yn ymwneud â'r gylfinir yn unig. Rhywogaeth "ymbarél" yw'r gylfinir, sy'n golygu y bydd camau i helpu'r gylfinir i oroesi trwy ddarganfod mwy amdano a diogelu ei gynefinoedd, hefyd o fudd i ystod eang o fywyd gwylt arall. Y broblem yw ein bod ni'n gwybod am y bygythiad mawr i'r cynefinoedd hyn a bod dim llawer o amser ar ôl i atal y gylfinir rhag diflannu o'n tirwedd am byth.

## Pwysigrwydd Y Gymuned Ffermio

Mae llwyddiant y prosiect hwn yn dibynnu ar adeiladu partneriaeth gref â ffermwyr a rheolwyr tir yn nyffryn Wysg. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr mewn ardaloedd penodol er mwyn helpu i ddatblygu systemau amaethyddol hyfyw sy'n cefnogi cynefin y gylfinir trwy ddatblygu arferion cynaliadwy ar gyfer rheoli'r tir.

## Gwaith Y Parc Cenedlaethol

Rydym yn bartner arweiniol yn y prosiect hwn, ac wedi ymrwymo i gefnogi cadwraeth y gylfinir fel rhan o rwydwaith Cymru gyfan. Byddwn yn ymdrechu i godi arian i gyflawni CWRLIP a fydd yn seiliedig ar arferion gorau, gwyddoniaeth a thystiolaeth, a thrwy weithio gyda'r gymuned ffermio i adennill poblogaethau'r gylfinir. Byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu'r partneriaethau allweddol hynny sydd eu hangen i wneud y prosiect hwn yn llwyddiant, ac yn gweithio gydag ein rheolwyr tir er mwyn cyfuno eu gwybodaeth a'u harbenigedd â'n rhai ni fel y gallwn ni warchod yr aderyn godidog hwn am genedlaethau i ddod.

## Mae Llwyddiant Yn Golygu Popeth

Nid yw methiant yn opsiwn. Mae'r prosiect hwn a'i olwg ar llwyddiant yn unig. Rhaid inni atal dirywiad y gylfinir yn ein tirwedd a gweithio tuag at wella'i allu i ffynnu ochr yn ochr â systemau amaeth cynhyrchiol. Byddai methiant nid yn unig yn golygu colli rhywogaeth eiconig o Fannau Brycheiniog, byddai hefyd yn arwain at ddirywiad llawer mwy yn iechyd y Parc o ran ei ecosystemau a'i fioamrywiaeth.

# Bannau'r Dyfodol Yn Fannau Gobeithiol

Mae'r dyheadau a nodir yn Y Bannau yn dod â gobaith i ecolegydd fel fi sy'n gweithio ym maes cadwraeth natur ar lawr gwlad. Mae'n codi'r posibiladau, ac yn rhoi nerth i mi wybod bod yna amrywiaeth o bobl ar gael a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i atal dirywiad ym myd natur er budd y ddynoliaeth.



# Prosiect Pen-Pont.



# Mae Prosiect Pen-pont yn brosiect adfer natur sy'n pontio'r cenedlaethau a dyma'r cyntaf o'i fath yn y DU. Fe'i lleolir ar Ystâd Pen-pont o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Forrest Hogg

Rheolwr Prosiect

Ystâd Pen-pont



Cafodd y prosiect ei lansio yn 2019 ar Ystâd Pen-pont sy'n cynnwys 2,000 o erwau o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Prosiect Pen-pont yn pontio'r cenedlaethau ac yn dod â phobl ifanc, ffermwyr, coedwigwyr, tiffeddianwyr, artistiaid ac ecolegwyr ynghyd i adfywio bioamrywiaeth, hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru a chysylltu pobl leol â natur, gyda'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny.

Yng Nghymru, canfu'r adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur 2019, fod 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiffannu. Er bod camau cadwraeth yn hanfodol heddiw, mae angen inni sicrhau bod ein hatebion yn rhai hirdymor, yn gynhwysol ac yn cryfhau amrywiaeth ar bob lefel. Dyna'r rheswm yr ydym yn gweithio ar draws y cenedlaethau ym Mhen-pont.

Dyma drosiad o'r hyn a ysgrifennodd y bardd Gary Snyder wrth sôn am graidd y dull hwn a'r gydnabyddiaeth "nad yw ardaloedd gwyllt yn ymwneud â thirweddau dihalog. Yn hytrach, maent yn ymwneud â thirweddau sy'n ddigon cyfoethog ac amrywiol i fod o ddiddordeb i bawb - i'r rhai sy'n ddynol ac i'r rhai sydd ddim yn ddynol." Mewn geiriau eraill, rydym yn cydnabod bod tir a dyfrweddau ac iddynt ystyr diwylliannol dwfn, ac o'r herwydd, mae prosesau cymdeithasol cynhwysol a grymusol yn ganolog i gyflawni adfywiad a gwytnwch ecolegol parhaol. Trwy'r gwaith hwn, rydym yn creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc a'r gymuned leol fel y gallant adfywio prosesau naturiol.

## Rhannu'r Her

Rydyn ni'n byw yn un o'r gwledydd tlotaf yn y byd o ran bioamrywiaeth, ac mae'r chwalfa hinsawdd yn dechrau cael effaith ddifrifol ar bob peth byw. Rydym ni wedi gweld llifogydd digynsail yn difrodi ein cartrefi, mae clefydau coed yn difa ein coetiroedd ac mae sychder eithafol yn yr haf yn effeithio ar ein hamaeth.

Rydym ni hefyd yng nghanol argyfwng cymdeithasol. Mae ein plant yn treulio llai a llai o amser ym myd natur, ac erbyn hyn fe gaiff ei gydnabod yn ehangach fod unrhyw ddatgysylltiad oddi wrth natur yn effeithio'n negyddol ar bobl ifanc o ran eu gweithgareddau dysgu, eu hymddygiad, eu hiechyd a'u llesiant. Oni bai ein bod yn newid hyn, maent yn llai tebygol o frwydro i amddiffyn ein treftadaeth naturiol fel oedolion.

Mae Prosiect Pen-pont yn ceisio mynd i'r afael â'r materion rhyng-gysylltiedig hyn trwy ddull sy'n pontio'r cenedlaethau. Y nod yw iachâu'r tir a darparu cyfleoedd niferus i bobl ifanc ac aelodau o'r gymuned, i gysylltu â natur a chymryd camau ystyrlon.

## Cydweithio Am Lwyddiant

Daw llwyddiant trwy gydweithio a chyd-greu tirwedd sy'n gyfoethog o ran cynefinoedd a bioamrywiaeth, a lle mae ein treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei gwerthfawrogi a'i chadw. Mae gweledigaeth y prosiect yn cwmpasu anghenion ac uchelgeisiau ystod eang o gyfranogwyr - o bobl ifanc yn ymweld â'r safle'n rheolaidd, i'r ffermwyr a'r gymuned sy'n byw ac yn gweithio ym Mhen-pont o ddydd i ddydd. Mae'r mudiad amaetholegol yn cynnig trywydd pwerus tuag at fodel rhannu-tir lle mae adfer natur a ffermio yn gweithio gyda'i gilydd. Trwy adfer ein gwrychoedd, cynyddu argaeledd y gorchudd coed a'r cynefinoedd, a mabwysiadu arferion amaeth a chadwraeth adfywiol, gallwn adfywio'r tiroedd a'r dyfroedd a darparu amrywiaeth o gyd-fuddiannau i gymunedau. Mae Cymru hefyd yn arwain y ffordd gyda deddfwriaeth arloesol, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac rydym yn gobeithio ymgorffori hyn yn ein gwaith.



## Ein Prosiect

Rydym wedi ffurfio Cyngor Cyd-reoli sy'n penderfynu ynghylch y modd y dylid adfywio dros 450 erw o dir gan ddefnyddio cyfuniad o arferion gan gynnwys pori cadwraethol, arferion amaethyddol adfywiol, amaeth-goedwigaeth, adfer cynefinoedd, a chamau gweithredu i gefnogi rhywogaethau. Rydyn ni wedi cynnal ystod eang o arolygon ecolegol sylfaenol gydag amrywiaeth o arbenigwyr ac ecolegwyr lleol i fesur ein llwyddiant.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn gefnogwr allweddol i'r prosiect hyd yn hyn. Rydyn ni'n aelodau o'r Cynllun Mapio Coed ac wedi cydweithio gyda Wardeniaid y Parc ac aelodau o'r gymuned leol i blannu dros 3,000 o goed, adfer gwrychoedd a hau hadau blodau gwyllt mewn ardaloedd penodedig. Gobeithiwn weithio hyd yn oed yn agosach gyda'r Parc a grwpiau lleol eraill wrth i ni barhau i roi ein cynllun gweithredu ar waith.

# Y Bannau.

Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer tirwedd gynhwysol ac ecolegol-gyfoethog sy'n gwerthfawrogi ein traddodiadau a'n ffyrdd o fyw. Hyderwn y gall ein prosiect gyfrannu at y trawsnewidiad hwn a bod yn rhan o gymuned sy'n tyfu ac yn cydweithio i gwrdd â her fwyaf argyfyngus ein hoes.





# Ein Cyfraniadau

Mae ein hamgylchedd naturiol yn ein cynnal yn gorfforol, yn feddylol, yn ddiwylliannol ac yn ysbrydol.

Mae'r Bannau yn dirwedd fyw, yn frithwaith o gynefinoedd ac ecosystemau naturiol, lled-naturiol a rheoledig. Mae'n gartref i goetiroedd, mawndiroedd, rhostiroedd, porfa, dolydd a mwy.

Ein rôl yw defnyddio ein sgiliau a'n data i ddeall y cymhlethdod hwn, ac i ddefnyddio'r wybodaeth i weithio mewn partneriaeth â phawb sy'n rheoli neu'n berchen ar dir yn y Parc (gan gynnwys ni ein hunain) er mwyn diogelu, atgyweirio ac adfywio ein cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau allweddol.

1. Byddwn yn archwilio ac yn sianelu'r ffactorau economaidd a chymdeithasol sy'n ysgogi newid amgylcheddol er mwyn cefnogi ffermwyr, tîrfeddianwyr a chymunedau i sefydlu ffyrdd newydd o weithio sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus ac yn atgyweirio ac yn adfer ein hecosystemau hanfodol.
2. Bydd adfer byd natur a gwarchod ein tirwedd byw yn rhan annatod o'n holl weithgareddau yn y Parc Cenedlaethol, a byddwn yn cynyddu ein rôl i warchod a diogelu fel ein bod yn eiriolwyr ar gyfer adferiad natur ym mhopeth a wnawn.
3. Byddwn yn gosod esiampl trwy roi blaenoriaeth i warchod ac adfer ein tir ein hunain ar gyfer adferiad natur a thargedu ein cefnogaeth i rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau gwarchoddedig a flaenoriaethwyd o fewn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys nodweddion SoDdGA ac ACA.
4. Byddwn yn defnyddio ein data ni ynghyd â data ein partneriaid ac ymchwilwyr i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur, gan flaenoriaethu rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau'r Parc Cenedlaethol er mwyn diogelu ac adfer, a monitro cynnydd.
5. Byddwn yn sefydlu partneriaethau gyda thîrfeddianwyr a'r sector amaethyddol i archwilio a sefydlu dulliau adfywiol ar gyfer ffermio a rheoli tir sydd hefyd yn cefnogi ein heconomi wledig ac yn ein paratoi ni ar gyfer y dyfodol.
6. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i rannu dulliau a strategaethau sy'n cynnig yr arferion gorau, gan gefnogi pawb i ddeall y ffordd y gallant gyfrannu'n weithredol at gadwraeth ac adferiad natur, gan gynnwys rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.



# Llythyr oddi wrth Mair Brychan at Dylan Brychan

**Ionawr 15, 2042**  
**Gan Mair Brychan**

Annwyl Dylan

Un o'r llawenydd niferus o fod yn Famgu i chi yw fy mod i hefyd yn dod i fod yn ffrind a chyfrinachwr.

Fel bachgen, byddech chi'n cerdded Helyg gyda mi trwy'r dyffryn. Byddech chi'n rhannu'ch holl gyfrinachau a'ch pryderon, gan siarad am hyn a'r llall, wrth i mi dynnu sylw at yr holl blanhigion a chreaduriaid. Y sgysiau bach doniol hynny – trwy goedwig, cae, a nant – yw rhai o'r atgofion hapusaf sydd gen i.

Yn ôl wedyn, byddai hyd yn oed y peth symlaf, fel cap cwyr ar y lan neu crafanc yn blodeuo yn y nant, yn goleuo'ch wyneb. Ar yr adegau y gwelsom rywbeth gwirioneddol gyffrous - y neidr ddefaid, Myrddin, neu Bêl Pâl Enfawr - ni fyddech yn stopio canu am wythnosau.

Y penwythnos diwethaf, wrth i ni gerdded yr un ddolen honno, fe allwn i ddweud wrth Dyl, ni welsoch chi ddim ohono. Gallaf weld eich bod yn dioddef o dan gwmwl tywyll. Rhaid iddo guddio cymaint. Roeddwn i eisiau dweud wrthy'ch chi beth welais i, serch hynny, a rhywfaint o'r hyn rydw i wedi'i weld ar y fferm ac ar y bryn dros yr holl flynyddoedd hyn. Rwyf hefyd am rannu rhywbeth gyda chi y mae Tadcu yn unig yn ei wybod. Ers blynyddoedd, rydw i hefyd wedi cael trafferth gyda meddyliau tywyll. Er

mwyn rheoli, byddwn i'n tynnu fy hun oddi ar y lôn ac o amgylch y dyffryn gyda llyfr nodiadau bach yn fy mhoced. Byddwn yn sgriblo i lawr meddyliau, teimladau, a phethau bach sylwais: blodau yn y clawdd, y tymhorau cyfnewidiol ar y coed, gloynnod byw newydd ar yr adain.

Ges i'n reit dda arno fe! Yn fuan roeddwn yn gallu adnabod ac enwi'r rhan fwyaf o bethau. Unwaith y byddwch chi'n enwi rhywbeth gallwch chi ddechrau ei ddeall, byddwch chi'n gwybod beth mae'n ei wneud. Teimlo fy mod yn tiwnio i mewn i gannoedd o operâu sebon mini, yn llawn cymeriadau lliwgar! Roedd rhai hyd yn oed yn teimlo fel ffrindiau. Mae'n rhaid bod hynny'n swinio'n ddoniol i chi. Eich hen Mamgu! Ond fe wnes i ddarganfod ar ôl ychydig bod ei angen arnaf. Mae wedi bod yn meddwl rollercoaster. Rwyf wedi gweld cymaint o golled, cymaint o newid, popeth wedi'i wisgo'n edau. Digon o weithiau doeddwn i ddim yn meddwl y gallai wella. Ond fe wnaeth Dyl! Yn y pen draw, dewisom adfer yn hytrach na dinistrio, i amddiffyn yn hytrach na thynnu i lawr. Hoffwn pe gallech ei weld â'ch llygaid ifanc chi eto.

Rwy'n meddwl ein bod i fod i sylwi. Efallai oherwydd ei fod bob amser wedi bod mor bwysig. Nid eich bai chi yw'r ffaith nad ydych chi'n ei weld, cofiwch. Ni allai'r holl amser hwnnw yn Llundain fod wedi helpu. Mae'n rhaid i chi ei feithrin, dwi'n meddwl. Os nad ydym yn edrych, nid ydym yn gweld. Ac os na welwn ni, wel sut ydyn ni o bosib yn mynd i ddewis y llwybr sydd o'n blaenau? Felly, dyma ran fach o'n stori, o rai darnau a ddarganfyddais wrth edrych yn ôl trwy'r llyfrau nodiadau hynny. Efallai y bydd yn helpu i glirio'r llwybr ychydig.

## Gorffennaf 21 – 1992

Dwy flynedd bellach ar fferm. Ymwelodd mam am y tro cyntaf. Cymerodd ei thir crwn ac i fyny ar y bryn. Digonedd o fuchod coch cwta. Wedi casglu rhai i Dafydd. Bryn morgrug yn y goedwig + llond llaw o gap inc troed ysgyfarnog, 8 tegeirian brych cyffredin mewn dôl a 'haid' o fritheg y gors ger y nant. Cymaint! llai o argraff ar Mam. Dywed ei bod yn cofio 'cymylau' ohonynt 50 mlynedd yn ôl, gloynnod byw yn pwyso canghennau coed. Ddim yn siŵr fy mod yn ei chredu, ond meddwl hyfryd!

## Mai 14 – 2016

Dafydd, Sian a Dyl bach yn aros am y penwythnos. Sian 8 mis yn feichiog (merch yw hi!). Wedi cymryd Dyl ar 'antur'. Y fath hwyll! Popeth yn rhyfeddod iddo. Gwelodd Chwilod Dor, cacwn cynffon goch, clochdar y cerrig a'r ehedydd. Un Pren gwyn a 2 Cregyn Crwban Bach. Blwyddyn ddrwg i ieir bach yr haf. Lwcus dyw e ddim yn cymryd llawer i dddidanu Dyl. Dysgodd iddo alwad Yellowhammer. Ni fyddai'n stopio! Heb weld un ers i wrychoedd ddod i lawr serch hynny.

## Ebrill 29 – 2027

Dadl fawr yn y fferm eto. Cae gwaelod cors. Cnwd wedi pydru. Mae Dafydd yn meddwl y dylem ni resow, dyw loan ddim pwynt. Dal i wthio am adfywiad - dim yn siŵr bod symiau'n gweithio. Cerdded i fyny'r bryn i glirio'r pen. V ysgafn - dim cot. Llwybr mewn cyflwr. Banc wedi disgyn ers i'r gwaith mawndir ddod i ben – dŵr yn rhedeg i lawr y trac. Cerdded yn ôl drwy'r coed – mwy o dyllau bach mewn coed – sycamorwydden, traeth, helyg. Hirgorn Asiaidd? Y peth olaf sydd ei angen arnom, ond yn gwybod ei fod yn dod. Heb weld llawer arall. Rhaid codi calon. Cig

oen yn y popty i ddathlu arholiadau Dyl heno.

## Medi 13 – 2035

Chwysu – haf arall yn ymestyn ymlaen. Yr olaf o'r sycamorwydden i'w dorri'n drist. Wedi dod o hyd i gysgod o dan gobnut – un o 'arbrawf' coedamaeth. 4 blynedd bellach. Mae defaid yn ymddangos yn hapus, yn gorwedd o dan helyg, yn cnoi porthiant. Ffordd bell i fynd ond dywedodd Callum fod y pridd wedi gwella ers y tro diwethaf. Chaffer y rhosyn, lindysyn melyn yr isadain a chacwn y rhos wrth gerdded i fyny. Redwing cyntaf y flwyddyn hefyd – falch nad oedd y llynedd yn unwaith ac am byth! Bob amser wedi rhyfeddu beth sy'n ymddangos - aros yn yr adenydd am gyfle eto. Sian a Daf yn brysur gyda'r cynhaeaf gwygbys cyntaf (dal yn ddoniol i feddwl). Tir yn rhy galed i gyfeirio drilio gaeaf Sillafu, felly dal i ffwrdd. Dylan yn ymweld ac yn 'helpu allan'. Da ei weld yn baeddu ei ddwylo.

## Tachwedd 10 – 2041

Wedi darbwyllo loan i ymuno â mi. Ymdrechodd i fyny pen bryn, ond gwerth chweil. Wedi'i gyfarch gan garped amryliw o fwsogl Sphagnum! Am adferiad. Gwely Cyll a Chnau Cob ar y ddaear mewn porfa goediog – blwyddyn fast? Afalau terfynol, gellyg, ac eirin ar goed. Gorffwyswch mewn jariau, poteli, seler, neu gyda chymdogion. Wedi pasio boncyff trwchus o gen barf mewn pren a hyfrydwch o gapiau cwyr yn y cae gwaelod - dolydd eira, pinc. Mae prisiau'r maes yma bellach mewn niferoedd real a phraidd cymysg neu linydd aur a bras melyn yn ffrwydro o brysgwydd mewn parth 'gwyllt'. Dywedodd wrth loan am y 'ffoaduriaid hinsawdd' a welwyd eleni – cregyn crwban mawr, glas cynffon hir, gwas neidr grwydryn ger y pwll storio. Mae eraill, fel bren brith, wedi hen fynd yn awr. Newid cyson. Heb aros allan yn hir – loan wedi blino ac yn oer. Cerdded yn ôl law yn llaw - fel hen ddyddiau. Machlud haul gogoneddus ar ein cefnau.

A dyma ni nawr. Mae wedi bod yn dipyn o daith. Edrych ymlaen at yr hyn sydd nesaf ac mor falch o'ch cael yn dod yn ôl.

**Fy holl gariad**  
**Mamgu.**





---

**Gôl**

Byw, gweithio, ymweld - yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.

# People

# 2028

## Sut beth yw llwyddiant?



## Ansawdd Bywyd

Gwella ansawdd bywyd a llesiant pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn chwarae yn y bannau.



### **Bwyd y dyfodol**

Bydd cynaliadwyedd a fforddiadwyedd y bwyd iach sydd ar gael i drigolion ac ymwelwyr wedi gwella trwy greu rhwydweithiau lleol ar gyfer cynhyrchu a manwerthu bwyd yn gynaliadwy.

### **Sgiliau a swyddi'r dyfodol**

Bydd cymysgedd demograffig y bobl sy'n byw yn y parc wedi cynyddu o ganlyniad i fuddsoddi yn nyfodol y sgiliau gwledig.

### **Cartrefi'r dyfodol**

Bydd pobl sydd angen neu sydd eisiau byw yma yn gallu gwneud hynny o fewn eu modd. Bydd mesurau helaeth yn erbyn ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar waith lle bo angen. I'r rhai na allant fforddio prisiau'r farchnad, bydd opsiynau tai carbon-isel ar gael dan arweiniad y gymuned.

### **Gwres a phŵer y dyfodol**

Byddwn wedi cyflawni "trosglwyddiad cyfiawn" i ffurfiau carbon-isel o wres a phŵer.

### **Cludiant y dyfodol**

Bydd argaeledd a hygyrchedd ar gyfer opsiynau trafndiaeth carbon-isel wedi cynyddu. Bydd opsiynau teithio llesol yn haws i'w defnyddio o ddydd i ddydd; felly hefyd y cynlluniau symudedd eraill megis rhannu e-geir a llogi e-feiciau.

### **Bywydau'r dyfodol**

Bydd pobl bannau brycheiniog yn meddu ar ymdeimlad o berthyn i'w cymunedau ac yn uniaethu â phrofiadau ymwelwyr sy'n ofalgar, yn gydlynol ac yn gyfoethog.

### **Cysylltiadau'r dyfodol**

Bydd cysylltedd digidol yn cael ei wella gan ddarparu mynediad cyfartal i wasanaethau, cyfleusterau a swyddi.

### **Economi'r dyfodol**

Bydd cymunedau a busnesau lleol yn elwa o economi fywiog a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu cyfoeth yn lleol a'r economi sylfaenol. Bydd buddsoddiad newydd cynaliadwy yn gweithio ochr yn ochr â busnesau cartref i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da.

### **Cyfiawnder, amrywiaeth, cynhwysiant**

Byddwn yn herio ac yn dileu gwahaniaethiad a rhwystrau i gyfranogiad lle bynnag y maent yn digwydd, gan greu parc cenedlaethol lle gall pawb ddod o hyd i gyfleoedd a'r ymdeimlad o berthyn.

### **Ymwelwyr y dyfodol**

Byddwn yn cynnal y fflam ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Mae ymweld â Bannau Brycheiniog yn darparu profiad unigryw ac yn hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer adferiad natur, llesiant cymunedol a'r economi leol. Bydd ymwelwyr yn gwybod ein stori ac yn cael eu cymell i'n helpu ni i ymateb i heriau allweddol, yn bennaf trwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain.

### **Y gymraeg a'r diwylliant cymreig**

Mae diwylliant Cymreig yn ffynnu ac yn cael ei ddathlu fel rhan o dapestri cyfoethog bywydau diwylliannol Cymru. Mae ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ar gynnydd ymhlith ein trigolion a'n hymwelwyr. Mae'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi gan bawb, waeth beth fo'u lefel rhuglder yn yr iaith.

### **Busnesau cynaliadwy**

Bydd rhwydwaith cefnogi busnesau ar gael a fydd yn ymroddedig i adeiladu economi leol gynaliadwy a theg o fewn Bannau Brycheiniog.



“

Mae cymdeithasau dynol yn debyg i beiriannau ceir sy'n ail-ddylunio'u hunain yn gyson a lle mae pob cydran/person yn gysylltiedig â'i gilydd

Danny Dorling

Why Demography Matters

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys pobl amrywiol a thirwedd hynafol. Yma, rydyn ni'n sôn am y rhai sy'n byw o fewn ein ffiniau, y rhai sydd wedi adeiladu'u bywydau yma, ymgartrefu yma, magu teuluoedd, caru, chwerthin ac wynebu'u hofnau yma. Rydyn ni hefyd yn cyfeirio at bobl sy'n rhedeg busnesau o'r Parc ac efallai eu bod yn croesawu un o'r 5 miliwn o ymwelwyr a welwn bob blwyddyn; efallai eu bod yn ffermio'r tir, yn magu stoc ar y bryniau fel y gwnaed ers cenedlaethau, neu'n gwneud rhywbeth cwbl wahanol, pwy a wŷr! Rydyn ni hefyd yn cyfeirio at yr ymwelwyr sy'n dod i edmygu'r golygfeydd, ac i droedio'n ysgafn ar ein tir a mwynhau ychydig o'n lletygarwch enwog

Ein pobl yw ein cryfder, a thrwy ein pobl y byddwn yn sicrhau'r newid sydd ei angen ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Rydyn ni'n ailadrodd yr angen am newid dro ar ôl tro er budd cenedlaethau'r dyfodol o drigolion, ymwelwyr a pherchnogion busnes.

Fodd bynnag, mae ein poblogaeth breswyl yn heneiddio, a chydag amser bydd hynny'n golygu llai o weithwyr iau a fydd, yn ei dro, yn cael effaith gynyddol ar wasanaethau, cyfleusterau, ac economi a chynaliadwyedd y dyfodol. Mae hefyd yn dylanwadu ar agweddau wrth i leisiau pobl ifanc gilio o'n cymunedau.

Mae cymunedau'n cael eu herio gan y gyfran uchel o dai a ddefnyddir fel ail gartrefi a chartrefi gwyliau. Er bod y rhain yn dod â budd economaidd, maent hefyd yn creu bylchau mewn cymunedau lle mae tai'n wag, ac wrth i gymunedau brinhau mewn niferoedd, mae eu cydlyniaeth a'u hymdeimlad o berthyn yn dioddef.

Mae ein proffil ymwelwyr wedi newid yn aruthrol ers cyfnodau clo COVID. Rydyn ni'n gweld mwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen a chan nad oes seilwaith gan rai ardaloedd o'r Parc i gefnogi'r lefelau hynny, mae ymwelwyr a chymunedau yn gorfod delio â chanlyniadau sy'n llai na chadarnhaol.



### Y gofod cyfiawn a diogel

Wrth ystyried y boblogaeth barhaol a thros dro, fe welwn ein bod wedi symud y tu hwnt i derfynau lle gall cymdeithas a'r blaned weithredu'n ddiogel. Mae ein cymunedau yn cael eu peryglu ac nid yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er yn anfwriadol, mae ein hymwelwyr yn achosi niwed i'r union amgylcheddau naturiol y maent wedi dod i'w gweld a'u gwerthfawrogi.

Dyna pam mae ein cenhadaeth yn canolbwyntio mor gryf ar ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd mewn modd sy'n parchu terfynau systemau'r blaned. Mae newid y ffordd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad i'r Parc yn hollbwysig os ydym am sicrhau dyfodol diogel a chynaliadwy iddynt o fewn y Parc Cenedlaethol.



# Ein Bwyd.



# Adeiladu economi bwyd lleol newydd yn Sir Fynwy a Bannau Brycheiniog sy'n garbon niwtral, yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn fwy llewyrchus.

## Duncan Fisher a Sue Holbrook

Rheolwyr Prosiect  
Ein Bwyd 1200

Rydyn ni'n bobl leol brofiadol a rhagweithiol yn gweithio gyda'n gilydd trwy Ein Bwyd 1200 sy'n gymdeithas budd cymunedol. Rydyn ni'n ymateb i argyfwng sy'n bygwth ein hinsawdd, ein natur, ein cyflenwadau bwyd a'n hiechyd. Rydyn ni'n gweithio trwy bartneriaethau, gan gynnwys gyda'r Parc Cenedlaethol a phartneriaid eraill Y Bannau.

## Our Food

Er mwyn creu economi fwyd leol a bywiog, mae angen i ni gynyddu'r galw am fwyd lleol – gan drigolion, awdurdodau lleol, a dinasoedd cyfagos. Ar yr un pryd, mae angen inni dyfu mwy o fwyd yn lleol, gan ddefnyddio egwyddorion adfywiol sy'n cloi carbon ac sydd ddim yn niweidio natur â llygredd ffosffad neu nitrad. I wneud hynny, rhaid inni ddod o hyd i dir, denu tyfwyr medrus i drin y tir hwnnw, a chefnogi'r ffermydd bach newydd hyn gyda chyllid, tai, cynllunio, marchnata a thechnoleg.

Rydyn ni'n dechrau gyda ffrwythau a llysiau oherwydd maen nhw'n hanfodion wythnosol ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer economi bwyd lleol a all, wrth iddo dyfu, gynnal bwyd arall a dyfir yn lleol.

## Our Aims

Bydd llwyddiant yn cynnwys wyth eitem: llai o allyriadau carbon yn ein rhanbarth yn deillio o dyfu a bwyta bwyd; cyflenwadau lleol diogel ar gyfer yr adegau pan amharir ar gadwyni bwyd byd-eang; mwy o swyddi lleol; darparu bwyd iach a mwy maethlon; llai o lygredd; diogelu a gwella bioamrywiaeth; cydlyniant cymunedol cryfach mewn perthynas â'r fasnach fwyd; a chymorth i liniaru tloedi bwyd lleol.

## Our Actions

Rydyn ni'n cynyddu'r galw am ffrwythau a llysiau lleol trwy gynnal ymgyrchoedd marchnata yn y dref, gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflenwi ysgolion, a gweithio gyda rhaglenni bwyd Caerdydd i adeiladu cadwyni cyflenwi yno hefyd. Rydyn ni'n cefnogi datblygiad busnesau garddwriaeth fasnachol sy'n fach ond yn gynhyrchiol iawn, gan ddefnyddio technegau adfywio (cloi carbon, adeiladu bioamrywiaeth y pridd, a dilyn egwyddorion organig) ac yn cyflogi tua 1 person/erw. Rydyn ni'n paru tyfwyr â thirfeddianwyr preifat, yn chwilio am ffermydd i brynu i mewn iddynt, yn hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar gyfer lluo o fentrau bwyd bychain, ac yn chwilio am ffermydd sirol at yr un diben. Rydyn ni'n gweithio i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant yn y maes garddwriaeth fasnachol ac yn siarad â disgyblion ysgol am yrfa mewn tyfu bwyd yn y dyfodol. Rydyn ni'n helpu ffermwyr newydd i ddatblygu gwerthiant a marchnata ar y cyd, dod o hyd i gyllid dechrau-a-thyfu, dod o hyd i dai, a defnyddio technolegau di-garbon ar gyfer ffermydd bach. Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu rheoliadau a pholisïau cynllunio cefnogol.

Rydyn ni am gyfathrebu â'r cyhoedd lleol ar y cyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Rydyn ni hefyd am weithio gyda'r Awdurdod i greu rheoliadau cynllunio sy'n cefnogi ffermio adfywiol ar raddfa fach.

# Y Bannau.

Mae cynllun Y Bannau yn golygu y gallwn weithio mewn partneriaeth â'r Parc Cenedlaethol a'i holl bartneriaid eraill. Fel pawb arall, ni allwn gyflawni ein nodau heb bartneriaethau cryf.



# Coleg y Mynydd Du.

---

Adeiladu cymuned ddysgu i archwilio'r modd y gellir addasu i'r newidiadau enfawr sydd ar fin digwydd yn sgil y chwalfa hinsawdd.

Creu dyfodol lle mae natur a chymdeithasau dynol yn ffynnu trwy ddysgu yn yr awyr agored gan arwain at ddeilliannau cymdeithasol ac ecolegol cadarnhaol.



# Coleg y Mynydd Du.

## Ben Rawlence

Cyfarwyddwr

---

Fe sefydlon ni Goleg y Mynydd Du mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil y Chwalfa Hinsawdd. Mae'r chwalfa hinsawdd yn gyfnod newydd sy'n gofyn am newid enfawr yn y modd yr ydym yn trefnu ein heconomiâu a'n cymdeithasau yn ogystal â'n perthynas â natur. Cnewyllyn y syniad oedd: beth all ryw le penodol ei ddysgu i chi? Os ydym am astudio senarios y dyfodol, pa le gwell i wneud hynny nag yn harddwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n wynebu heriau i'w ecosystemau? Ac am le hyfryd i astudio! Ein nod yw darparu hyfforddiant ar y sgiliau a'r meddylfryd sydd eu hangen ar gyfer addasu i'r hinsawdd ac sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol.

Credwn mai'r her ganolog yw darganfod ffordd i adeiladu cymdeithasau cynaliadwy o fewn terfynau'r blaned. Mae hyn yn dipyn o gamp, a chredwn fod gan ein myfyrwyr rôl arwyddocaol i ddod o hyd i ffyrdd o weithredu strategaeth Y Bannau, a thrwy hynny arddangos ein rhanbarth fel esiampl i'r DU: dyma'r ffordd y gallwn ni fynd ati i dacio'r problemau enfawr o ordreuliant a dinistr natur.

## Ein Gweledigaeth

Hoffem weld cynnydd o ran bioamrywiaeth, datblygiad dynol ac adferiad byd natur yn y Parc Cenedlaethol ochr yn ochr â channoedd o raddedigion yn ein helpu i wireddu'r newidiadau hynny fel rhan o'u hastudiaethau. Ymhellach, os gallwn ysbrydoli ffordd newydd o feddwl am bwrpas sylfaenol y Parciau Cenedlaethol sef addysgu, hysbysu ac ailgysylltu pobl â systemau cynnal bywyd ein planed, yna byddwn wedi llwyddo. Credwn y dylai Parciau Cenedlaethol, yn eu hystyr ehangaf, gael eu gweld fel prifysgolion cyhoeddus sydd â chenhadaeth ddinesig.

## Ein Gweithredu

Byddwn yn gweithio gyda'r Parc Cenedlaethol ar leoliadau gwaith a briffiau heriol, ac yn hyrwyddo gwyddoniaeth dinasyddion i ganfod atebion i gwestiynau'r byd go iawn, er mwyn rhoi newid ar waith. Byddwn hefyd yn denu o fyfyrwyr i'r Parc, i wella ein heconomi, ein diwylliant ac i wneud y Parc yn gyrchfan ar gyfer meddwl a gweithredu mewn modd arloesol.

# Gwireddu breuddwyd y bannau.

Mae'r freuddwyd hon yn rhan allweddol o'n cenhadaeth a'n cynnig i fyfyrwyr. Rydyn ni'n hyderu ac yn disgwyl y bydd myfyrwyr yn mynychu Coleg y Mynydd Du yn rhannol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, gan ddysgu o'r profiad a mynd ymlaen i wireddu gweledigaethau mewn mannau eraill.



# Ein Cyfraniadau

Ni all pobl na natur ffynnu heb ei gilydd - mae pob un ohonon ni'n rhan o dirwedd gymhleth y Parc Cenedlaethol. Mae pobl wedi ffurfio tirwedd ac amgylchedd y Bannau ers miloedd o flynyddoedd ac yn ogystal â'i greu a'i warchod, mae weithiau wedi'i ddifrodi.

Ein rôl ni yw cysylltu neu ailgysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol a gweithio mewn partneriaeth fel y gallwn adfer cydbwysedd o fewn y Parc rhwng natur ar yr un llaw a chymunedau a phobl iach a llewyrchus ar y llaw arall.

1. Byddwn yn gwreiddio llesiant ym mhopeth a wnawn - byddwn yn blaenoriaethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn yn sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau o gynaliadwyedd, cynhwysiant a chefnogi'r economi leol.
2. Byddwn yn estyn allan at bobl i ddeall y ffordd y maen nhw'n cysylltu neu ddim yn cysylltu â'r Parc Cenedlaethol ac yn dysgu'r modd y gallwn ailadeiladu'r cysylltiad hwnnw. Byddwn yn ymdrechu i gael gwared ar y rhwystrau cymdeithasol a chorfforol i gyfranogiad.
3. Byddwn yn cefnogi'r economi leol trwy weithio i gefnogi mentrau cymdeithasol o'r ardal, yn caffael y cynnyrch a'r gwasanaethau a brynwn o'r cyffiniau, ac yn archwilio modelau ar gyfer cynhyrchu incwm a fydd yn cefnogi cymunedau, amaethyddiaeth a byd natur i ffynnu, e.e. taliad am wasanaethau ecosystem.
4. Byddwn yn cryfhau ein cysylltiad â'n cymunedau, tîrfeddianwyr/porwyr, busnesau, trigolion ac ymwelwyr trwy fod yn fwy gweladwy, gan gynnig cymorth, rhannu ein harbenigedd a chwilio am ffyrdd o gydweithio.
5. Byddwn yn dathlu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a'n diwylliant Cymreig.
6. Bydd y modd yr ydym yn gwneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch i bawb, yn batrwm i eraill. Byddwn yn gweithio gyda'r Fforwm Mynediad Lleol i weithredu ein Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

# Ebost oddi wrth Dylan Brychan at Sian Brychan

Chwefror 18, 2042

Helo Mam

Ar hyn o bryd rwy'n eistedd ar y llawr wedi'i amgylchynu gan bentyrrau o focsys. Mae Maya newydd bicio lawr i Peckham i ffarwelio â'i mam (mae Sanaa'n dweud hi gyda llaw), felly rydw i wedi rhoi'r tegell ymlaen a meddwl y byddwn i'n anfon neges sydyn atoch chi.

Methu credu ein bod ni'n dod adref. Efallai y bydd yn eich synnu, ond mae wir yn teimlo felly (i mi o leiaf). A dweud y gwir, dwi'n meddwl na adawodd fy nghalon erioed, dim ond y gweddill ohonof a redodd i ffwrdd pan na allwn weithio allan ble roeddwn i'n ffitio.

Ond ers i ni ddarganfod mwy am y babi, rydw i wedi bod yn meddwl llawer mwy am y pethau hyn - teimlo eich bod chi'n perthyn yn rhywle, eich bod chi'n rhan o rywbeth. Dwi'n gwybod fod Mamgu yn ffeindio fe trwy natur a ti a Dad o'r wlad, ond dwi'n sylweddoli bod angen pobl arna i, mam, tu hwnt i deulu yn unig. Mae angen i mi deimlo fy mod yn cael fy ngweld, fel fy mod yn bwysig, fel bod gennyf ran i'w chwarae a bod pobl yn malio. Rhoddodd Llundain hwnnw i ni

am ychydig, ond mae mor fawr ac anhylaw. Rydyn ni eisiau bod yn rhywle lle gallwn olrhain ein cysylltiad a'n cyfraniad, lle mae newid yn amlwg.

Dduw - dim ond gwyllo'r newyddion erchyll am y teulu tlawd hwnnw. Mae'r holl beth wedi dod ag atgofion caled yn ôl i Maya. Mae hi'n dal i gael yr un hunllef, chi'n gwybod, ciwiau diddiwedd o gleifion trawiad haul, cyflwr aer wedi torri, ysbyty'n cwmpo o'i chwmpas. Mae wedi bod dros 10 mlynedd, wyddoch chi. Bydd yn dda iddi gael ychydig fisoedd yn gweithio yn y ganolfan iechyd newydd cyn iddi fynd ar gyfnod mamolaeth. Cafodd ei chyfarfod cyntaf gyda Dr Hughes gyda llaw, ac rydych chi'n iawn, mae'n edrych yn berl.

Roedd yn eithaf diflas bryd hynny, onid oedd? Wedi siarad â Scott am y gwaharddiad mudo, sut hyd yn oed ar ôl iddo gael ei godi roedd yr awyrgylch yma o hyd - anesmwythder am wynebau newydd, yn enwedig rhai lliw. Dywedodd Scott ychydig o bethau bryd hynny wrth Maya a oedd yn eithaf annifyr. Mae'n dweud bod y cyfnod cyfan yn aneglur nawr. Fe'i disgrifiwyd fel breuddwyd ddifrifol yr oedd yn cerdded drwyddi; dywed iddo gael ei wneud yn ddideimlad gan galedi ac anobaith yr amser. Yr hyn sy'n ddoniol, yw ei fod bellach yn gweithio ar y fenter ddatganoli yr oeddech yn sôn amdani a'i fod yn frwd i ganmol rhinweddau plwraliaeth dros goffi. Dywedodd fod amrywiaeth yn "gynhwysyn allweddol ar gyfer gwydnwch lleol, lle mae sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol yn caniatáu lle i addasu ac esblygu'n gyflym". Fedrwn i ddim stopio chwerthin, i feddwl mai hwn yw'r un boi oedd yn arfer rhoi wedggies i mi!

Doniol sut mae pethau'n teimlo mor anochel ar y pryd. Dim ond yn ddiweddarach y byddwch chi'n sylweddoli nad oes dim yn barhaol, mae'r rhan fwyaf o bethau yn ddewis, a bod pobl yn gwneud dewisiadau. Doedd hi ddim yn teimlo bod gennym ni ddewis ar y pryd - fi mor ddiflas a bach a Maya wedi llosgi allan a chael llond bol. Efallai y dylen ni fod wedi aros, bod yn rhan o'r grŵp a drawsnewidiodd pethau o'r diwedd? Nid wyf yn siŵr a oedd gennym ni ynom.

Ond nawr rydyn ni'n dod adref! Ac nid ydym ar ein pennau ein hunain ychwaith. Nes i daro i mewn i Dan yn y dafarn - disgwyliad Elle hefyd. Dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio gyda chi a'r grŵp ynni ar brosiect newydd arall - swnio'n gyffrous. Roedd Bryony yno hefyd. Symudodd yn ôl y llynedd gyda'i phartner. Maen nhw wedi derbyn grant gan y llywodraeth ar gyfer menter gymdeithasol newydd, rhywbeth am wân a deunyddiau adeiladu (Roedd yn swnllyd iawn yn The Bull, felly ddim 100% yn siŵr). Hefyd, fyddwch chi byth yn dyfalu gyda phwy rydyn ni'n mynd i fod yn gymdogion...Jo a Matt! Maen nhw'n symud i mewn i un o'r tai cymunedol gerllaw. Mae hynny'n fy atgoffa, mae Jo newydd orffen ei hyfforddiant ac yn chwilio am dir i ddechrau gardd farchnad. Dywedais y dylai hi siarad â chi guys. Yn gwneud synnwyr, nac ydy? Mae gennym ni'r tir; mae ganddi'r sgiliau a'r archwaeth - gan ei bod hi'n amlwg nad fi na Megan fydd yn ei gymryd!

Braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfeillgar eto. Mae'n teimlo'n heintus, fel adwaith cadwynol - gweithredu a chred gadarnhaol, pobl dda ac ewyllys da. Rwy'n meddwl ei fod bob amser wedi bod yno i fod yn deg; roedd angen catalydd a rheswm i bobl ddod at ei gilydd. Arferai Tadcu ddweud nad oedd yn dda gofalu am y dyffryn hardd hwn pe na baem yn meithrin ac yn cynaeafu'r bobl hardd ynddo hefyd. Efallai y gall dad ddefnyddio hwnna ar gyfer y Foneddiges!

Ah, dwi'n meddwl mai Maya sy'n dod yn ôl, mae hi'n edrych yn flinedig felly fe wna i gloi hyn. Mae hi wedi cyrraedd y pwynt lle mae pobl yn cynnig seddi iddi ar y tiwb nawr. Meddwl y byddaf yn popio'r tegell ymlaen eto.

Methu aros i weld chi a phawb arall ar y penwythnos.

**Fy holl gariad  
Dylan**



# Lle

---

## Gôl

Lleoedd llewyrchus, hardd, llewyrchus a chynaliadwy, yn cael eu dathlu am eu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, yn awr ac am byth.

# 2028

## Sut beth yw llwyddiant?



## Cydweithio ar gyfer dyfodol gwell

Canolbwyntiodd y gweithredu cydweithredol ar ystod o feysydd gofodol er mwyn cydgynhyrchu ymatebion i'r argyfyngau ym myd natur, yr hinsawdd a'r economi.



### Lleoedd gwydn

Mae'r lleoedd hyn yn gynaliadwy yn ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol i'r dyfodol, ac yn darparu mynediad da at dai, cyflogaeth a gwasanaethau i ddiwallu anghenion y gymuned. Maen nhw'n llai dibynnol ar gadwyni cyflenwi allanol am hanfodion yn sgil y cynnydd yng nghynnyrch ynni adnewyddadwy, cyflenwad bwyd lleol a chyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol.

### Lleoedd llewyrchus

Mae'r lleoedd hyn wedi cynyddu'u cyfran o'r cyfoeth cymunedol a gynhyrchir yn yr economi leol trwy ddatblygu'r economi sylfaenol, mentrau cymdeithasol a'r economi werdd.

### Lleoedd ysbrydoledig

Mae'r lleoedd hyn yn adeiladu ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a'n dynodiadau rhyngwladol sy'n dathlu diwylliant, treftadaeth, yr amgylchedd naturiol a'r Gymraeg.

### Lleoedd wedi'u cynllunio'n dda

Mae pawb yn teimlo cysylltiad â'u lle ac mae hyn o fudd i iechyd a llesiant pobl. Mae ein lleoedd yn darparu amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sy'n rhoi man diogel i'n preswylwyr ac ymwelwyr gwrdd, byw, gweithio, chwarae a chysylltu â'i gilydd. Gall ein busnesau ffynnu trwy gysylltu â phobl, gwasanaethau a seilwaith.

### Lleoedd arloesol

Mae'r lleoedd hyn yn meddu ar rwydweithiau cysylltiedig o ddinasyddion sy'n cydweithio'n arloesol â busnesau a sefydliadau allweddol er mwyn cynnig atebion i heriau sy'n seiliedig ar le.

### **Lleoedd hanesyddol**

Mae amgylchedd diwylliannol a hanesyddol y lleoedd hyn mewn cyflwr da, yn cael ei werthfawrogi, ei ddathlu a'i ddeall yn well gan drigolion ac ymwelwyr. Mae synergedd rhwng tirwedd y Parc Cenedlaethol a'n parciau, ein gerddi hanesyddol, ein ffermydd hanesyddol, a'n bythynnod gwledig, ac mae hynny'n sail i'n dealltwriaeth a'n rheolaeth o Le.

### **Lleoedd canolog**

Mae ein trefi marchnad hanesyddol yn cael eu hadfywio i fod yn ganolfannau bywiog a hyfyw ar gyfer y dyfodol.

### **Lleoedd iach**

Mae'r lleoedd hyn yn rhoi'r modd inni gysylltu â'n harddwch naturiol i fod yn well, yn iach ac yn hapus. Rydyn ni'n gwasanaethu ac yn cefnogi ystod o opsiynau "gwyrdd" a chymdeithasol ar gyfer ein cymuned a thu hwnt

### **Lleoedd hardd**

Caiff ein harddwch naturiol ei warchod a lle bo angen ei adfer, fel y gall pawb werthfawrogi a charu ein tirwedd fawreddog.

### **Lleoedd sy'n cysylltu â natur**

Yn y lleoedd hyn, mae modd cysylltu'n feunyddiol â byd sy'n gyforiog o natur ac sy'n cael ei werthfawrogi.





# Ein Lleoedd Ni

Mae lleoedd ym Mannau Brycheiniog yn amrywio o gadwyni mynyddoedd i bentrefi bychain. Maen nhw'n gartrefi ac yn gymunedau, yn ecosystemau helaeth sy'n darparu dŵr neu aer glân y tu hwnt i'w ffiniau, ac yn rhwydweithiau ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd. Mae lleoedd yn siapio ein hunaniaeth, ein gweithrediadau a'n teimladau. Maen nhw'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau.



Yng nghyd-destun Y Bannau, gellir diffinio ein lleoedd yn fras o amgylch pedwar grŵp allweddol. Mae rhai o'r grwpiau hyn yn meddu ar bartneriaethau hirsefydlog, ac mae llawer o'r rhain wedi cyfrannu eu haddewidion eu hunain i gyflawni Cenhadaeth y Bannau a chewch ragor o fanylion yn y bennod nesaf ar Bartneriaid. Mewn meysydd eraill, mae cyfleoedd i ffurfio partneriaethau newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y modd y bydd y rhain yn datblygu dros oes y Cynllun hwn.

## Tirweddau

Ardaloedd gofodol eang sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu ein harddwch naturiol, ein hamgylchedd hanesyddol a'n hecosystemau gweithredol. Gall y tirweddau hyn fod yn seiliedig ar ucheldir fel Partneriaeth y Mynydd Du (gweler tud x), neu ddalgylch afon fel Partneriaeth Dalgylch Wysg (gweler tud x). Rydyn ni'n canolbwyntio ar y lleoedd hyn oherwydd y cysylltiadau hanfodol rhwng pobl a'r amgylchedd, y dreftadaeth ddiwylliannol a natur gyda'r nod o reoli'r rhyngweithiadau hyn er budd pawb.

## Trefi a phentrefi

Dyma'r aneddiadau lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Gallai'r rhain fod yn drefi fel Aberhonddu neu'n gymunedau ffermio llai a mwy gwasgaredig fel Llanddeusant. Rydyn ni'n canolbwyntio ar y lleoedd hyn oherwydd y bygythiadau sylfaenol sy'n wynebu cymunedau gwledig, gyda'r nod o sicrhau y gall y cymunedau hyn ffynnu am genedlaethau i ddyfod.

## Lleoedd pot mêl

Mae'r rhain yn lleoedd y mae pobl wrth eu boddau'n ymweld â nhw. Mae gan y lleoedd hyn rai rhinweddau arbennig sy'n eu gwneud yn ddeniadol ond gallant arwain at lefelau niweidiol o or-dwristiaeth – lleoedd fel Bro'r Sgydau. Rydyn ni'n canolbwyntio ar y lleoedd hyn oherwydd yr angen i reoli effeithiau negyddol yr ymwelwyr, a'u troi yn fanteision cadarnhaol i gymunedau a'r economi leol ac, ar yr un pryd, yn brofiadau cadarnhaol i ymwelwyr.

## Coridorau trafndiaeth

Mae'r Parc yn gartref i rai coridorau trafndiaeth allweddol sydd yn draddodiadol wedi bod yn fodd i symud ceir preifat o A i B. Ein ffocws ar y lleoedd hyn yw deall y modd y gall atebion trafndiaeth gynaliadwy helpu i gefnogi cymunedau, ymwelwyr a'r economi leol yn ogystal â'r trawsnewidiad i sero net.

# Cyfannol Cynlluniau Lle

Mae'r genhadaeth hon yn canolbwyntio ar gyd-greu a chyflwyno Cynlluniau Lle Cyfannol gyda chymunedau'r Parc Cenedlaethol.



Mae Cynllun Lle yn gydweithrediad rhwng cymunedau lleol a sefydliadau statudol, wrth iddynt gyd-greu gweledigaeth ar sail tystiolaeth ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chynllun gweithredu. Bydd yr union feysydd ffocws ac ymyrraeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth o faterion a chyfleoedd y lleoliadau unigol, ond gallent gynnwys, er enghraifft, gweithgaredd yn ymwneud â:

- Diogeledd bwyd yn y dyfodol, e.e. creu cadwyni cyflenwi bwyd lleol, newidiadau mewn defnydd tir.
- Sgiliau a swyddi yn y dyfodol, e.e. canfod anghenion hyfforddi ar sgiliau i feithrin gwytnwch cymunedol.
- Cysylltu â natur fel rhan o ddarpariaeth iechyd ataliol a gwella mynediad i fannau gwyrdd naturiol.
- Twristiaeth gynaliadwy, e.e. creu mynediad cynaliadwy i dwristiaeth yn yr ardaloedd dan bwysau.
- Lliniaru ac addasu'r hinsawdd, e.e. cynllunio ynni cymunedol.
- Gwella a gwarchod yr amgylchedd adeiledig a'i dreftadaeth.
- Cefnogi'r economi leol a mentrau cymdeithasol.
- Cydlyniant a llesiant cymunedol.
- Trafnidiaeth gynaliadwy, rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan.
- Creu Canol Trefi'r Dyfodol.



“

Pwyswch eich bysedd  
yn dynn ar y tywodfaen  
cen hwn. Cafodd y maen,  
y glaswellt a'r pridd  
eu gosod, eu llunio a'u  
hail-lunio yma. Mewn  
amrantiad, gallwch weld  
yn glir holl oesoedd y  
maen yn ochrau'i gilydd.

---

**Raymond Williams**

People Of The Black Mountains

Mae'r Parc Cenedlaethol yn dirwedd ddynodedig. Mae'n lle sydd wedi'i warchod oherwydd ei ansawdd golygfaol a'i brydferthwch cynhenid, ac mae'n ymglyffwrdd â'r teimladau dwfn hynny sydd gan bobl tuag at natur a harddwch naturiol.

Mae ein dynodiad yn deillio o gyfnod yn ein hanes lle'r oedd mynediad i dirweddau o'r fath yn anghyfartal ac yn rhanedig. Rhoddodd mudiad y Parciau Cenedlaethol yn y 1940au yr hawl i'r genedl gyrchu'r lleoedd hyn ar gyfer eu y buddion iechyd a llesiant, buddion yr oedd eu hangen yn ddifrifawr ar fyd oedd newydd brofi arswyd yr Ail Ryfel Byd.

Mewn byd ôl-COVID, rydym yn cydnabod bod angen y cysylltiadau hyn yn awr yn fwy nag erioed, ond yn sgil yr unfed ganrif ar hugain, fe wynebodd y Parciau Cenedlaethol gyfres o anghenion a gofynion dybryd eraill. Rôl y tirweddau hyn yn awr yw cefnogi'r dasg o adfer byd natur a dal carbon mewn ffyrdd na all lleoliadau trefol mo'u cyflawni. Gwnawn hyn er budd cenedlaethau'r dyfodol yn ein rôl fel adnodd i'r genedl. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Parc Cenedlaethol weithio'n galetach ac yn gallach fel lle, er mwyn cysylltu pobl a natur i sicrhau bod y ddau yn ffynnu mewn ffordd sydd o fudd i'r ddwy ochr, yn awr ac am byth.

Y cysyniad o Le yw angor ein cenadaethau, a dyna sy'n asio'r gwaith hwn ynghyd. Ein hymdriniaeth o Le sy'n peri inni weithio gyda'n gilydd i roi'r atebion ar waith, i ysgogi'r newid, ac i adeiladu dyfodol ar gyfer ein hinsawdd, dŵr, natur a phobl. Rydyn ni'n gweithio gyda'r bobl a'r asiantaethau sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn y lleoedd hyn, i wahanol raddau, er mwyn pennu'r heriau allweddol a chydweithio i ddod o hyd i'r atebion sy'n gweithio ar lawr gwlad. Wrth wneud hyn, rydyn ni'n ceisio mynd at wraidd yr hyn sy'n gwneud lleoedd yn fannau gwych i weithio, byw a chwarae ynddynt trwy ddarparu gwasanaethau ecosystem megis glanhau'r aer a'r dŵr, a chlo'i'r carbon.



## Gobaith Y Bannau

Rydyn ni wedi dewis datblygu'r genhadaeth hon trwy gynllunio lleoedd cyfannol gan fod hyn yn ymgorffori'r egwyddorion arweiniol y mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn eu harddel ar gyfer tirweddau gwarchoddedig fel Bannau Brycheiniog – sef, rheoli lleoedd gyda'r bobl a thrwy'r bobl, ac yn bennaf ar gyfer a chan y bobl.

Rydyn ni'n dathlu'r cynllunio ar y lefel leol hon fel proses o rymuso, wrth inni ddsbarthu awdurdod o'r gweithredwyr statudol i bobl y Parc Cenedlaethol.

Trwy'r gweithredu hwn y mae esgor ar arloesedd a chysylltiadau. Am hynny, mae'r uchelgais i ymgorffori'r broses o gynllunio lleoedd ar wahanol raddfeydd, mewn gwahanol fannau, yn hollbwysig i gyflawni pob un o'n Cenadaethau ni. Trwy'r cysylltiadau hyn, rydyn ni'n adeiladu rhwydwaith gwydn o leoedd llawn gobaith, yn barod i gwrdd â heriau'r unfed ganrif ar hugain

# Partneriaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy.



# Partneriaeth rhwng rhanddeiliaid trafnidiaeth a theithio allweddol i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy o amgylch y Parc a chyrraedd nodau datgarboneiddio.

## Helen Roderick

Rheolwr Rhanddeiliaid  
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

---

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n yn edrych ar ffyrdd o wneud teithio o amgylch Bannau Brycheiniog yn fwy cynaliadwy. Fel Parc Cenedlaethol, rydyn ni'n rasio i gyrraedd sero net erbyn 2030, ac mae trafnidiaeth yn achosi cyfran fawr o'n hallyriadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni greu Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy i nodi meysydd lle gallwn ddatgarboneiddio.

Rydyn ni'n gweithio o fewn y cyd-destun polisi cenedlaethol, gan alinio â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Strategaeth Cerbydau Trydan a Strategaethau Teithio Llesol.

Mae teithio yn cyfrif am 70% o ôl troed carbon ymwelwyr, a 31% o ôl troed carbon preswylwyr; felly, mae newid y ffordd yr ydyn i'n teithio yn rhan allweddol o'n taith tuag at ddatgarboneiddio. Bydd Cynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy yn lleddfu'r pwysau ar ein "safleoedd pot mêl", ac yn ei dro, ar ein cymunedau a effeithir gan ymwelwyr sy'n teithio mewn ceir yn bennaf. Er nad yw'n syndod, un o'r canfyddiadau cyntaf a ddaeth i'r amlwg wrth inni gasglu tystiolaeth yw bod parcio a rheoli traffig yn anodd, a bod amllder y drafnidiaeth gyhoeddus yn dameidiog.

Rydyn ni'n dibynnu ar weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein nodau ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, gan mai ychydig iawn o bwerau sydd gennym dros y ddeddfwriaeth berthnasol. Rydyn ni'n ymgynnull partneriaid fel ein Hawdurdodau Lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i lunio ein dull gweithredu. Mae hwn yn gyfle gwych i weithio gyda nifer o sefydliadau, a chan fod cynifer o bobl eisoes yn ymwneud â thrafnidiaeth o amgylch y Parc, bydd dod o hyd i gysondeb a dulliau o weithredu ar y cyd yn wirioneddol allweddol.

Ein nod, yn syml, yw sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn meddu ar drafnidiaeth hygyrch a charbon-isel, heb fod yn niweidiol i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno.

Ar hyn o bryd, rydyn ni wrthi'n casglu ein tystiolaeth sylfaenol, yn edrych ar y wybodaeth a'r ffeithiau a fydd yn ein helpu i lunio ein gweledigaeth, ac yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith. Byddwn yn treialu "parcio a theithio" rhwng Merthyr ac Aberhonddu a fydd yn cwmpasu rhai o'n manau prysur fel Pen-y-Fan, a byddwn hefyd yn edrych ar y dechnoleg sydd ar gael i ganiatáu parcio rhwydd.



# Hwb Y Gors.



# Hwb cymunedol di-garbon ar gyfer y celfyddydau, addysg a menter.

## Emily Hinshelwood

Cyfarwyddwr Creadigol

Awel Aman Tawe

Mae Awel Aman Tawe yn elusen gymunedol sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Fe'i sefydlwyd ym 1998 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi cymunedau cadarn. Rydyn ni wedi sefydlu'r ddwy gydweithfa ynni adnewyddadwy fwyaf yng Nghymru: Cydweithfa Awel a Chydweithfa Egni. Mae'r rhain yn cynorthwyo ysgolion a sefydliadau i leihau eu hallyriadau carbon a dod yn fwy gwydn. Rydyn ni hefyd yn trosglwyddo cannoedd o filoedd o bunnoedd yn ôl i'r gymuned trwy brosiectau amgylcheddol ac addysg hinsawdd.

Y syniad y tu ôl i Hwb y Gors yw creu hwb cymunedol sy'n ymroddedig i adeiladu cymuned ddi-garbon. Credwn bod modd inni ffrwyno ein hallyriadau carbon trwy newidiadau sy'n hwyl, yn greadigol, yn iach ac yn fwy na dim, yn dod â'r gymuned ynghyd.

Rydyn ni am i'r Hwb gadw'r bwrlwm a'r clebran a fu yn y dyddiau pan oedd yn ysgol, ac rydyn ni am iddo fod yn ofod ar gyfer syniadau, creadigrwydd, twf a magwraeth. A dylid cyflawni hyn oll ag ôl troed carbon isel: system solar 90kW ar y to, cynllun gwresogi 50kW o'r ddaear, insiweiddiad corc a rendrad calch traddodiadol.

Mae'r Hwb yn rhoi ffocws cryf ar y celfyddydau oherwydd credwn fod ganddynt – trwy waith byrfyfyr, chwarae a dychymyg – ran sylweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ac rydyn ni am adeiladu partneriaethau cadarnhaol â sefydliadau eraill sydd â'r un awydd i sicrhau dyfodol cadarnhaol, moesegol a chynaliadwy.

Mae'r gymuned yn cymryd rhan weithredol mewn rhannau o'r gwaith adnewyddu; er enghraifft, rydyn ni wedi dadorchuddio 62 o ffenestri oedd wedi'u concritio. Rydyn ni'n gweithio gyda'r artist gwyrdd Lliw Simon Howard-Morgan sy'n cynnal gweithdai gyda 62 o gyfranogwyr i greu paneli gwyrdd Lliw newydd ar gyfer y ffenestri hyn. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda dros 150 o bobl i greu cwilt treftadaeth ar gyfer y caffi sy'n delweddu'r ysgol a hanes yr ardal.

I fod yn llwyddiant, bydd Hwb y Gors yn hwb ffyniannus i'r gymuned leol a thu hwnt. Rydyn ni am i'n cymuned fod yn esiampl i'r byd o'r modd y gallwn ni droi i fod yn ddi-garbon yn ogystal â gwella ein llesiant, ein gwytnwch a'n rhagolygon hirdymor.

Bydd Hwb y Gors yn cynnal caffi trwsio, llyfrgell o bethau, cynllun trafndiaeth gymunedol yn ogystal â chynnal rhaglen eang o weithdai sy'n helpu pobl i weithredu ar yr hinsawdd ym mhob rhan o'u bywydau.

Rydyn ni'n cynnwys y gymuned o'r cychwyn cyntaf, gan annog pobl i ymgysylltu â rhannau o'r gwaith adeiladu a'r broses o wneud penderfyniadau. Fel ysgol, mae gan yr adeilad 110 mlynedd o atgofion ac fe wnawn yn siŵr fod pobl yn parhau i deimlo fel eu bod yn gofalu amdani ac yn berchen ar ei dyfodol.

Rydyn ni hefyd am adeiladu partneriaethau â chymunedau a sefydliadau y tu hwnt i'r ardal leol. Fe wyddom fod mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn golygu bod yn rhaid inni weithio gyda'n gilydd, rhannu adnoddau, a gwneud cysylltiadau. Rydyn ni eisiau rhannu ein gwybodaeth a dysgu gan eraill.

Rydyn ni'n agos at Y Bannau ac yn rhagweld y bydd digon o botensial ar gyfer gweithio ochr yn ochr â'r Parc Cenedlaethol - yn enwedig gydag ein rhaglen Natur Bositif sy'n anelu at greu gardd adferol, gynaliadwy a bwytadwy ar faes chwarae Hwb y Gors.

## Perthynas â rhaglen y bannau.

I ni, mae rhaglen Y Bannau yn cynnig gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer newid. Mae'n credu yn y posibiladau a ddaw wrth gefnogi pobl i gymryd y camau cywir ac wrth ddychmygu dyfodol y mae arnom ei eisiau a'i angen.



# Ein Cyfraniadau

*'Cartref yw lle mae'r galon'* – mae gan bob un ohonom gysylltiad cryf â lleoedd ac mae pob man yn arbennig gyda chryfderau, adnoddau a nodweddion unigryw. Rydyn ni'n cydnabod bod pob lle yn wahanol a thrwy ddeall y lle, gallwn gynorthwyo'r bobl yno i ffynnu ac i gefnogi eu hamgylchedd naturiol.

Ein rôl felly yw defnyddio'r data, y sgiliau a'r partneriaethau i gysylltu â phobl yn eu lleoedd a gweithio gyda nhw i gynllunio, gweithredu a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Mae ein cyfraniad at y "genhadaeth lle" i'w gweld yn y pum maes allweddol canlynol:

1. Byddwn yn defnyddio ein data a'n tystiolaeth i fapio a deall y lleoedd yr ydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli, fel y gallwn gynorthwyo'r rhai sy'n gweithio gyda ni i reoli'r lleoedd hyn ar gyfer pobl, treftadaeth ac adferiad byd natur.
2. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoedd sy'n adeiladu ar nodweddion arbennig eu hardal, er mwyn gwella ansawdd bywyd, cefnogi llesiant economaidd a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.
3. Byddwn yn sicrhau bod mannau arbennig y Parc Cenedlaethol - ein Geoparc, Awyr Dywyll, Safle Treftadaeth y Byd, Canolfannau Ymwelwyr, mannau o bwys ar gyfer diwylliant, treftadaeth, hamdden ac amgylcheddau gwarchoddedig - yn cael eu rheoli i fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn enghreifftiau o natur a phobl yn cysylltu ac yn ffynnu gyda'i gilydd.
4. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i uno lleoedd a gwneud cysylltiadau o fewn a thu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Byddwn yn mynd â rhyfeddod y Parc Cenedlaethol at y bobl a byddwn yn helpu ymwelwyr, busnesau a thrigolion i ddeall, dathlu a gwerthfawrogi nodweddion a lleoedd arbennig y Parc Cenedlaethol.
5. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r economi leol ac yn datblygu trafndiaeth gynaliadwy a fydd o gymorth i greu lleoedd gwydn a ffyniannus.

# E-bost oddi wrth Mair Brychan at weddill y teulu

**Dyddiad: 8 Mawrth, 2042**

**Testun: Tad-cu yn cael y gair olaf ...**

## I fy nheulu annwyl

Mae mis bellach ers i Ioan goll'i fywyd. O'r diwedd, deuthum i glirio ei swyddfa a dod o hyd i hyn ar ei ddesg o dan rai papurau newydd. Bu ond y dim iddo gael ei roi yn y bin! Afraid dweud, fe barodd imi wylo, ond fe lanwodd fi hefyd â gobaith a diolchgarwch.

Ta p'un i, rwy'n mynd â Brân am dro nawr (yr unig un a adawodd allan o'r gerdd!). Rwy'n meddwl y byddwch chi i gyd yn ei gwerthfawrogi'r gerdd.

Am unwaith, gadawaf iddo fe gael y gair olaf ...

**Welwn ni chi cyn bo hir**

**Nain**

## Ffagl

Saith yn dringo'r bryn mewn tywyllwch a thawelwch,

Mewn adnoddau, mae gennym y nerth Er inni dybio ein bod ni'n ddiffygiol.

Pob un â'i atebion, dymuniadau, pryderon ac edifeirwch.

Mae Megan yn tanio angerdd a balchder yn ei phobl a'i chymdogaeth

Heno, fe gyneuwn un ffagl yr un fel symbol o'r hyn a fwriadwn.

Lle mae gweithredoedd yn bwysicach na man genedigaeth.

Saith o danau preifat ynghyn am bob neges a anfonwn.

Mae fy fflam fy hun yn crynu wrth gofio'r chwedlau, y geiriau a'r gwaith celfyddydol.

Wrth oleuo'r bryniau, mae Siân yn ein rhybuddio O'u byrhoedledd, ac o'r dwylo sydd wedi'u llunio.

Mae gwersi mewn hen straeon, ond ni allwn fyw yn y gorffennol.

Mae golau Mair yn dathlu natur yn ei hanterth A chlywn ei chân am ryddid a nawdd – dysgwn ei nodau prydf berth.

Rwy'n gadael y bryn ac yn troi tuag adre – rwy'n oer a blinedig.

Mae Dylan yn adeiladu goleudy i'r rhai sy'n brwydro yn y tywyllwch, Yma cewch loches, os gofynnwch.

Mae'r esgyrn yn hen ac rwy'i mor lluddedig.

Mae Maia'n adeiladu ffwrnais ac mae grymuster Y tân yn cynhesu ac yn maethu, a'r fflamau'n magu gwytnwch a dewrder.

Wrth edrych yn ôl, mi welaf y bryn yn goleuo'r nos yn ddisglair - saith tân ynghyn mewn un pair.

Mae Dafydd yn cynnau coelcerth I losgi'r amheuon sy'n ein dal yn ôl.

Awn i fyny mewn tywyllni, Down i lawr mewn goleuni.



# Cerdyn Post o 2047

Gweledigaeth  
Gavin Hogg

Ystâd Pen-pont



Es i allan ar fy meic trydan gynnau fach. Fel rhan o'i nodweddion blaengar, mae gan y Parc Cenedlaethol barthau di-gerbyd, gyda rhai ffyrdd yn cael eu defnyddio fel llwybrau beicio erbyn hyn. Mae'r hen reilffordd drwy'r Parc wedi'i hadfer ac mae tramiau trydan yn gwasanaethu'r ardal leol, ac yn cysylltu'r Parc â'r byd tu allan.

Fel preswlydd, rwy'n hoffi beicio - mae'n rhoi'r ymdeimlad o ryddid i mi. Gallaf fynd ar fy nghyflymder fy hun, a stopio bryd bynnag y dymunaf. Rwy'i wrth fy modd yn teimlo'r aer a'r haul ar fy nghroen, a'r gwynt yn fy wyneb. Ni fu'r hen Fendith Geltaidd erioed yn fwy addas!

Rwy'n clywed distawrwydd. Clywaf lais natur. Clywaf adar yn galw ac yn canu. Eryr aur yn gwichian fry yn yr awyr uwch fy mhen. Roeddent yn gyffredin ar hyd a lled Cymru yn y 1800au, a chawsant eu hailgyflwyno'n llwyddiannus i'r Parc 10 mlynedd yn ôl. Clywaf y gwynt yn siffrwd trwy ddail y coed. Mae yna lawer mwy o goed nawr, a gyda newid hinsawdd mae llawer o rywogaethau gwahanol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus i gymryd lle'r stoc gynhenid a ddiodefodd yn drasig o sawl pandemig a'u tarodd yn y 2020au.

Rwy'n stopio ar groesfan afon. Mae'n rhedeg yn glir ac yn lân, ac mae sŵn y dŵr yn crychdonni yn llenwi fy nghlustiau. Clywaf swsial mawr yn y dŵr a sylwi ar ddyfrast yn chwarae gyda'i chenau yn y manau bas. Mae adar y dŵr yn canu o'r isdyfiant a'r glannau, mae telor y gors yn gwibio drwy'r brwyn yn y gors gyfagos. Ers i'r traffig gael ei reoli, mae'r seinwedd glywedol yn gyforiog o synau natur. Mae'n hyfryd cael profi hyn nawr.

Mae arogl o flodau diwedd haf yn yr aer. Mae'r cloddiau'n llawn o erwain, gwyddfid a malws yn eu blodau. Mae newidiadau mewn dulliau amaeth-ddiwylliannol wedi golygu bod y gwrychoedd yn mynd yn wylltach o lawer ac yn fwy toreithiog o ran blodau, aeron a phryfed. Mae'r grug ar y rhos uwch fy mhen yn dechrau blodeuo. Mae gwenyn allan yn casglu unrhyw neithdar sydd ar ôl ar ddiwedd y tymor.

Wrth i'r tymor nesáu at ei derfyn, mae gwair yn cael ei dorri ar y dolydd blodau gwylltion, ac mae arogl bendigedig o lysiau sych yn treiddio drwy awyr yr hwyrnos wrth i'r haul droi'r tirlun yn aur. Mae'r tractor trydan yn troi'r gwair yn dawel, gan chwythu pryfed a llwch o'i gwmpas ac yn adlewyrchu golau euraidd yr hwyr. Mae'r palalwyf a'r castanau pêr wedi'u plannu yn arddull y safana, ac maent yn eu blodau gyda'u canopiau yn hymian â bywyd a'r aer o'u cwmpas yn felys ag arogl pail.

Rwy'n diosg fy nillad ac yn dod o hyd i dwll nofio yn Afon Wysg. Mae'r dŵr yn hyfryd lân, ac yn oer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r dŵr croyw yn bywiogi fy nghroen ac wrth i mi orwedd ar draethell yn hanner arnofio, rwy'n sylu ar yr awyr las uwch fy mhen. Rwy'i mewn heddwch llwyr - ni all dim byd guro'r teimlad hwn. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd mai Afon Wysg yw'r afon lanaf yng Nghymru, ac mae nythfa o fisglod dŵr croyw wedi dychwelyd i fyw yn rhannau uchaf yr afon yn llwyddiannus. Mae'n gyforiog o fywyd ac rwy'n teimlo'n ffodus o fedru rhannu hyn gyda'r holl greaduriaid eraill sydd wedi ymgartrefu yma.

Wrth i mi adael y dŵr, mae rhywbeth yn dal fy llygad. Rwy'n estyn i lawr ac yn codi gwrthrych bach sillindrog hir. Rwy'n eitha siŵr ei fod e'n rhyw fath o dom. Rwy'n edrych ar fy ffôn ac mae'n cadarnhau fy marn mai baw afanc yw hwn. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae afancod wedi ymgartrefu yn rhannau uchaf Afon Wysg. Gan eu bod yn anifeiliaid nosol, maent wedi bod yn anodd eu gweld, ond mae'r dystiolaeth hon yn cadarnhau eu presenoldeb yn y rhanbarth. Mae grŵp o reolwyr tir a ffermwyr wedi bod yn cydweithio ar brosiect i ail-wylltio'r dirwedd yn nyffrynnoedd Wysg uchaf ac mae'n bleser dechrau gweld ffrwyth eu llafur.

Rwy'i wedi bywyn y Parc ers dros 50 mlynedd bellach, ac wedi gweithio ar y tir am yr holl amser hwnnw, gan gysegru fy ngwaith i gadwraeth y tir a'r coetiroedd ac i amaethyddiaeth organig. Rwy'n hapus i weld bod ymdrechion y gymuned ffermio o'r diwedd yn dechrau gwrthdroi'r duedd o golli bioamrywiaeth. Mae meddylfryd adnewyddol wedi dod i'r amlwg a

natur o'r diwedd yn cael ei gwerthfawrogi; nid ydym bellach yn sôn am Gynnyrch Domestig Gros; yn hytrach, rydyn ni'n cyfeirio at Dwf Cyfalaf Naturiol. Mae wedi cymryd degawdau i symud oddi wrth arferion anghynaliadwy, ac mae'r canolfannau addysgiadol a'r colegau newydd yn y Parc yn darparu cyfleoedd cyffrous i'r nifer cynyddol sy'n perthyn i'r genhedlaeth ddiweddaraf o weithwyr a rheolwyr tir.

Rwy'n hapus iawn i fod yn dyst i'r newid hwn, gan wybod y bydd yr amgylchedd ar fy ôl yn meddu ar galon sy'n curo'n gryf, ac yn darparu ffyniant i baw sy'n galw'r lle hwn yn gartref. "Oedd, roedd e'n werth e."

Mae ymdrechion pawb gyda'i gilydd wedi creu brithwaith toreithiog ac amrywiol o gynefinoedd sydd bellach yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o fflora a ffawna - llawer cyfoethocach nag yn 2022.

Mae systemau ffermio wedi newid yn sylweddol - bellach, rydyn ni'n cydweithio mewn clystyrau, ac yn rhannu syniadau, offer a llwythi gwaith. Mae Llywodraeth Cymru o'r diwedd wedi dod o hyd i'r cydbwysedd cywir, gan gefnogi amaethyddiaeth i gynhyrchu bwyd sy'n cynnwys llawer o faetholion ac amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r hen systemau caeau wedi cael eu hadfer, gyda gwrychoedd blêr yn hafanau i fywyd gwyllt. Mewn ardaloedd eraill, mae tir caeedig wedi'i agor i diroedd gwyllt helaeth, lle mae da byw yn cael eu monitro trwy rwydweithiau ardal lleol a dyfeisiau olrhain GPS. Mae gwrychoedd wedi dod yn hafanau gwyllt, gan orlifo a chreu cysgod a chynefin. Mae anifeiliaid yn pori mewn "systemau safana" ac yn cael eu monitro am eu heffaith ar y tir bob adeg o'r flwyddyn. Bellach, mae dolydd blodau gwyllt yn doreithiog drwy'r Parc, ac mae llawer mwy o goed wedi'u plannu, gan feddiannu tua 30% o'r tir erbyn hyn.

Mae llawer mwy o byllau a gwlyptiroedd, ac mae hyn wedi newid y dirwedd yn sylweddol, gan gynnig mwy fyth o fanteision i bawb.



Bellach, mae cymunedau dynol y Parc yn llawer mwy hunangynhaliol, ac erbyn hyn mae bwyd lleol yn cyflenwi 80% o anghenion y gymuned. Mae ysgolion a chanolfannau cymunedol newydd wedi'u hadeiladu, sy'n rhwymo pobl wledig at ei gilydd, ac yn darparu cyfleoedd i'r cenedlaethau iau.

Mae gwneud y newidiadau wedi bod yn her aruthrol i bawb. Gyda chymorth rhai arweinwyr deinamig a chysylltiadau cymunedol cryf, datblygwyd ffordd newydd o fyw. Mae wedi creu amgylchedd llawer mwy iach ac egnïol i fywyd, ac am ddegawdau i ddyfod.

**“Oedd, roedd e’n werth e.”**





Partneriaid

“

Mae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i gyflawni datblygiadau cynaliadwy o fewn y Parciau Cenedlaethol oherwydd yr ystod o fuddiannau sy'n ymgynnull yno. ymgynnull yno.

## Canllawiau Ar Gyfer Cynlluniau Rheoli Parc Cenedlaethol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru [2007](#)

Nid ydym yn gweithio ar ein pennau ein hunain wrth gyflawni ein cenadaethau.

Rydyn ni'n dibynnu ar gymorth, arbenigedd, cyngor a sgiliau ymarferol gan amrywiaeth o bartneriaid sy'n gweithio gyda ni tuag at yr un nodau.

Drwy gydol y Cynllun hwn, rydyn ni wedi arddangos amrediad o brosiectau sy'n dangos y math o weithredu sydd ei angen ar raddfa fawr os ydym am gyflawni ein gweledigaethau (gweler Sêr y Bannau). Erbyn hyn, hoffem arddangos y partneriaethau yr ydym am weithio gyda nhw i ddatblygu'r camau manwl sydd eu hangen i greu'r newidiadau angenrheidiol.

Teimlwn yn freintiedig iawn o gael gweithio gydag ystod ac amrywiaeth mor eang o bartneriaethau, a chredwn ei fod yn dyst i'r ymrwymiad a'r angerdd a deimlir tuag at Fannau Brycheiniog gan gynifer o wahanol bobl a sefydliadau.

Mae rhai o'r partneriaethau hyn (fel ein Partneriaeth Natur Leol er enghraifft) yn canolbwyntio ar bwnc penodol ac yn derbyn ffrydiau ariannu penodol i weithredu. Mae eraill wedi'u grwpio o amgylch ardaloedd gofodol (er enghraifft, Meithrin Mynydd), ac yn mynd i'r afael â'r ehangder o faterion a deimlir yno. Yn y modd hwn, rydyn ni'n gallu dosbarthu awdurdod a dirprwyo penderfyniadau i'r lefel fwyaf lleol posibl, yn unol â'r arferion gorau a ddefnyddir i reoli tirweddau gweithredol byw fel y Parc.

Mae datblygu, cefnogi a gweithio o fewn partneriaethau iach yn un o amcanion allweddol y Cynllun hwn ac yn un o werthoedd hollbwysig ein sefydliad. Ymdrechwn i wneud penderfyniadau ar y cyd lle bynnag y bo modd, gan roi gwerth ar feithrin perthynas fel rhywbeth sy'n greiddiol i lwyddiant, a sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau wedi'u cynnwys yn y cydlynio.



## Cyflawni'r cynllun gyda'n gilydd

Diffinnir gweithio mewn partneriaeth gan y Cenhedloedd Unedig fel:

*Perthynas gydweithredol barhaus rhwng neu ymhlith sefydliadau o wahanol fathau o randdeiliaid sy'n alinio eu buddiannau â gweledigaeth gyffredin, gan gyfuno eu hadnoddau a'u cymwyseddau cyflenwol a rhannu risg, er mwyn creu'r gwerth mwyaf posibl a sicrhau budd i bob un o'r partneriaid.*

O fewn y tudalennau hyn, rydyn ni'n nodi bod y Partneriaethau canlynol yn arwyddocaol i gyflawni Cenhadaeth y Bannau. Mae pob adran wedi'i datblygu gan y Partneriaethau eu hunain, yn eu geiriau eu hunain, gyda phob partneriaeth yn endid ynddo'i hun.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a gobeithiwn y bydd modd inni ei diweddarau yn ystod cwrs y cynllun, wrth i bartneriaethau newydd ffurfio a datblygu. Am y tro, rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r canlynol am eu hymrwymiad i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gweledigaeth y Cynllun hwn:

- Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon
- Bwrdd Awyr Dywyll
- Partneriaeth Rheoli Cyrchfan
- Partneriaeth Rheoli Geoparc
- Partneriaeth Amgylchedd Hanesyddol
- Partneriaeth Natur Leol
- Meithrin Mynydd
- Partneriaeth Dalgylch Afon Wysg
- Partneriaeth Bro'r Sgydau

# Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon

---

Partneriaeth arloesol,  
drawsffiniol, ar raddfa  
dirweddol sy'n darparu  
gwelliant a rheolaeth barhaus  
ar gyfer ardaloedd ucheldirol  
y Mynyddoedd Duon



## Phil Stocker

Cadeirydd partneriaeth defnydd tir y mynyddoedd duon

Sefydlwyd y bartneriaeth hon drwy Gronfa Natur Llywodraeth Cymru yn 2015. Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo adferiad a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau a chynefinoedd naturiol y Mynyddoedd Duon ac mae'n fforwm ar gyfer trafod a chydweithio ar reolaeth, cynaliadwyedd a chadwraeth y Mynyddoedd Du yn awr ac yn y dyfodol.

Nod y bartneriaeth yw gwella ansawdd cynefinoedd amaethyddol ac amgylcheddol, hyrwyddo ethos cynaliadwy a chyfrifol ar gyfer ymwelwyr, gwarchod a chadw ei chyfalaf naturiol megis Dŵr, Pridd, Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth, a gwella llesiant a chadernid economaidd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal eiconig hon.



Mae Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon (y BMLUP) yn cynnwys porwyr sy'n byw ac yn gweithio ar y Mynyddoedd Duon ac yn rheoli da byw yno. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr mawr yr ardal, megis Ystâd Glanwysg, Ystâd Tregoyd ac Ystâd Bal Mawr/Bal Bach i enwi ond ychydig. Mae cyrff rheoleiddio gan gynnwys APCBB, Dŵr Cymru, CNC a Chlwb Ffermwyr Ifanc hefyd yn bresennol, ynghyd â chynrychiolaeth o'n cymuned leol.

Mae'r Bartneriaeth a'i hardal yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ucheldiroedd i'r gogledd a'r dwyrain o Grucywel, hyd at a chan gynnwys y Gelli Gandryll, ac i'r gorllewin o Craswall a Longtown. Mae'r ardal yn gorchuddio 24,600ha, gyda thua thraean ohoni'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig.

Rydyn ni'n hyrwyddo'r gwaith o adfer a rheoli adnoddau naturiol ein tir mewn modd cynaliadwy, gan weithio i sicrhau bod y rhain yn dod â manteision lu i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yma. Ein nod yw sicrhau newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol trwy weithredu arferion rheoli tir cydweithredol a chynaliadwy yn y Mynyddoedd Duon.

## Ein hamcanion yw:

- Gwella ansawdd cynefinoedd gan gynnwys adfywio grub.
- Cynyddu arwynebedd ac ansawdd y tir pori.
- Rheoli erydiad ar safleoedd strategol.
- Sefydlogi adnoddau mawn.
- Darparu ffynhonnell o ddeunyddiau i'w defnyddio ar gyfer gwaith adfer mewn ardaloedd mawn/pridd mwynol sydd wedi erydu er mwyn gwella cyflwr y corysdd.
- Gwella mynediad mewn lleoliadau strategol yn enwedig o amgylch mannau troi-allan i'w gwneud yn haws i ryddhau stoc ar y bryn a gwella profiad yr ymwelwyr.
- Darparu'r modd ar gyfer ymaddasu i newid hinsawdd a lliniaru'i effeithiau er mwyn gwella cysylltedd yr ecosystemau, y fioamrywiaeth a'r bywyd gwyllt.
- Hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bori traddodiadol a chyfoes, gwaith cadwraeth, ac arferion rheoli ucheldir eraill a ddefnyddir ar y bryn ynghyd â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.
- Hyrwyddo a chefnogi llesiant a chadernid economaidd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal ac annog ymweliadau diogel a chynaliadwy â hi.
- Gwarchod a meithrin treftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Casglu, cofnodi, coladu a rhannu data a thystiolaeth sy'n ymwneud â rheolaeth gynaliadwy y Mynyddoedd Duon.

## Rôl y Bartneriaeth yw:

- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy y Mynyddoedd Duon.
- Meithrin cyfathrebu da rhwng grwpiau buddiant er mwyn cydlynw'r dasg o wireddu pwrpas y Bartneriaeth.
- Cydweithio ar gynigion ariannu ac, os yw'n briodol, eu llunio ar gyfer blaenoriaethau a bennir gan y Bartneriaeth.
- Ceisio cyllid ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo amcanion y Bartneriaeth.
- Arwain y gwaith o weithredu cynlluniau a ariennir i hyrwyddo amcanion y Bartneriaeth.
- Monitro effeithiolrwydd y cyfryw gynlluniau a gwerthuso'u heffaith

Mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio'n fawr ar ddulliau gweithredu ac arloesi. Rydyn ni wedi cael llwyddiant sylweddol ers ein sefydlu. Rydyn ni wedi rhoi gwelliannau rheoli tir ar waith (ail-wlychu ac ailddyfu 60ha o fawndir, adfer 1500 metr o lwybrau troed a llwybrau ceffylau, a rheoli rhedyn dros ardal o 400ha); datblygu sgiliau (buddsoddi dros £45,000 mewn hyfforddiant sgiliau gwledig, ymgysylltu â thros 500 o blant ysgol); a hyrwyddo ymweliadau cynaliadwy diogel â'r ardal (creu ystod o gynlluniau llysgenhadon, cyhoeddi arweinlyfr ac adnoddau ar-lein). Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd: mae rhaglen Y Bannau yn darparu fframwaith trosfwaol sy'n cyd-fynd yn dda â'n blaenoriaethau i symud ymlaen ymhellach yn y dyfodol.

# Awyr Dywyll.

Cynnal a gwella'r awyr dywyll  
ym Mannau Brycheiniog



# Bwrdd Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Cyflawnwyd statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (IDSR) ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2013. Ffurfiwyd Partneriaeth Bwrdd Awyr Dywyll yn syth wedyn i weithio ar gynnal y statws. Ers ei ffurfio, pwrpas y Bwrdd fu cynnal ei statws IDSR. Mae'r Bwrdd wedi esblygu yn y cyfamser ac wedi cytuno mai ei brif amcan yn awr yw cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol yn y nos. Mae enw'r Bwrdd (Bwrdd Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), a'i aelodaeth bellach yn adlewyrchu'r ffocws hwn hefyd.

## Pwy ydyn ni?

Mae ein haelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Seryddol Brynbuga, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Fynwy.

## Ein pwrpas craidd

Nod y Bwrdd Awyr Dywyll yw amddiffyn a gwella'r awyr dywyll ac amgylchedd y nos. Ein hardal ffocws yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn ceisio diogelu a chynnal Byffer Allanol o amgylch y ffin hon i atal golau rhag gorlifo i'r ardal warchoddedig.

Ein nod yw gwneud hynny trwy weithredu ac eiriol mewn modd cyfannol fel y gellir amlygu pwysigrwydd yr awyr dywyll i fywyd gwyllt, natur, iechyd dynol, yr hinsawdd, yr economi ac addysg.

## Ein gweledigaeth

Creu awyr o dywyllwch naturiol yn y nos ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; drwy hynny, fe ddaw lluoedd fuddion yn ei sgil tra byddwn yn diogelu'r amgylchedd ac yn rhannu'r ymdeimlad o ymgysylltiad cyntefig ac o ryfeddod.

Mae llwyddiant y Bwrdd yn cael ei fesur yn nhermau cadw statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Eisoes, mae'r cyflawniad hirsefydlog hwn wedi cefnogi a hyrwyddo Bannau Brycheiniog am ansawdd ei amgylchedd nosol.

## Heriau'r dyfodol

Mae gwaith y Bwrdd yn gwbl wirfoddol a chaiff ei gyflawni trwy gyd-drafod a chytundeb. Nid oes gan y Bwrdd na sefydliad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bŵer statudol i fynnu gwelliannau i oleuadau, ac ni all reoli datblygiad o amgylch ei ffiniau ychwaith. Gan hynny, tasg y Bwrdd yw hyrwyddo'r manteision a ddaw yn sgil gwella a chadw awyr dywyll.

## Camau gweithredu'r dyfodol

Ochr yn ochr â'n hamserlen bresennol o waith allgymorth ac addysgiadol rydyn ni, gyda Swyddogion y Parc Cenedlaethol, yn gweithio tuag at ddau ddyhead hirdymor:

1. Awyr y nos ac amgylchedd nosol o ansawdd uchel wedi'u hen ymsefydlu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac yn cael eu gwerthfawrogi'n lleol ac yn genedlaethol am y buddion a ddaw yn eu sgil.
2. Mae gwerth a phwysigrwydd tywyllwch yn gyffredin yng Nghymru erbyn hyn gyda mesurau rheoli goleuadau eang yn eu lle ac yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru

# Y Bannau.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd y Cynllun Rheoli i'n gwaith, ac wedi bod yn ymwneud â'r datblygiad ers llunio'r Weledigaeth a'r Amcanion, pan gyflwynwyd Tywyllwch gyntaf fel un o nodweddion arbennig y Parc. Edrychwn ymlaen at weithio gyda swyddogion y Parc yn y dyfodol ar brosiectau sy'n rhannu nodau mewn perthynas â'r amgylchedd nosol.



# Grŵp Rheoli'r Geoparc.

---

Ni yw'r grŵp rheoli ar gyfer yr ardal a ddynodwyd yn Geoparc byd-eang ac sy'n cwmpasu hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol. Mae'r grŵp yn dod â sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat, addysgol ac elusennol ynghyd, i gefnogi twristiaeth gynaliadwy, addysg a geocadwraeth.



Rydyn ni'n rhan o'r mudiad geoparciau byd-eang sy'n gweithredu "o'r gwaelod i fyny". Dechreuodd y mudiad yn y 2000au cynnar a bellach, mae tua 180 ohonynt ledled y byd, gyda dim ond 9 yn y DU. Cawsom ein derbyn i Rwydwaith Geoparciau Ewrop yn 2005, a daeth yn brosiect UNESCO yn 2016. Er mai APCBB yw'r partner arweiniol, rydym yn cydweithio â CNC, y byd academiaidd, cyrff masnach a gweithgareddau awyr agored, cyrff bywyd gwyllt a threftadaeth, a'r rheiny sy'n cynrychioli haenau amrywiol o lywodraeth leol, am eu harbenigedd, eu persbectif a'u cyllid.

---

**Ein rôl**

Ein prif nod yw gwarchod a hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach o'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol yn hanner gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac annog datblygiad economaidd priodol yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd cadarn.

**Ein gweledigaeth**

Ein gweledigaeth yw cymunedau bywiog sy'n bodoli mewn cytgord ag ecosystemau iach, ac sy'n croesawu ymwelwyr pan ddônt â manteision yn hytrach na phroblemau pellach. At hynny, bydd trigolion ac ymwelwyr yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r gydberthynas a welir rhwng geoamrywiaeth, bioamrywiaeth ac economi leol gynaliadwy.

**Camau gweithredu'r dyfodol**

Byddwn yn datblygu ymhellach yr "hwb" Geoparc ym Mharc Gwledig Craig y Nos ac yn adnewyddu ein gweithgareddau "allgymorth" ar draws y Geoparc. Rydym ni hefyd am ehangu ar hyd ymyl y maes glo i helpu'r cymunedau hyn integreiddio'n well i'r Geoparc gyda'r nod o wella deilliannau iechyd ac economaidd.



# Y Bannau.

Croesewir y Cynllun hwn, a'r broses o'i ddatblygu, fel fframwaith y gall y Geoparc ei ddefnyddio i gynllunio'i weithgareddau, yn y gobaith y gwnaiff wahaniaeth cadarnhaol i'r dirwedd hon, ei chymunedau a'i busnesau, yn ogystal â'r rhai sy'n ymweld â hi.



# Partneriaeth Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Dathlu, cadw a gwella  
amgylchedd hanesyddol  
y parc cenedlaethol,  
trwy sefydlu rhwydwaith  
gwirfoddol o sefydliadau  
treftadaeth a grwpiau  
cymunedol sy'n rhannu'r  
nod hwn

## Alice Thorne

Swyddog Treftadaeth APCBB

Swyddog Cydgysylltu

Mae ein partneriaeth yn un o'r partneriaethau newydd a sefydlwyd i gyflawni rhaglen Y Bannau. Yn sgil hynny, rydyn ni wedi cyd-lunio Cynllun Gweithredu (HEAP) ar gyfer gwella'r modd y cyd-reolir y Parc o ran ei amgylchedd hanesyddol.

Mae cynrychiolwyr o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, Stori Aberhonddu, Cymdeithas Brycheiniog a Chyfeillion yr Amgueddfa, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog a'r Clwb Archeolegwyr Ifanc, wedi cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Gweithredu, gydag ymgynghoriad a mewnbwn gan rwydwaith ehangach o unigolion, grwpiau ac asiantaethau sy'n gweithio yn y sector. Nid yw'r cynllun yn honni ei fod yn cwmpasu pob gweithgaredd - ond mae'n anelu at ddarparu sylfaen a fframwaith i nodi amcanion a rennir, gwella'r cydgysylltiad, a chanolbwyntio ar adnoddau. Bydd y Cynllun Gweithredu'n darparu mecanwaith ar gyfer blaenoriaethu, darparu a monitro'r gadwraeth ac yn dathlu ein treftadaeth. Bydd hon yn ddogfen waith, i'w diweddarau'n rheolaidd yn y blynyddoedd i ddod.

The plan does not purport to encompass all activity – but aims to provide a foundation and framework to identify shared objectives, improve co-ordination, and focus resources. The HEAP will provide a mechanism for helping to prioritise, deliver and monitor the conservation and celebration of our heritage. This will be a working document, to be updated regularly in the coming years.



Mae ein hasedau hanesyddol yn adnodd cyfyngedig. Unwaith y cânt eu dinistrio, cânt eu colli am byth. Gall difrod, esgeulustod a cholled, gan gynnwys colli mynediad, effeithio ar werth ac arwyddocâd y safleoedd hanesyddol. Felly, mae ymrwymiad i reoli newid yn ofalus yn hanfodol i warchod ein hamgylchedd hanesyddol a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Fodd bynnag, bydd diffyg adnoddau a chapasiti presennol y sector yn cael eu dwysáu gan yr heriau a fydd yn ein hwynebu ni i gyd yn y blynyddoedd i ddod. Mae gweithio mewn partneriaeth, a rhannu cynlluniau gweithredu yn un ffordd y gallwn oresgyn rhai o'r heriau sy'n effeithio ar adnoddau heb lastwreiddio'r gallu i amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol.

Trwy ein partneriaeth a'r cynllun gweithredu a luniwyd gennym ar y cyd, byddwn yn anelu at:

1. ddiffinio cyfres o amcanion a rennir a sicrhau ymrwymiad i gyflawni
2. hyrwyddo rheolaeth o gadwraeth yr amgylchedd hanesyddol
3. ymgysylltu â chymunedau ac ymwelwyr i feithrin dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc
4. gwella cydweithrediad, adnoddau a chapasiti er mwyn cefnogi prosiectau i wella, rheoli, ymchwilio, monitro a dathlu harddwch ac amrywiaeth ein treftadaeth a'n hamgylchedd hanesyddol.

Mae ein Cynllun wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth, i ddiogelu ein Hamgylchedd Hanesyddol a hyrwyddo cydlyniant a chydawnsedd y gwahanol grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol. Bydd yn cyd-fynd â chynlluniau partneriaeth eraill, megis y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) fel tystiolaeth gefndirol ar gyfer Y Bannau sef Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a bydd yn helpu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fe'i paratowyd i'n helpu ni i ofalu am yr amgylchedd hanesyddol o'n cwmpas.

# Partneriaeth Natur Leol.



---

Ailgysylltu pobl â natur, gan  
sicrhau bod natur yn cael ei  
hamddiffyn a'i meithrin yn awr  
ac am genedlaethau i ddyfod.

## Maria Golightly

Co-ordinating officer

Mae ein partneriaeth natur leol mewn sefyllfa unigryw i gyflawni camau gweithredu effeithiol ar lefel leol, sy'n cyfrannu'n gyffredinol at yr agenda cenedlaethol ar gyfer adfer natur.

Mae partneriaethau natur lleol yn gweithredu ym mhob cwr o Gymru, ac mae eu cydlynwyr yn cael eu cynnal gan awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r cydlynwyr hyn yn datblygu ac yn cyflwyno gweithgareddau i gysylltu pobl â byd natur, ac yn ymgymryd â dyletswyddau monitro a chofnodi amrywiol.



### Cynllun Adfer Natur

Rydyn ni'n gweithio yn unol ag amcanion y [Cynllun Gweithredu Adfer Natur - Dyfodol gyda Natur yn Ganolog Iddi](#). Mae hwn yn gynllun cydweithredol ac yn agored i bawb sydd am gyfrannu. Yr awydd a'r ymrwymiad i gyflawni'r cynllun yw'r unig ofyniad ar gyfer bod yn rhan ohono. Mae'r partneriaid presennol yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion sydd i gyd â diddordeb cyffredin mewn amddiffyn a chryfhau ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.

### Gwrthod dirywiad

Nod y bartneriaeth yw helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy ganolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn (mewn geiriau eraill "rhwydweithiau ar gyfer adfer natur") fel eu bod yn fwy amrywiol, yn fwy o ran maint, mewn cyflwr ecolegol gwell ac yn fwy cydgysylltiedig.

Mae angen i ni helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r syniad o amgylchedd naturiol iachach a'r manteision niferus a ddaw yn ei sgil pan fydd mewn cyflwr da. Rhaid i ni ddathlu a rhannu ein gwybodaeth am asedau naturiol y Parc, egluro'r potensial ar gyfer adfer natur ac addasu ein neges i'r cynulleidfaoedd yr ydyn ni'n gweithio gyda nhw, i ddangos perthnasedd natur i bawb.

### Ein hamcanion allweddol yw:

- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro o wytnwch ecolegol yn y Parc Cenedlaethol.
- Gweithio gyda phartneriaid ar bob lefel i uno camau gweithredu lleol er mwyn adfer byd natur a'u hintegreiddio â chynlluniau a strategaethau perthnasol ar gyfer adnoddau naturiol. Gwarchod, adfer a chreu cynefinoedd.
- Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy ddiogelu'r cynefinoedd lled-naturiol presennol, adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd newydd. Gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd ffocal.
- Nodi a chyflawni camau gweithredu penodol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd allweddol fel rhan o raglen weithredu integredig ehangach ar gyfer adfer natur. Bydd hyn yn gynhwysol ac wedi'i gyfleu'n dda.
- Ymgysylltu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd ynghylch adfer natur gan ddefnyddio gwahanol iaith a thechnegau i amlygu perthnasedd byd natur i ni i gyd ac felly datblygu ymgysylltiad a gweithredu ar bob lefel.

# Y Bannau.

Gyda'i ffocws ar adfer byd natur ar gyfer pobl a lleoedd, mae rhaglen Y Bannau yn ein helpu i ddod â'n neges i gynulleidfa ehangach. Mae'r Cynllun yn darparu sylfaen gref i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur nesaf, a fydd, gobeithio, yn ceisio cryfhau'r gwaith o gyflawni'r genhadaeth.



# Meithrin Mynydd.

Rhannu gwybodaeth er  
mwyn rheoli tir comin yn  
well yng ngorllewin y Parc  
Cenedlaethol

## Judith Harvey

Swyddog Cydlyn

Mae Meithrin Mynydd yn bartneriaeth gymdeithasau a chynrychiolwyr y porwyr, tîrfeddianwyr a chyrff perthnasol y sector cyhoeddus sy'n cwmpasu'r Mynydd Du yng ngorllewin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae ein partneriaeth yn rhannu gwybodaeth werthfawr ac yn hwyluso rheolaeth yr unedau tir comin. Ein nod yw cael y dull cydweithredol hwn o weithio ar draws y dirwedd gyfan, gan hyrwyddo'r dasg o reoli'r tir yn llwyddiannus ac yn effeithiol ar gyfer pobl, natur a harddwch naturiol.



### Ein rôl

Fel grŵp gwirfoddol, rydyn ni'n dod at ein gilydd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin gyda'r nod o sicrhau deilliannau gwell i'r ucheldiroedd o dan ein rheolaeth. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n bwrw ymlaen ag ystod o feysydd gwaith, gan gynnwys Mynd i'r afael â phwysau cynyddol o'r sector hamdden a cheisio atal yr effaith ar dda byw sy'n pori.

- Mynd i'r afael â rheoli llwyth tân trwy bori ar yr ucheldiroedd yn effeithiol
- Pori er lles cadwraeth ar safle Heneb Gofrestredig Garn Goch
- Asesu cynefinoedd ein ucheldiroedd a'r modd y gall arferion amaethyddol gyfrannu at adfer byd natur
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau gwledig a'r her economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o hynny.

### Ein gweledigaeth

Bydd y tiroedd comin yn parhau i gael eu pori, gan gynnal hyfywedd economaidd y ffermydd bychain. Mae'r ffermydd bychain hyn yn sylfaenol i gyfoethogi a gwarchod treftadaeth Gymreig y Parc. Maent yn rhan werthfawr iawn o'n treftadaeth ddiwylliannol, a'n cymunedau Cymraeg eu hiaith. Gyda'r cymorth hwn, byddwn yn gweld lefelau priodol o bori, sy'n hyrwyddo enillion o ran bioamrywiaeth ac yn lleihau'r risg o dân.

### Camau gweithredu'r dyfodol

Ein nod yw datblygu Cynllun Rheoli i gefnogi cadwraeth a gwelliant parhaus Y Mynydd Ddu trwy arferion rheoli tir traddodiadol. Ein nod yw sicrhau bod ffermio defaid traddodiadol yng Ngorllewin y Parc yn parhau i fod yn hyfyw yn economaidd ac yn galluogi natur i ffynnu. Ein nod yw i'r Cynllun hwn fod yn sylfaen i ystod o ymyriadau gyda'r nod o gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth.

(c) Peter Fry ARPS



# Partneriaeth Dalgyllch Afon Wysg.

---

Partneriaeth ddatblygol sy'n  
ceisio ail-greu gwytnwch  
ecolegol Afon Wysg a'i  
dalgyllch





## Helen Iucocq

Swyddog Cydlyn

Afon Wysg yw'r system afon warchoddedig hiraf yng Nghymru, ac mae wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig.

Canfu ymchwil a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru fod 87% o'r cyrff dŵr yn nalgylch Afon Wysg yn methu'r lefelau targed ar gyfer y maetholyn ffosfforws. Mae ffosfforws yn cael ei ystyried yn eang fel y maetholyn mwyaf niweidiol i ecosystemau dyfrol, ac sydd fwyaf tebygol o gynyddu yn y dyfodol yn sgil newid hinsawdd. Mae ymchwil a wnaed yn y dalgylch yn nodi bod ystod o ffactorau yn cyfrannu at lefelau maetholion yn Afon Wysg ac mai dim ond gweithredu trwy ddull partneriaeth y gellir datrys y problemau hyn.



## Heriau'r dyfodol

Nid ffosffadau yw'r unig broblem y mae dalgylch Afon Wysg yn ei wynebu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae maint ac amllder llifogydd wedi cynyddu gan achosi niwed cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Mae'r dalgylch wedi'i nodi fel ardal sydd dan fygythiad gan lu o rywogaethau estron goresgynnol a niweidiol. Mae yna halogion posibl eraill nad oes data ar gael ar eu cyfer hyd yma, e.e. Nitradau ac Amonia, a'u goblygiadau megis newidiadau mewn pH dŵr a chynnydd yn y galw am ocsigen biolegol. Mae lefelau echdynnu o Afon Wysg yn uchel iawn, a gwneir hynny'n rhannol i wasanaethu Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, ond hefyd i gyflenwi dŵr er defnydd yfed ac amaethu. Mae pwysau o du'r sector hamdden ar Afon Wysg yn uchel, gyda llawer yn defnyddio'r dyfroedd ar gyfer pysgota a chwaraeon dŵr.

Mae'r holl ffactorau hyn, gyda'i gilydd, wedi mynd ag Afon Wysg heibio i drobwynt o ran integreidd ecolegol.

Mae angen gweithredu'n bendant ac ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng a sicrhau'r newid trawsnewidiol sydd ei angen ar reolaeth tir ac ymddygiad.

Rydyn ni wedi bod yn ffodus i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â'r problemau ffosffad y mae Afon Wysg yn eu hwynebu; fodd bynnag, credwn y dylid gwneud hyn drwy'r bartneriaeth am na allwn daclo'r mater ar ein pennau ein hunain. Dyna pam mae'r bartneriaeth ar gyfer Afon Wysg yn canolbwyntio ar ailsefydlu a diogelu nodweddion gwarchoddedig Afon Wysg er budd cenedlaethau'r dyfodol.

## Dull cydlunio

Hyd yma, mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu strwythur cadarn sy'n cynrychioli'r ystod a'r amrywiaeth o ddiddordebau a materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae adnoddau sylweddol wedi'u neilltuo i gyd-lunio'r strwythur hwn er mwyn sicrhau bod ganddo'r gallu i ddatblygu cynllun gweithredu cyflawnadwy ar gyfer Afon Wysg. Drwy ganolbwyntio ar gyd-lunio strwythur y bartneriaeth, rydym wedi ceisio creu consensws o'r dechrau. Mae'r partneriaid sy'n ymwneud â'r cyd-lunio wedi cynnwys Dŵr Cymru, CNC, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Powys, Cyngor Dinas Casnewydd, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Sefydliad Gwy ac Wysg, UAC, UCA, Grŵp Dŵr y Bannau (grŵp ffermio lleol), a sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol. Mae ein gwaith yn parhau i gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a'i Chynllun Gweithredu Ffosffad.

## Camau gweithredu'r dyfodol

Erbyn hyn, mae'r bartneriaeth yn bwriadu comisiynu tystiolaeth bellach er mwyn cyd-ganfod y camau sydd eu hangen arnom i adeiladu gwytnwch ecolegol y dalgylch. Cefnogir y bartneriaeth yn y gwaith hwn gan grŵp cynghori technegol, a fforwm dalgylch ehangach sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr a hamdden. Y nod yw cynhyrchu Cynllun Gweithredu a gaiff ei gyd-ddefnyddio gan holl aelodau'r bartneriaeth.



# Partneriaeth Bro'r Sgydau.

---

Cymryd camau i sicrhau bod  
Bro'r Sgydau yn lle diogel a  
phleserus i fyw, gweithio ac  
ymweld ag ef.

## Helen Roderick

Swyddog Cydlyn

Rydyn ni'n grŵp o bobl leol a swyddogion cyflogedig ac yn dod at ein gilydd i weithredu ar faterion allweddol sy'n wynebu Bro'r Sgydau.

Mae ein haelodaeth o reidrwydd yn eang: mae gennym gynrychiolwyr o'r Awdurdodau Unedol perthnasol, grwpiau cymunedol, a rheolwyr tir fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rydwn ni'n gweithio i reoli'r ardal fel cyrchfan i ymwelwyr sy'n dod â budd i'r amgylchedd a'r gymuned.

Cawsom ein ffurfio beth amser yn ôl a bryd hynny roedd ein ffocws yn un strategol a oedd yn anelu at ddod ag asiantaethau allweddol ynghyd i gyfuno syniadau ar ffyrdd o gyd-reoli'r ardal i'r dyfodol. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig, cynyddodd nifer yr ymwelwyr â Bro'r Sgydau ymhell y tu hwnt i gapasiti'r seilwaith presennol. Am hynny, bu raid inni ffocysu'n fawr iawn ar liniaru'r effeithiau a ddaw yn sgil lefelau ymwelwyr o'r fath. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar weithredu, wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud newidiadau allweddol - ond mae mwy i'w wneud o hyd.



## Heriau'r dyfodol

Mae Bro'r Sgydau yn un o'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr yn yr holl Barc Cenedlaethol. Mae hyn yn dyst i ansawdd ei dirwedd ysblennydd - mae'r rhaeadrau mawreddog sy'n plymio'n ddramatig trwy'r dyffrynnoedd coediog a serth a'r doreth o fywyd gwyllt, yn creu profiad syfrdanol.

Yn sgil poblogrwydd Bro'r Sgydau, mae'n her i'r ardal fedru darparu ar gyfer nifer yr ymwelwyr yn ddiogel. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Bro'r Sgydau wedi dod yn enghraifft o "or-dwristiaeth"; hynny yw, mae nifer yr ymwelwyr bellach yn achosi niwed i'r ardal ar raddfa ac i'r graddau y mae angen gweithredu ar frys.

Efallai mai Bro'r Sgydau yw ardal fwyaf bioamrywiol y Parc Cenedlaethol gyda'i ddyfnentydd a cheunentydd yn torri drwy'r goedwig law dymherus a'r Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r rhanddeiliaid wedi datblygu dealltwriaeth o sensitifrwydd Bro'r Sgydau, ac wedi creu cynllun rheoli, codau ymddygiad a Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Bro'r Sgydau. Caiff pwysau o du'r ymwelwyr ei fonitro mewn perthynas â chapasiti'r llwybrau troed, sydd yn ei dro yn effeithio ar gapasiti'r ecoleg.

## Nifer yr ymwelwyr

Penbleth enfawr i'r bartneriaeth yw'r mater o fynediad i ymwelwyr. Rydyn ni eisiau ac yn croesawu ymwelwyr i'r ardal, ac rydyn ni'n gwybod bod yr ardal hon yn cael ei choleddu gan lawer o ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd, ond mae'r niferoedd sy'n dod i'r ardal wedi mynd y tu hwnt i'r pwynt lle mae'n ddiogel. Mae'r niferoedd hyn o ymwelwyr yn niweidiol i'r ecosystemau bregus sy'n rhan o amgylchedd Bro'r Sgydau, a hefyd yn niweidiol i'r rhai sy'n byw yn y cymunedau dan sylw wrth iddynt gael eu boddi gan geir yr ymwelwyr bob blwyddyn.

## Trafnidiaeth gynaliadwy

Ar hyn o bryd, yr unig ffordd wirioneddol ymarferol i ymwelwyr ddod i fwynhau Bro'r Sgydau yw mewn car preifat. Nid yn unig y mae hyn yn creu lefelau enfawr o bwysau parcio o fewn pentrefi gwledig bach, ond y mae hefyd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer. Mae niferoedd y ceir yn creu anhrefn ac yn amharu ar rinweddau arbennig y Parc. Mae'r allyriadau yn effeithio ar yr argyfwng natur a bioamrywiaeth.

## Darparu buddiant cymunedol

Mae gan yr economi ymwelwyr y potensial i gyfrannu'n sylweddol at incwm yr ardal a'r cyffiniau, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghwm Nedd Uchaf. Ar hyn o bryd, am ba reswm bynnag, mae gwariant ymwelwyr yn eithriadol o gyfyngedig ac nid yw'r ardaloedd yn cael llawer o fudd economaidd o lefelau'r ymwelwyr sy'n pasio drwodd bob blwyddyn.

## Gweledigaeth y dyfodol

Rydwn ni am greu dyfodol lle mae'r rhaeadrau yn gyrchfan gynaliadwy i ymwelwyr, yn cael eu rheoli mewn partneriaeth, ac yn cyfrannu at yr economi ymwelwyr lleol. Mae gwireddu'r weledigaeth hon yn dibynnu ar waith parhaus y bartneriaeth hon ymhell i'r dyfodol. Dim ond trwy gyfuno ein hadnoddau y gallwn ni sicrhau profiad diogel a phleserus i'r rhai sy'n ymweld â Bro'r Sgydau.

# Y Bannau.

Mae'r Bannau yn cyd-fynd yn dda â gwerthoedd y Bartneriaeth. Credwn ein bod eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at nodau'r Cynllun, ac yn gobeithio y gallwn ni godi proffil y dasg o reoli ymwelwyr yn gynaliadwy fel rhywbeth sy'n gweithredu er budd natur, dŵr a hinsawdd yn ogystal â phobl a lle.



# Tîm Eich Bannau'r Dyfodol.

Mae'r ddogfen hon a gwaith y Cynllun Rheoli yn ganlyniad tîm ymroddedig o bobl sydd ag angerdd gwirioneddol dros oroesiad y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Gallwch ddarllen mwy amdanom ni a sut i gysylltu â ni isod.



**Helen Roderick**

[helen.roderick@beacons-npa.gov.uk](mailto:helen.roderick@beacons-npa.gov.uk)

Mae Helen yn bartner mewn busnes ffermio a chafodd ei geni a'i magu yn y Parc. Mae gan Helen angerdd am dechnegau ffermio cynaliadwy ac mae'n credu'n gryf mai ffermwyr yw dyfodol y Parc. Mae gan Helen hanes hir o ddatblygu cymunedol yn y Parc ac ar hyn o bryd mae'n arwain ar ein gwaith rhanddeiliaid.



**Naomi Davies**

[naomi.davies@beacons-npa.gov.uk](mailto:naomi.davies@beacons-npa.gov.uk)

Mae Naomi, y ferch leol, yn byw ar fferm ei rhieni. Mae ei chefnidir mewn practis gwledig ac mae ganddi bennaeth da iawn ar arallgyfeirio ar ffermydd a datblygu busnes. Naomi yw un o'r bobl fwyaf effeithlon y byddwch chi byth yn cwrdd â nhw ac mae'n ein cadw ni'n drefnus ac ar y trywydd iawn. Mae Naomi yn arwain datblygiad safle-benodol.



**Liz Hutchins**

[liz.hutchins@beacons-npa.gov.uk](mailto:liz.hutchins@beacons-npa.gov.uk)

Mae Liz Hutchins yn Uwch Gyngorydd Polisi, yn gweithio ar Gynllun Rheoli Bannau'r Dyfodol. Mae cefndir Liz mewn ymgyrchu amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol ac mae'n angerddol dros adeiladu byd tecach a mwy cynhwysol wrth i ni ymateb ar frys i argyfyngau hinsawdd ac ecolegol. Ei rôl flaenorol oedd Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd Cyfeillion y Ddaear, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Liz yn byw yn y Parc ac yn caru ac yn dysgu Cymraeg.



**Sophie Jones**

[sophie.jones@beacons-npa.gov.uk](mailto:sophie.jones@beacons-npa.gov.uk)

Tyfodd Sophie i fyny yn archwilio'r bannau, gan roi gwerthfawrogiad ac angerdd iddi am ein byd naturiol a'r fioamrywiaeth sy'n byw ynddo. Gan fynd ymlaen i astudio cysylltiadau rhyngwladol a datblygiad byd-eang, datblygodd frwdfrydedd dros gynaliadwyedd, gwneud newidiadau, a hanes gan ei harwain i weithio ar brosiectau o amgylch yr amgylchedd hanesyddol ochr yn ochr â'i gwaith gwirfoddol amgylcheddol.



**Helen Lucoq**

[helen.lucoq@beacons-npa.gov.uk](mailto:helen.lucoq@beacons-npa.gov.uk)

Ganed Helen yn Abertawe ond mae ganddi hanes hir a chariadus gyda Bannau Brechyniog (un o hoff ffrindiau ei phlentynod oedd masgot y Parc ar un adeg, Spikey the Hedgehog). Yn dipyn o polymath, mae diddordebau Helen yn amrywio o adrodd straeon, i dreftadaeth, i economeg, er mai fel cynllunydd tref siartredig yw ei swydd bob dydd. Mae mab ifanc Helen wedi ei syfrdanu gan newid hinsawdd, felly mae hi wedi addo gwneud ei gorau glas i'w ddatrys.



**Chris O'Brien**

[christopher.obrien@beacons-npa.gov.uk](mailto:christopher.obrien@beacons-npa.gov.uk)

Mae Chris wedi byw yn Aberhonddu ers dros 15 mlynedd. Yn gynllunydd tref siartredig, mae cariad Chris at yr awyr agored yn golygu ei fod wedi arbenigo mewn materion amgylcheddol ac yn gweithio tuag at gymhwyster arweinydd bryniau a rhostir. Mae hefyd yn gredwr angerddol ym mudiad y Parc Cenedlaethol ac yn credu y dylai buddion y Parc Cenedlaethol fod yn hygyrch i bobl o bob cefndir eu mwynhau.





# Monitor

# Monitro a chofnodi'r camau a weithredir gan yr holl bartneriaid

Nod Bannau'r Dyfodol yw ysgogi gweithredu ar draws y Parc Cenedlaethol a thu hwnt. Bydd y monitro a'r cofnodi yn cynnwys yr holl bartneriaid yn gweithredu gyda'i gilydd.

Mae'r pum cenhadaeth a fabwysiadwyd ym Mannau'r Dyfodol wedi'u dewis oherwydd dyma'r newidiadau mwyaf sydd eu hangen ar gyfer sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Parc Cenedlaethol.

Mae'n bwysig felly mesur a chofnodi'r cynnydd tuag at gyflawni'r cenadaethau a'r dangosyddion ehangach o gynaliadwyedd y Parc Cenedlaethol – y graddau y mae'r nenfwd ecolegol (Terfynau Planedol) a'r sylfaen gymdeithasol (Nodau Datblygu Cynaliadwy) yn cael eu torri.

Mae cyfres o ddangosyddion wedi'u dewis fel y metrigau gorau ar gyfer deall ac olrhain newid yn y Parc Cenedlaethol mewn perthynas ag Economeg Toesen:

- Nenfwd ecolegol (Terfynau Planedol)
- Sylfaen gymdeithasol (Nodau Datblygu Cynaliadwy), a'r
- “gofod diogel a chyfiawn” yng nghanol y cylch sy'n adlewyrchu llesiant ecolegol a dynol yng nghyd-destun unigryw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r dangosyddion wedi'u dewis oherwydd eu bod yn cynrychioli'r metrig neu'r procsi uniongyrchol gorau, ac oherwydd y rhagwelir y bydd data ar gael i olrhain newid dros gyfnod hir. Nodwyd dangosyddion trwy sesiynau gweithdy manwl gyda chyfraniadau arbenigol gan swyddogion APCBB a Phanel Cyfeirio Rhanddeiliaid y Parc Cenedlaethol.

# Amserlenni

Mae sawl amserlen wahanol yn bwysig wrth ystyried dyfodol cynaliadwy'r Parc Cenedlaethol.

Parhaus: Diweddariadau ar wefan APCBB a llwyfannau eraill, a llwyfannau partneriaid, rhannu gwybodaeth am gamau gweithredu a deilliannau, dathlu llwyddiannau, ac amlygu cyfleoedd a heriau.

1 flwyddyn: asesiad blynyddol gan Economeg Toesen o'r Parc Cenedlaethol (“yr archwiliad iechyd”), ac asesiad blynyddol o gynnydd o ran cyflawni'r cenadaethau.

4 blynedd: Adroddiad Cyflwr y Parc 2027 – mae Adroddiad Cyflwr y Parc yn synthesis pwysig o'r holl ddata sy'n cael ei gasglu mewn perthynas â'r doesen. Mae'n foment bwysig i fyfyrion ar y materion allweddol sy'n wynebu'r Parc er mwyn llywio'r adolygiad o gynllun Y Bannau.

5 mlynedd: Hyd cynllun rheoli Bannau'r Dyfodol. Fe'i defnyddir i ganolbwyntio ar weithio tuag at wireddu'r cenadaethau yn y tymor agos.

2030 a 2035: Yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r cenadaethau natur a dŵr a'r genhadaeth hinsawdd, yn y drefn honno.

Sefydliad Cymdeithasol				
Parth	Is-barth	Dangosydd	Sefyllfa bresennol	Roedd angen i raddfa'r sifft fod o fewn y ffin
Addysg	Oedolion	Oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau ffurfiol	Amcangyfrifir bod gan 5.4% o oedolion o oedran gweithio o fewn y PC ddiffyg cymwysterau ffurfiol	
	Ysgolion	Cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd)	Cyflawnodd 5.2% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 5 gradd TGAU A/A* (neu gyfwerth) o gymharu â 22% o fyfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim	
Ynni		Tlodi tanwydd (mae angen gwario 10% neu fwy o'r incwm ar ynni)	Mae 17% o gartrefi gwledig mewn tlodi tanwydd. Nid yw ffigurau APCBB yn hysbys, ond fe'u hystyrir yn uwch na'r cyfartaledd hwn	
Bwyd		Tlodi bwyd	Defnydd amcangyfrifedig o fanciau bwyd yn 4.9% o boblogaeth APCBB	
Rhyw	Cyfartaledd Tâl	Bwlch cyflog rhwng y rhywiau	Amcangyfrifir bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn APCBB yn 12%	
Iechyd		Pedwar neu fwy o ymddygiadau iach yr wythnos yn cael eu mabwysiadu gan blant â chyfoeth teuluol isel.	Ar lefel Cymru dim ond 6% o blant mewn teuluoedd â llai o gyfoeth sy'n arddangos 4 neu fwy o ymddygiadau iach	
Tai	Fforddiadwyedd	Oedolion o oedran gweithio yn gwario mwy na thraean o incwm ar gostau tai	Ym Mannau Brycheiniog mae'r gymhareb morgeisi yn 1:9 sy'n golygu y byddai gweithiwr sy'n ennill cyflog cyfartalog ar gyfer ardal Aberhonddu angen morgais wyth gwaith eu hincwm blyneddol i sicrhau morgais ar gyfer cartref sydd o bris cyfartalog.	
	Digartrefedd	Aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd	Amcangyfrifir bod cyfradd o 37.3 fesul 10,000 o aelwydydd sy'n ddigartref mewn llety dros dro ar draws y Parc Cenedlaethol	
Incwm	Tlodi	Aelwydydd mewn tlodi cymharol	Mae 24% o drigolion APCBB yn byw mewn ardaloedd	

			sydd wedi'u dosbarthu o leiaf 50% o'r rhai mwyaf difreintiedig o ran amddifadedd incwm.	
	Diweithdra	Pobl economaidd weithgar heb gyflogaeth o safon	Ledled Cymru mae 35.5% o bobl â diffyg cyflogaeth o safon. Mae enillion wythnosol gros canolrif o fewn y Parc 20% yn is na lefelau Prydain Fawr	
Diogelwch	Diogelwch rhag niwed	Lefelau amddifadedd cymharol ar gyfer y Gymuned Ddiogelwch	Mae 24% o drigolion APCBB yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu o leiaf 50% o'r rhai mwyaf difreintiedig o ran mesurau diogelwch cymunedol.	
	Diogelwch rhag effeithiau uniongyrchol Newid Hinsawdd	Perygl o Lifogydd	Ar hyn o bryd mae cymuned Crucywel wedi'i nodi fel un sy'n agored iawn i risg o lifogydd (tua 6% o boblogaeth y Parc). Ymhen 100 mlynedd mae'r perygl hwnnw'n ymestyn i Aberhonddu, gan gyfrif am fwy fel 30% o boblogaeth y Parc.	
Iaith		Gwybodaeth am y Gymraeg	Nid oes gan tua 80% o boblogaeth y Parc (a'r cymunedau cyfagos) unrhyw sgiliau Cymraeg	
Llais Gwleidyddol		Canfyddiad unigol ar y gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.	O fewn APCBB amcangyfrifir nad yw 74% o drigolion yn credu bod ganddynt unrhyw ddylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.	
Rhwydweithiau	Mynediad at wasanaethau	Parth lefelau amddifadedd ar gyfer mynediad at wasanaethau – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Mae 81% o ardaloedd o fewn y Parc wedi eu hasesu i fod ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Gyda dros draean o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran gwasanaethau a chyfleusterau yng Nghymru.	
	Rhwydweithiau cymdeithasol	Unigrwydd	Amcangyfrifir bod 10% o oedolion dros 16 oed sy'n byw yn y parc yn teimlo'n unig yn rheolaidd	
Cludiant		Argaeledd cludiant cyhoeddus i fodloni anghenion o ddydd i ddydd	Mae ymchwil a gynhaliwyd gan APCBB yn canfod bod cysylltiadau bus rhwng prif aneddiadau a chytrefi trefol mawr yn darparu	
			gwasanaeth bob dwy awr ar gyfartaledd. Opsiynau cyfyngedig ar gyfer cymudo i'r Parc ac oddi yno.	
Tlodi dŵr		Mae angen gwario 10% neu fwy o incwm ar Ffiliau Dŵr.	Mae data arbrolf a ddatblygwyd o fewn y Parc Cenedlaethol yn awgrymu bod Tlodi Dŵr yn uchel. Fodd bynnag, mae lefel ein hyder yn y canfyddiad hwn yn isel, a bydd angen gwneud mwy o waith i 'gadarnhau' ein rhagdybiaethau.	

Sefydliad Cymdeithasol				
Parth	Is-barth	Dangosydd	Sefyllfa bresennol	Roedd angen i raddfa'r sifft fod o fewn y ffin
Addysg	Oedolion	Oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau ffurfiol	Amcangyfrifir bod gan 5.4% o oedolion o oedran gweithio o fewn y PC ddiffyg cymwysterau ffurfiol	
	Ysgolion	Cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd)	Cyflawnodd 5.2% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 5 gradd TGAU A/A* (neu gyfwerth) o gymharu â 22% o fyfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim	
Ynni		Tlodi tanwydd (mae angen gwario 10% neu fwy o'r incwm ar ynni)	Mae 17% o gartrefi gwledig mewn tlodi tanwydd. Nid yw ffigurau APCBB yn hysbys, ond fe'u hystyrir yn uwch na'r cyfartaledd hwn	
Bwyd		Tlodi bwyd	Defnydd amcangyfrifedig o fanciau bwyd yn 4.9% o boblogaeth APCBB	
Rhyw	Cyfartaledd Tâl	Bwlch cyflog rhwng y rhywiau	Amcangyfrifir bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau o fewn APCBB yn 12%	
Iechyd		Pedwar neu fwy o ymddygiadau iach yr wythnos yn cael eu mabwysiadu gan blant â chyfoeth teuluol isel.	Ar lefel Cymru dim ond 6% o blant mewn teuluoedd â llai o gyfoeth sy'n arddangos 4 neu fwy o ymddygiadau iach	
Tai	Fforddiadwyedd	Oedolion o oedran gweithio yn gwario mwy na thraean o incwm ar gostau tai	Ym Mannau Brycheiniog mae'r gymhareb morgeisi yn 1:9 sy'n golygu y byddai gweithiwr sy'n ennill cyflog cyfartalog ar gyfer ardal Aberhonddu angen morgais wyth gwaith eu hincwm blynyddol i sicrhau morgais ar gyfer cartref sydd o bris cyfartalog.	
	Digartrefedd	Aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd	Amcangyfrifir bod cyfradd o 37.3 fesul 10,000 o aelwydydd sy'n ddigartref mewn llety dros dro ar draws y Parc Cenedlaethol	
Incwm	Tlodi	Aelwydydd mewn tlodi cymharol	Mae 24% o drigolion APCBB yn byw mewn ardaloedd	

			sydd wedi'u dosbarthu o leiaf 50% o'r rhai mwyaf difreintiedig o ran amddifadedd incwm.	
	Diweithdra	Pobl economaidd weithgar heb gyflogaeth o safon	Ledled Cymru mae 35.5% o bobl â diffyg cyflogaeth o safon. Mae enillion wythnosol gros canolrif o fewn y Parc 20% yn is na lefelau Prydain Fawr	
Diogelwch	Diogelwch rhag niwed	Lefelau amddifadedd cymharol ar gyfer y Gymuned Ddiogelwch	Mae 24% o drigolion APCBB yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu o leiaf 50% o'r rhai mwyaf difreintiedig o ran mesurau diogelwch cymunedol.	
	Diogelwch rhag effeithiau uniongyrchol Newid Hinsawdd	Perygl o Lifogydd	Ar hyn o bryd mae cymuned Crucywel wedi'i nodi fel un sy'n agored iawn i risg o lifogydd (tua 6% o boblogaeth y Parc). Ymhen 100 mlynedd mae'r perygl hwnnw'n ymestyn i Aberhonddu, gan gyfrif am fwy fel 30% o boblogaeth y Parc.	
Iaith		Gwybodaeth am y Gymraeg	Nid oes gan tua 80% o boblogaeth y Parc (a'r cymunedau cyfagos) unrhyw sgiliau Cymraeg	
Llais Gwleidyddol		Canfyddiad unigol ar y gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.	O fewn APCBB amcangyfrifir nad yw 74% o drigolion yn credu bod ganddynt unrhyw ddylanwad dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.	
Rhwydweithiau	Mynediad at wasanaethau	Parth lefelau amddifadedd ar gyfer mynediad at wasanaethau – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Mae 81% o ardaloedd o fewn y Parc wedi eu hasesu i fod ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Gyda dros draean o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran gwasanaethau a chyfleusterau yng Nghymru.	
	Rhwydweithiau cymdeithasol	Unigrwydd	Amcangyfrifir bod 10% o oedolion dros 16 oed sy'n byw yn y parc yn teimlo'n unig yn rheolaidd	
Cludiant		Argaeledd cludiant cyhoeddus i fodloni anghenion o	Mae ymchwil a gynhaliwyd gan APCBB yn canfod bod cysylltiadau bus rhwng prif aneddiadau a chytrefi trefol mawr yn darparu	



			gyfartaledd. Opsiynau cyfyngedig ar gyfer cymudo i'r Parc ac oddi yno.										
Tlodi dŵr		Mae angen gwario 10% neu fwy o incwm ar Filiau Dŵr.	Mae data arbrofol a ddatblygwyd o fewn y Parc Cenedlaethol yn awgrymu bod Tlodi Dŵr yn uchel. Fodd bynnag, mae lefel ein hyder yn y canfyddiad hwn yn isel, a bydd angen gwneud mwy o waith i 'gadarnhau' ein rhagdybiaethau.										

## Craidd y Parc

Parth	Is-barth	Dangosydd	Sefyllfa bresennol										
Gwybodaeth am Ymwelwyr	Ymddygiad	Mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdanynt drwy ffurflen adrodd APCBB	Rhwng Mai 22 a Mawrth 23, adroddwyd am 13 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol i APCBB. Roedd 23% o adroddiadau yn ymwneud â thipio anghyfreithlon Roedd 46% yn ymwneud ag anifeiliaid wedi marw neu wedi'u hanafu Roedd 30% yn ymwneud â rêfs neu wersylla anghyfreithlon										Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol
	Deall	Adrodd am fynediad at wybodaeth cyn neu yn ystod ymweliad	Nid yw 39% o ymwelwyr yn cyrchu gwybodaeth yn ystod eu hymweliadau â'r Parc.										Diffyg cymdeithasol
Tirwedd	Cyflwr	Cyflwr y dirwedd	Mae Asesiad Tirwedd Reading yn nodi bod angen adfer 4 o bob 12 math o gymeriad tirwedd (25%).										Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol
			Mae data gweledol a synhwyrdd LANDMAP yn nodi bod 60% o'r Parc o ansawdd tirwedd uchel neu ragorol. Mae 36% o ansawdd tirwedd y Parc yn dirywio ac mae 16% o'r ardal dirwedd dan reolaeth amhriodol.										
Cludiant ymwelwyr		Defnydd o gludiant cyhoeddus i gael mynediad i'r parc a theithio yn ystod arhosiad.	Defnyddiodd 83% o'r ymwelwyr a holwyd gar neu fan preifat i deithio yn ystod eu hymweliad.										Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol

Amgylchedd Hanesyddol		Cyflwr yr holl nodweddion hanesyddol boed yn gofrestredig ai peidio.	Mae data a gasglwyd yn 2019 yn dangos bod 18% o 358 o Gofadeiladau Cofrestredig gwarchoddedig y Parc mewn cyflwr anffafriol.																		Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol
																					Diffyg cymdeithasol
Treftadaeth ddiwylliannol		Nifer o ddigwyddiadau cymunedol traddodiadol.	64 o ddigwyddiadau diwylliannol wedi'u cynnal yn 2019 (gan gynnwys Eisteddfodau a Sioeau Amaethyddol)																		Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol
																					Diffyg cymdeithasol
Tywyllwch a llonyddwch	Tywyllwch	Ansawdd Awyr y Nos	Mae PCBB yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae mwyafrif y Parc yn cofrestru ar y lefelau isaf o allyriadau pelydriad, sy'n golygu bod yr ardal yn un lle mae awyr dywyll amlycaf. Fodd bynnag, mae lefelau llawer uwch yn yr ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uchel.																		Osgoi mynd y tu hwnt i'n capasiti amgylcheddol

	Llonyddwch	Llonyddwch cyffredinol y Parc Cenedlaethol.	Mae 83% o'r Parc wedi'i ddsbarthu fel un heb ei aflonyddu.																		
Profiad ymwelwyr	Mwynhad	Lefelau o fwynhad ymwelwyr a adroddwyd.	Mae 85% o ymwelwyr o'r fam bod eu hymweliad â'r Parc yn 'dda iawn' ac 13% yn dda. Nid oes unrhyw raddfeydd negyddol.																		Gorowg amgylcheddol
																					Diffyg cymdeithasol
Mynediad	Rhwydwaith hawliau tramwy	Hygyrchedd cyffredinol y Parc Cenedlaethol i bob defnyddiwr.	1n 2019 Nid oedd 34% o'n hawliau tramwy yn cael eu hystyried yn hawdd i'w defnyddio.																		

# Monitro ac adrodd ar gamau gweithredu gan yr holl bartneriaid

Nod Y Bannau: Y Dyfodol yw ysgogi gweithredu ar draws y Parc Cenedlaethol a thu hwnt. Bydd monitro ac adrodd yn cynnwys yr holl bartneriaid yn gweithredu gyda'i gilydd.

## Monitro ac adrodd ar y pum cenhadaeth, a dangosyddion Toesen

Mae'r pum cenhadaeth a fabwysiadwyd yn Y Bannau: Y Dyfodol yn cael eu dewis oherwydd dyma'r newidiadau mwyaf sydd eu hangen i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Parc Cenedlaethol.

